Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) | STANDING ADVISORY COUNCIL FOR RELIGIOUS EDUCATION (SACRE) |
| DYDD MAWRTH, 9 HYDREF 2018 AM 2.00 O'R GLOCH | TUESDAY, 9 OCTOBER 2018 AT 2.00 PM |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1 SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1 COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Shirley Cooke 01248 752514 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

Glyn Haynes, Aled Morris Jones, Gwilym O Jones, Alun Mummery, Dylan Rees, Alun Roberts

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Christopher Thomas (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Parch/Rev Kate McClelland (Yr Eglwys Fethodistaidd/The Methodist Church), Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Yr Athro/Professor Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents), Sedd Wag/Vacant Seat (Yr Eglwys Bresbyteraidd/ Presbyterian Church of Wales)

**Athrawon / Teachers**

Mrs Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Manon Morris Williams (Ysgol Gynradd Llangaffo), Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern), Sedd Wag/Vacant Seat

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Mr Rheinallt Thomas

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFOD - 18 EBRILL 2018** (Tudalennau 1 - 6)

- Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2018.

- I drafod unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion.

3 **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG MÔN AR GYFER 2016/17** (Tudalennau 7 - 34)

- Cyflwyno Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn ar gyfer 2016/17.

- Arfarnu Cynllun Gweithredu CYSAG.

4 **ADRODDIAD ESTYN** (Tudalennau 35 - 74)

Cyflwyno adroddiad ar Arolwg Estyn (Mehefin 2018) mewn perthynas ag Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 2 and Chyfnod Allweddol 3.

5 **SAFONAU ADYSG GREFYDDOL** (Tudalennau 75 - 80)

Cyflwyno gwybodaeth mewn perthynas ag arolygiadau ysgolion - Hydref 2017, Gwanwyn ac Haf 2018.

6 **CANLLAWIAU HUNAN ARFARNU ADDYSG GREFYDDOL AC ADDOLI AR Y CYD**

Cyflwyno canllawiau i Ysgolion Môn ar sut i hunan arfarnu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd.

7 **CYFARFOD GWEITHDY CYSAG YNGHYLCH Y CWRICILWM NEWYDD** (Tudalennau 81 - 114)

- Cyflwyno diweddariad gan Mr Christopher Thomas, CYSAG Môn, ar y cyfarfod o'r Gweithdy CYSAG a gynhaliwyd ar 18 Medi 2018.

- Cyflwyno'r cyhoeddiad ar y Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (Haf 2018).

8 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU** (Tudalennau 115 - 116)

Derbyn diweddariad gan Gadeirydd CYSAG Môn ar gyfarfod CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ym Môn ar 7 Gorffennaf 2017.

9 **GOHEBIAETH** (Tudalennau 117 - 118)

- Derbyn llythyr gan Kirsty Williams, AM, mewn ymateb i ohebiaeth y Cadeirydd ynglŷn â phryderon ynghylch TGAU a CBAC Safon Uwch mewn

Addysg Grefyddol.

- **Aelodaeth Dyneiddiol CYSAG Ynys Môn**

  I ystyried cais i aelod o'r Grŵp Dyneiddwyr lleol gael ymuno â CYSAG Môn.

**10** **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodi bod y cyfarfod nesaf y CYSAG wedi ei raglennu ar gyfer 19 Chwefror 2019.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd) |
| | **Yr Awdurdod Addysg** |
| | Y Cynghorwyr Gwilym O Jones, Alun W Mummery |
| | **Yr Enwadau Crefyddol** |
| | Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru)<br>Mrs Catherine Jones (Undeb Bedyddwyr Cymru)<br>Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb Annibynwyr Cymru)<br>Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig) |
| **WRTH LAW:** | Mr D Gareth Jones (Swyddog Addysg)(Clerc y CYSAG)<br>Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Glyn Haynes, Bryan Owen<br>Mrs Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch)<br>Mrs Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)<br>Mrs Einir Morris (Eglwys Bresbyteraidd Cymru) |

---

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF – 10 HYDREF 2017**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y CYSAG a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2017 a chadarnhawyd eu bod yn gywir, yn amodol ar y canlynol:-

**Eitem 3 – Materion yn Codi**

- Ni dderbyniwyd ymateb gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch penderfyniad y Pwyllgor Deisebau ynglŷn ag addoli ar y cyd.

**Gweithredu:**

**Y Swyddog Addysg i ofyn i Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru roi gwybodaeth i'r CYSAG am ganlyniad y penderfyniad ar y ddeiseb addoli ar y cyd.**

- Mewn ymateb i bryderon y CYSAG fod diwinyddiaeth yn dirywio mewn ysgolion a cholegau, mae Deon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi gofyn am ragor o wybodaeth, er mwyn ymateb i gais y CYSAG.

  **Gweithredu:**

  **Y Swyddog Addysg i ysgrifennu at Ddeon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i fynegi pryderon ynglŷn â dyfodol hyfforddi athrawon yng Nghymru, a'r diffyg cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd i ddarpar fyfyrwyr dderbyn hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.**

- Mewn perthynas ag Adolygiad Thematig Estyn, cadarnhawyd fod sylwadau'r CYSAG ynglŷn â'r Adolygiad Thematig wedi eu hanfon at Estyn.

  Gwnaed cais i rannu â'r CYSAG y cwestiynau a anfonwyd gan Estyn at ysgolion er mwyn eu cynnwys yn y templed adroddiad hunanarfarnu newydd.

  **Gweithredu:**

  **Y Swyddog Addysg i anfon copi o'r templed newydd ar gyfer adroddiadau hunanarfarnu ysgolion i'r CYSAG.**

**3. CRYNODEB Y CADEIRYDD O ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG YNYS MÔN 2016/17**

Cyflwynwyd Crynodeb y Cadeirydd er ystyriaeth gan y CYSAG.

Adroddodd y Cadeirydd fod CYSAG Ynys Môn wedi mabwysiadu Adroddiad Blynyddol drafft 2016/17 yn y cyfarfod diwethaf.

**PENDERFYNWYD derbyn Crynodeb y Cadeirydd o Adroddiad Blynyddol CYSAG 2016/17.**

**Gweithredu:**

**Y Swyddog Addysg i anfon copi o Grynodeb y Cadeirydd at y Pennaeth Dysgu er mwyn cwblhau Adroddiad Blynyddol CYSAG 2016/17.**

**4. SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL**

- **Arolygiadau Ysgolion Estyn – Hydref 2017 a Gwanwyn 2018**

Cyflwynwyd er ystyriaeth gan y CYSAG, adroddiad y Swyddog Addysg yn ymgorffori gwybodaeth o adroddiadau Arolygiadau Estyn a gynhaliwyd yn Ysgol Penysarn, Ysgol y Fali, Ysgol Brynsiencyn, Ysgol Llanbedrgoch, Ysgol Santes Gwenfaen, Rhoscolyn ac Ysgol Rhosybol.

Cadarnhaodd y Swyddog Addysg nad oedd unrhyw faterion yn codi o'r arolygiadau a gynhaliwyd yn yr ysgolion.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y wybodaeth a gyflwynwyd.**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn:-

- Tynnwyd sylw at anghysonderau yn adroddiadau Estyn Ysgol Penysarn ac Ysgol Llanbedrgoch, gan fod y term ‘cydaddoli’ yn cael ei ddefnyddio yn Gymraeg yn hytrach na’r term cywir, sef ‘addoli ar y cyd’.

- Mynegodd Aelodau eu pryder am ddiffyg addoli ar y cyd mewn rhai ysgolion yng Ngogledd Cymru. Nodwyd fod ysgolion sydd ddim yn cymryd rhan mewn addoli ar y cyd wedi derbyn dyfarniad cadarnhaol gan Estyn. Nid yw canllawiau Estyn yn caniatáu dyfarnu adroddiad negyddol os nad oes darpariaeth addoli ar y cyd mewn ysgol.

Rhannodd y Swyddog Addysg ganllawiau Estyn ar gyfer Addysg Grefyddol, o dan y teitl ‘Diweddariad ar gyfer Arolygwyr (Ebrill 2018)’. Tynnwyd sylw at y dyfyniad a ganlyn o’r canllawiau:-

*‘Efallai nad effeithir ar y farn ar gyfer MA4 os na fodlonir y ddyletswydd statudol. Mae hyn yn rhywbeth i’r tîm ei ystyried. Bydd angen i’r tîm bwyso a mesur nifer o ffactorau ym mhob achos penodol, er enghraifft nifer y disgyblion y mae’n effeithio arnynt, a bydd rhaid i’r tîm benderfynu p’un a yw hyn yn arwyddocaol ai peidio, a ph’un a ddylai effeithio ar y farn gyffredinol ar gyfer MA4. Ni waeth p’un a fydd arolygwyr yn penderfynu adrodd ar addoli ar y cyd ai peidio, rhaid iddynt bob amser adrodd ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.’*

Roedd y CYSAG o’r farn fod addysgu’r Dyniaethau mewn ysgolion yn cymryd lle addoli ar y cyd.

**Gweithredu:**

**Gofynnodd y Cadeirydd am gynnwys ‘Addoli ar y Cyd mewn Ysgolion’ ar agenda cyfarfod nesaf Cymdeithas CYSAGau Cymru yn Ynys Môn ar 6 Gorffennaf 2018.**

**Hunanarfarniad Ysgolion**

Cyflwynwyd a derbyniwyd, adroddiadau hunanarfarnu Ysgol Corn Hir, Llangefni ac Ysgol Pentraeth.

**Gweithredu: Dim**

## 5. CEFNOGAETH I’R DYFODOL

Adroddodd y Swyddog Addysg fod GwE wedi penderfynu rhoi’r gorau i ddarparu cefnogaeth ar gyfer CYSAGau Gwynedd ac Ynys Môn. Nodwyd fod Miss Bethan James wedi darparu cefnogaeth ac arweiniad amhrisiadwy i

CYSAG Ynys Môn am nifer o flynyddoedd yn ei rôl fel Ymgynghorydd Cymorth (GwE) ac Ymgynghorydd Dyniaethau i Gwmni Cynnal cyn hynny.

Yn ogystal, adroddodd y Swyddog Addysg nad yw cefnogaeth GwE i'r CYSAG yn rhan o'r cytundeb gyda'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, mae GwE yn fodlon trafod opsiynau gyda'r Cyngor ar gyfer darparu cefnogaeth petai'r Cyngor yn dymuno newid y cytundeb presennol. Mae'r Cadeirydd wedi ysgrifennu at y Pennaeth Dysgu yn mynegi pryderon y CYSAG a'i siom ynglŷn â'r modd y cafodd cefnogaeth GwE ei dynnu'n ôl, heb rybudd swyddogol.

Roedd y CYSAG o'r farn fod y gefnogaeth a'r arweiniad a dderbyniwyd gan yr Ymgynghorydd Cymorth yn hanfodol er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau fel corff statudol, ac i fonitro safonau Addysg Grefyddol yn ysgolion Môn. Nodwyd nad oes modd cyflawni gwaith y CYSAG heb dderbyn cefnogaeth ac arweiniad priodol.

**Gweithredu:**

- **Y Cadeirydd i ysgrifennu at Mr Arwyn Thomas, Prif Weithredwr GwE, i fynegi pryderon y CYSAG.**
- **Y Swyddog Addysg i ysgrifennu at y Pennaeth Dysgu i ofyn iddo sicrhau fod y CYSAG yn cael y cyllid angenrheidiol i gael yr abenigedd a'r arweiniad sydd ei angen.**
- **Rhoi gwybodaeth i'r Aelod Portffolio Addysg ynglŷn â phryderon y Pwyllgor mewn perthynas â phenderfyniad GwE i roi'r gorau i ddarparu cefnogaeth i'r CYSAG.**

Adroddodd y Cadeirydd fod Mr Gareth Jones, y Swyddog Addysg a Chlerc y CYSAG, yn ymddeol ddiwedd mis Mai 2018. Ar ran y CYSAG diolchodd y Cadeirydd i Mr Jones am ei waith ardderchog a'i gefnogaeth fel Clerc y CYSAG, a dymunodd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

Cyflwynwyd gwybodaeth a dderbyniwyd gan Mrs Mefys Edwards, Ysgol Syr Thomas Jones a Mrs Heledd Hearn, Ysgol Uwchradd Bodedern, i'r CYSAG.

Tynnodd Mrs Mefys Edwards sylw at ddiffyg yn yr adnoddau ar gyfer addysgu Addysg Grefyddol drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion yng Nghymru. Yn ogystal, mynegodd bryder fod llwyth gwaith y cwricwlwm Addysg Grefyddol yn rhy drwm ar athrawon a disgyblion, a bod athrawon yn cael trafferth gorffen y cwrs mewn pryd. Roedd Mrs Edwards yn pryderu y bydd gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dymuno astudio Lefel 'A' Addysg Grefyddol yn y dyfodol, oherwydd y llwyth gwaith trwm.

Mynegodd Mrs Heledd Hearn bryderon fod cynnwys y cwrs TGAU newydd yn rhy swmpus ac nid oes modd ei gywasgu i'r ddwy wers yr wythnos sydd ar gael ar gyfer Addysg Grefyddol. Nodwyd bod ysgolion sy'n darparu tair gwers Addysg Grefyddol yr wythnos yn cael trafferth cwblhau'r cwrs. Cyfeiriwyd hefyd at y maes llafur Lefel 'A' a'r ffaith nad yw'r ysgol wedi derbyn gwerslyfrau eto.

Gofynnodd Mrs Hearn i'r CYSAG ysgrifennu at CBAC i fynegi pryder am y diffyg adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Gweithredu:**

- **Y Swyddog Addysg i ysgrifennu at Weinidog Llywodraeth Leol a CBAC i fynegi pryderon y CYSAG a nodir uchod.**
- **Anfon copi o'r llythyr at Rhun ap Iorwerth, Aelod y Cynulliad dros Ynys Môn.**

**6. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

Cyflwynwyd gwelliant arfaethedig i gyfansoddiad Cymdeithas CYSAGau Cymru i'r CYSAG er mwyn derbyn sylwadau arno.

Mae Cadeirydd Cymdeithas CYSAGau Cymru wedi gofyn am wneud mân newid i Gyfansoddiad y CYSAGau, h.y. fod gan bob CYSAG sy'n aelod o'r Gymdeithas yr hawl i anfon pedwar cynrychiolydd i Gymdeithas CYSAGau Cymru.

**PENDERFYNWYD derbyn y gwelliant i Gyfansoddiad Cymdeithas CYSAGau Cymru.**

**Gweithredu: Dim**

**7. CANLLAWIAU AR REOLI'R HAWL I DYNNU DISGYBLION YN ÔL O ADDYSG GREFYDDOL**

Rhannwyd copi o lyfryn Arweiniad Cymdeithas CYSAGau Cymru gan Gill Vasey gyda'r CYSAG.

Adroddodd y Swyddog Addysg fod y llyfryn yn rhoi arweiniad i ysgolion, a'i fod wedi'i ddosbarthu i bob ysgol yn Ynys Môn.

Nodwyd fod Gill Vasey wedi anfon holiadur at holl ysgolion Ynys Môn, yn holi faint o rieni sydd wedi defnyddio'r hawl hwn i dynnu eu plant o addoli ar y cyd yn yr ysgol. Adroddodd y Swyddog Addysg mai dim ond un ysgol oedd wedi ymateb hyd yn hyn.

**PENDERFYNWYD nodi'r llyfryn Arweiniad, er gwybodaeth.**

**Gweithredu: Dim**

**8. GOHEBIAETH**

Adroddodd y Cadeirydd fod Mrs Einir Morris wedi hysbysu'r CYSAG y bydd yn ymddeol fel cynrychiolydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar y CYSAG, a hynny o heddiw ymlaen.

Dymunodd y CYSAG yn dda i Mrs Morris.

**Gweithredu:**

**Y Swyddog Addysg i ysgrifennu at Ysgrifennydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Ynys Môn, i ofyn i'r Eglwys enwebu cynrychiolydd ar gyfer y CYSAG.**

**9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Nododd y CYSAG fod cyfarfod nesaf y Pwyllgor wedi ei drefnu ar gyfer 2.00pm, dydd Mawrth, 13 Mehefin 2018.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.10 o'r gloch y prynhawn

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Ynys Môn
# Medi 2016 – Awst 2017

Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Delyth Molyneux

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Cynghorydd Dylan Rees

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG YNYS MÔN**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Môn 2016-17
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad
3.5 Templed CYSAG Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol
3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol
3.7 Cynllun Gweithredu CYSAG Môn 2016-18

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Braint i mi unwaith eto, fel Cadeirydd CYSAG Ynys Môn, yw cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2016/17. Yn ystod y deuddeng mis diwethaf gwelwyd rhai newidiadau yn y Pwyllgor ac rwy'n falch o groesawu aelodau'r newydd canlynol – y Cynghorwyr Glyn Haynes, Bryan Owen ac Alun Roberts o Gyngor Sir Ynys Môn, ynghyd â Ms Anest Frazer sy'n cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru. 'Rwyf hefyd yn falch o ddweud ein bod wedi gallu cadw mewnbwn amhrisiadwy Mr Rheinallt Thomas, un o'n haelodau mwyaf profiadol, sy'n parhau i wasanaethu ar y Pwyllgor fel cynrychiolydd y Cyngor Ysgolion Sul.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i wneud cynnydd yn y meysydd allweddol a ganlyn:

a) Derbyn a dadansoddi adroddiadau hunanarfarnu'r ysgolion. Cyflwynwyd cyfanswm o 11 o adroddiadau yn ystod 2016-17.
b) Monitro addoli ar y cyd o fewn yr ysgolion. Mae aelodau'r pwyllgor yn parhau i ymweld ag ysgolion i weld natur yr addoli drostynt eu hunain ac, yn aml, maent yn adrodd yn ôl eu bod wedi eu hysbrydoli gan yr hyn a welsant.
c) Nodi arfer da trwy dderbyn cyflwyniadau yn ein cyfarfodydd gan ysgolion a ddewiswyd ac y gellir eu rhannu wedyn.

Fel sy'n arferol, mae nifer o argymhellion allweddol yn yr Adroddiad. Caiff yr holl argymhellion hyn eu cynnwys wedyn yn ein Cynllun Gweithredu parhaus a fydd yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu hynny. Ar hyn o bryd mae'r Cynllun Gweithredu yn canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth, sef:

1: Datblygu arweinyddiaeth dda mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd;
2: 'Dyfodol Llwyddiannus': Argymhellion Donaldson ac Addysg Grefyddol;
3: Cefnogi athrawon uwchradd wrth iddynt baratoi a chyflwyno'r maes llafur TGAU newydd ar gyfer Astudiaethau Crefyddol;
4: Hyrwyddo addoli ar y cyd o ansawdd da.

Bydd angen adolygu'r blaenoriaethau uchod ymhen tua 12 mis i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd wrth i ysgolion yng Nghymru ymateb i argymhellion a wnaed gan yr Athro Graham Donaldson yn ei adroddiad "Dyfodol Llwyddiannus". Yn sicr, bydd newidiadau mawr yn y cwricwlwm a bydd rôl Cymdeithas CYSAGau Cymru (y corff cenedlaethol) yn hanfodol wrth ddarparu mewnbwn i Lywodraeth Cymru ar unrhyw newidiadau arfaethedig. Wedi mynychu fy nghyfarfod cyntaf o Gymdeithas CYSAGau Cymru, rwy'n hyderus y bydd y pwyllgor hwn, yn ddi-os, yn llais cryf i sicrhau nad yw pwysigrwydd addysg grefyddol yn cael ei ddibrisio.

Yn olaf, hoffwn eto gynnig fy niolchgarwch diffuant i'm cyd-aelodau am eu hymroddiad trwy gydol y flwyddyn ac i'r swyddogion ymroddgar y mae eu cymorth mor hollbwysig. Diolch yn arbennig unwaith eto i Miss Bethan James, yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant ar gyfer GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) y mae ei chyfraniad a'i harweiniad mor hanfodol i'n llwyddiant.

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD CYSAG MÔN**

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG MÔN

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008).

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda*'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
- wahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol;
- ymweld ag ysgolion, trwy wahoddiad ar hyn o bryd, er mwyn mynychu sesiwn addoli ar y cyd.

### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Ers cyfarfod CYSAG Môn ar 14 Chwefror 2011, penderfynwyd parhau â'r drefn a sefydlwyd eisoes, ac i ofyn i benaethiaid lenwi'r daflen hunan arfarnu ddiwygiedig i fonitro safonau. Mae CYSAG Môn, penaethiaid ysgolion Môn ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templed a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu Newydd (gweler Atodiad 3.5). Mae clerc CYSAG Môn, sy'n swyddog addysg gyda Chyngor Ynys Môn, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Derbyniwyd 11 adroddiad yn ystod 2016-17, sef 21% o ysgolion Môn.

| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer o adroddiadau** | 6/53 | 8/53 | 12/53 | 11/53 |
| **% o ysgolion Môn** | 11% | 15% | 22% | 21% |

Cyn 2013, roedd Cwmni CYNNAL wedi llunio canllawiau a phatrymlun ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn cynnig arweiniad i benaethiaid ac athrawon ar sut i fynd ati i gynnal ymarferiad hunan arfarnu a'r math o feini prawf dylent fod yn mesur eu hunain yn eu herbyn. Cyflwynwyd canllawiau ar gyfer arsylwi gwersi, arfarnu samplau o waith dysgwyr, dadansoddi data, dod i farn ar safonau sgiliau trawsgwricwlaidd, ac ar drafod â disgyblion. Mae'r Ymgynghorydd Her sy'n cefnogi CYSAG Môn yn cynnal gweithdai hunan arfarnu er mwyn cefnogi cydlynwyr addysg grefyddol newydd.

Cyflwynwyd 11 adroddiad hunan arfarnu i sylw CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd adroddiadau gan ysgolion cynradd Biwmaris, Brynsiencyn, Llanfawr, Rhosybol, Cylch y Garn, Caergeiliog, Parch. Thomas Ellis, Esceifiog, Kingsland ac Ysgol y Santes Fair yn ystod y flwyddyn ac un adroddiad uwchradd am ansawdd yr addoli ar y cyd gan Ysgol David Hughes, Porthaethwy.

Mae'r adroddiadau hunan arfarnu yn gofyn i ysgolion i ymateb i gwestiwn allweddol 1 a 2 o Fframwaith Arolygu Cyffredin ESTYN. Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau a fydd yn cael sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Yn sgil y broses o hunan arfarnu safonau, dyfarnodd yr ysgolion y graddau isod:

| | **Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addoli ar y cyd?** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| **Cynradd** | | 9 | 1 | | | 9 | 1 | | | 11 | | |
| **Uwchradd** | | * | | | | * | | | | 1 | | |
| **Cyfanswm** | | 9 | 1 | | | 9 | 1 | | | 12 | | |

- *Ni chyflwynwyd arfarniad o safonau a'r ddarpariaeth addysg grefyddol gan Ysgol David Hughes.*

Roedd llawer o'r adroddiadau hunan arfarnu yn ymateb i ofynion CYSAGau Gwynedd a Môn trwy gyflwyno sylwadau arfarnol oedd yn seiliedig ar dystiolaeth bendant. Nododd pob pennaeth bod yr ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd. Yn yr enghreifftiau gorau roedd y sylwadau yn feintiol ac yn fesuradwy ac yn cyfeirio at ofynion y Maes Llafur Cytûn.

## Pa mor dda yw'r deilliannau mewn addysg grefyddol?

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

<u>Cyfnod Sylfaen</u>

- bod y rhan fwyaf yn gallu siarad am eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen a bod ychydig yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill (Ysgol Biwmaris).

- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu trafod a gofyn cwestiynau perthnasol i storïau crefyddol erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, (Ysgol Brynsiencyn).
- chwilfrydedd ac agweddau cadarnhaol y disgyblion wrth iddynt ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill, (Ysgol Caergeiliog).

Cyfnod Allweddol 2

- bod llawer o ddisgyblion yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 (CA2) yn gallu galw i gof, ymateb a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwilir iddynt nhw. Mae disgyblion mwy abl a thalentog (MAT) yn dechrau nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn crefyddau. (Ysgol Biwmaris)
- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion CA2 yn gallu enwi a disgrifio nodweddion rhai credoau yn dda, (Kingsland).
- y rhan fwyaf o ddisgyblion yng ngwaelod CA2 yn gallu siarad a gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd, (Ysgol Brynsiencyn, Ysgol Cylch y Garn, Ysgol Esceifiog)
- bod llawer o ddisgyblion ym mrig CA2 yn gallu trafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd, (Ysgol Esceifiog)
- bod craffu ar waith disgyblion yn dangos bod y disgyblion yn datblygu'n dda mewn addysg grefyddol a bod eu gwybodaeth yn dda. (Ysgol Parch. Thomas Ellis)
- bod tua hanner o ddisgyblion CA2 yn gallu trafod cwestiynau sylfaenol crefyddol yn synhwyrol, (Ysgol Rhosybol), gan gydnabod bod cwestiynau crefyddol sylfaenol yn aml yn gymhleth (Ysgol Cylch y Garn).
- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion erbyn diwedd CA2 yn gallu dwyn i gof, disgrifio ac esbonio credoau crefyddol a dechrau esbonio effaith crefydd ar fywydau credinwyr, (Ysgol Caergeiliog)
- bod disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu llythrennedd crefyddol, (Ysgol y Santes Fair)

Ysgol uwchradd

- perfformiad rhagorol CA3 (Haf 2015), perfformiad da CA4, a pherfformiad digonol CA5, (Ysgol Uwchradd Bodedern).
- Mae'r disgyblion yn mwynhau ystyried eu barnau eu hunain a thrafod gwahanol safbwyntiau gyda'u cyfoedion yn y gwersi. (Ysgol Uwchradd Bodedern)

Ymhlith yr agweddau a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf, roedd ysgolion yn nodi'r angen i:

- sicrhau bod disgyblion, erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn datblygu dealltwriaeth o effaith crefydd ar fywydau credinwyr (Ysgol Biwmaris, Ysgol Brynsiencyn, Ysgol Cylch y Garn, Ysgol Caergeiliog, Ysgol Esceifiog).
- ddatblygu geirfa fydd yn galluogi'r disgyblion fynegi barn ar frig y Cyfnod Sylfaen, (Ysgol Rhosybol).
- ddatblygu gallu rhesymegol y disgyblion i allu trafod cwestiynau mawr crefyddol, (Ysgol Brynsiencyn).
- ddatblygu gallu'r disgyblion i ddadansoddi a dehongli'r haenau o ystyr/symbolaeth a geir o fewn storïau crefyddol, defodau, celf, dawns a cherddoriaeth, (Ysgol Caergeiliog).
- wella medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion mewn addysg grefyddol, (Ysgol y Santes Fair).

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addysg grefyddol?**

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- yr amrywiaeth o weithgareddau 'addysg grefyddol' clodwiw yn llyfrau disgyblion y Cyfnod Sylfaen, (Ysgol Rhosybol)
- cynlluniau gwaith ar gyfer y Cyfnod Sylfaen sydd wedi ymgorffori gofynion 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' o fewn gweithgareddau bwriadus a ffocws ar gwestiynau mawr sydd wedi bod yn gyfrwng i sicrhau dyfnder a datblygiad mewn sgiliau ymholi disgyblion CA2, (Ysgol Cylch y Garn);
- gweithgareddau sy'n seiliedig ar storïau, chwarae rôl a chwarae addysgol sy'n cyfrannu'n effeithiol at allu pob disgybl i ddeall mwy amdanynt eu hunain a safbwyntiau pobl eraill, (Ysgol Caergeiliog)
- y defnydd o TGCh fel cyfrwng i ymchwilio ac i ffilmio gwaith i gyfoethogi'r addysgu, (Ysgol Rhosybol).
- bod ymweliad addysgol i Gadeirlan Llanelwy wedi codi brwdfrydedd y disgyblion tuag at addysg grefyddol ac felly wedi cynnal safonau da sy'n amlwg yn eu gwaith mewn llyfrau ac ar wal arddangos. (Ysgol Biwmaris)
- y cynnydd sylweddol ym mhoblogrwydd addysg grefyddol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, (Ysgol Caergeiliog)
- mapio cadarn ar gyfer cynllunio tymor hir a chanol mewn addysg grefyddol, (Ysgol Kingsland)
- cynlluniau manwl, gyda ffocws ar gwestiynau mawr sy'n sicrhau dilyniant a datblygiad mewn gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ymholi'r disgyblion, (Ysgol Esceifiog)
- safonau addysgu mewn gwersi addysg grefyddol yn dda, (Ysgol y Santes Fair)
- bod y ddarpariaeth yn ysgogi disgyblion CA3 i fwynhau dysgu am ymatebion crefyddol gwahanol i gwestiynau sylfaenol fel, *'A oes bywyd ar ôl marwolaeth?', 'Beth yw ystyr bywyd?' 'A ydych yn credu mewn gwyrthiau?', 'Mae bywyd yn rhy fyr i ddal dig. Dylid anghofio a maddau bob tro'.* (Ysgol Uwchradd Bodedern).

Ymhlith yr agweddau fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf mae'r ysgolion yn nodi'r angen i:

- gryfhau tasgau heriol ac ymestynnol ar gyfer y disgyblion mwy galluog ymhob dosbarth, (Ysgol Biwmaris, Ysgol Cylch y Garn, Ysgol Esceifiog), yn enwedig wrth weithio drwy'r cwestiynau sylfaenol, crefyddol a dynol, (Ysgol Cylch y Garn).
- wahodd credinwyr i'r ysgol er mwyn trafod materion crefyddol, (Ysgol Brynsiencyn).
- sicrhau mwy o gyfleodd i ddisgyblion B2 i gywain gwybodaeth yn annibynnol, (Ysgol Rhosybol).
- sicrhau dilyniant yn y cynllunio a defnyddio mwy o gwestiynau mawr, (Ysgol Rhosybol).
- ddatblygu cyfleoedd i ysgrifennu estynedig o fewn addysg grefyddol ac addasu'r cynlluniau er mwyn cynnwys dull mwy trawsgwricwlaidd, (Ysgol Parch. Thomas Ellis).
- sicrhau mwy o gyfleoedd i astudio awdurdod crefyddol megis testunau sanctaidd, arweinwyr crefyddol a chodau, (Ysgol Caergeiliog)
- barhau i osod meini prawf llwyddiant a rhoddi cyfle i'r plant fyfyrio ar y dysgu, (Ysgol Cylch y Garn, Ysgol Esceifiog).
- ddatblygu'r dimensiwn Cymreig mewn gwersi addysg grefyddol, (Ysgol y Santes Fair)
- gau'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion sy'n derbyn prydiau ysgol am ddim (PYD) a'u cyd-ddisgyblion, (Ysgol Uwchradd Bodedern).
- Ddatblygu tasgau heriol, diddorol ac ymestynnol ar gyfer y disgyblion mwy abl a thalentog, (Ysgol Uwchradd Bodedern).

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

Roedd pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.
Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- yr ethos sydd yn wahanol i ethos pob dydd yr ysgol ym mhob sasiwn addoli ar y cyd, gan fod hyn yn gyfle i rannu gwerthoedd o barch distaw, (Ysgol Biwmaris, Ysgol Cylch y Garn)

- bod llawer o'r plant yn cyfrannu'n effeithiol i'r sesiynau addoli ar y cyd trwy rannu eu teimladau, (Ysgol Brynsiencyn).
- sesiynau addoli ar y cyd sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion (Ysgol Parch. Thomas Ellis, Ysgol Cylch y Garn, Kingsland), y staff a'r gymuned ehangach, (Ysgol Parch. Thomas Ellis)
- y cyfleoedd a geir i wrando ar stori, cyflwyniad gan aelod o staff neu ymwelydd yn ogystal a gweddïo a chanu, (Ysgol Rhosybol)
- bod y sesiynau addoli ar y cyd yn cael eu cynllunio, eu paratoi a'u harfarnu gan yr Uwch Dim Rheoli er mwyn sicrhau bod y profiadau yn berthnasol ac o ansawdd da, (Ysgol Caergeiliog)
- bod y disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i adfyfyrio'n dawel mewn sesiynau addoli ar y cyd, (Ysgol y Santes Fair).
- sesiynau addoli ar y cyd sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth y disgyblion o faterion moesol ac ysbrydol a sy'n eu helpu i barchu amrywiaeth, gwirionedd, cyfiawnder, hawliau a chyfrifoldeb yn ogystal a meithrin ysbryd cymunedol a hyrwyddo ethos o barch sy'n greiddiol i'r ysgol (Ysgol Uwchradd Bodedern).

Ymhlith y materion a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae'r angen i:

- cyflwyno mwy o gyfleoedd i gyd-ganu, (Ysgol Biwmaris).
- sicrhau bod y sesiynau addoli ar y cyd a gynhelir yn y dosbarth yn dilyn yr un themâu a'r un drefn a'r sesiynau torfol, (Ysgol Brynsiencyn).
- sicrhau bod yr addoli ar y cyd yn y ddwy adran yn cydymffurfio a'r rheoliadau a'r gofynion, (Ysgol Cylch y Garn).
- sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ddarllen yn y gwasanaeth, (Ysgol Rhosybol);
- ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion i gynllunio ac arwain sesiynau addoli ar y cyd, (Ysgol y Santes Fair).4
- efelychu'r arferion rhagorol ymhob sesiwn addoli ar y cyd (Ysgol Uwchradd Bodedern).

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Ynys Môn**

- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau rheolaethol cydlynwyr ac arweinyddion pwnc fel eu bod yn gallu arwain gwelliannau yn eu hysgolion;
- Sicrhau bod ysgolion yn cael mynediad at ganllawiau ac arferion da a fyddai'n gwella deilliannau addysg grefyddol eu disgyblion ac ansawdd yr addysg grefyddol ac yn adlewyrchu egwyddorion ac argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus'.

## 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn)**
Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2016.

| Ysgolion Uwchradd Ynys Môn | Nifer o ysgolion | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| 2016 | 5 | 34 | 94 | 128 | 44.1 | 45.7 | 45.3 | 82.4 | 85.1 | 84.3 | 94.1 | 100 | 98.4 | | | |
| 2015 | 5 | 53 | 97 | 150 | 34.0 | 51.5 | 45.3 | 81.1 | 82.5 | 82.0 | 100 | 100 | 100 | 44 | 47 | 46 |
| 2014 | 5 | 27 | 110 | 137 | 40.7 | 55.5 | 52.6 | 81.5 | 87.3 | 86.1 | 100 | 100 | 100 | 44 | 48 | 47 |
| 2013 | 5 | 32 | 108 | 140 | 28.1 | 46.3 | 42.1 | 81.3 | 82.4 | 82.1 | 100 | 100 | 100 | 44 | 46 | 46 |
| 2012 | 4 | 46 | 110 | 156 | 43.5 | 65.5 | 59.0 | 76.1 | 94.5 | 89.1 | 100 | 100 | 100 | 44 | 50 | 49 |
| 2011 | 5 | 46 | 100 | 146 | 21.7 | 58.0 | 46.6 | 67.4 | 92.0 | 84.2 | 100 | 100 | 100 | 41 | 49 | 47 |

Nid yw sgor cyfartalog y disgyblion yn eu pynciau eraill ar gael i'r ymgynghorydd dyniaethau. O ganlyniad mae'n amhriodol i gymharu perfformiadau ysgolion. Fodd bynnag, mae adrannau Addysg Grefyddol yn gallu cael mynediad i data sy'n dangos sut mae'r ymgeiswyr wedi perfformio mewn cwestiynau unigol ac mewn pynciau eraill. Fe'u cynghorir i ddefnyddio'r wybodaeth hyn yn eu hunan arfarniad.

| 2016 | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| Ysgol Syr Thomas Jones | 8 | 15 | 23 | 25.0 | 80.0 | 60.9 | 75.0 | 100.0 | 91.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | | | |
| Ysgol Uwchradd Caergybi | 4 | 4 | 8 | 0.0 | 75.0 | 37.5 | 0.0 | 100.0 | 50.0 | 50.0 | 100.0 | 75.0 | | | |
| Ysgol Gyfun Llangefni | 6 | 13 | 19 | 16.7 | 69.2 | 52.6 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | | | |
| Ysgol David Hughes | 14 | 36 | 50 | 71.4 | 50.0 | 56.0 | 100.0 | 97.2 | 98.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | | | |
| Ysgol Uwchradd Bodedern | 2 | 26 | 28 | 100.0 | 3.8 | 10.7 | 100.0 | 50.0 | 53.6 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | | | |
| 660 | 34 | 94 | 128 | 44.1 | 45.7 | 45.3 | 82.4 | 84.1 | 84.3 | 94.1 | 100.0 | 98.4 | | | |
| GwE (6 awdurdod) | 732 | 1,292 | 2,024 | 17.8 | 33.2 | 27.6 | 65.6 | 80.5 | 75.1 | 99.0 | 99.8 | 99.6 | | | |

**Canlynadau da iawn**

- 128 ymgeisydd o 5 ysgol ym Môn, 22 ymgeisydd llai nag yn 2015.
- Mae'r nifer o ddisgyblion mewn dosbarthiadau yn amrywio o 8 disgybl mewn un ysgol i 50 mewn ysgol arall.
- 45.3% o'r ymgeiswyr yn derbyn graddau A*/A (rhagoriaeth) am yr ail flwyddyn yn olynol.
- 84.3% o ymgeiswyr yn ennill cymhwyster level 2 (A*- C) sy'n gynnydd (+2.3%) ers 2015. Dau ymgeisydd a fethodd dderbyn derbyn cymhwyster Lefel 1 (1.6%)
- Mae mwy o ferched na bechgyn yn dewis Astudiaethau Crefyddol fel opsiwn TGAU (B 34 : G 94).

- Ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng perfformiad y bechgyn mewn cymhariaeth a pherfformiad y merched ar y lefelau uwch, A*/A (1.6%), L2 (1.7%), er bod bwlch wedi ymddangos ar L1 (5.9%) am y tro cyntaf ers chwech mlynedd.

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr)**
Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2016. Mae'r disgyblion hyn wedi penderfynu hawlio eu pwyntiau am y cwrs byr TGAU yn hytrach na pharhau gyda'u hastudiaethau am ail flwyddyn. Mae ychydig iawn o ysgolion yn cynnig cwrs byr Astudiaethau Crefyddol TGAU fel cymhwyster ar gyfer y cwrs statudol Addysg Grefyddol CA4.

| Ysgolion Uwchradd Ynys Môn | Nifer o ysgolion | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2016** | 2* | 1 | 3 | 4 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 66.6 | 50% | 100% | 66.6 | 75% | | | |
| **2015** | 2 | 0 | 4 | 4 | 0.0 | 75.0 | 75.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 25 | 25 |
| **2014** | 1 | 6 | 28 | 34 | 50.0 | 71.4 | 67.6 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 23 | 26 | 25 |
| **2013** | 2 | 11 | 32 | 43 | | | | 72.7 | 84.4 | 81.4 | 100 | 100 | 100 | 21 | 25 | 24 |
| **2012** | 3 | 4 | 3 | 7 | | | | 50.0 | 66.7 | 57.1 | 100 | 100 | 100 | 19 | 21 | 20 |
| **2011** | 2 | 32 | 37 | 69 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 65.6 | 86.5 | 76.8 | 100 | 100 | 100 | 20 | 24 | 22 |

*Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol ac Ysgol David Hughes

**Canlyniadau Safon Uwch: Astudiaethau Crefyddol**

| Ysgolion Uwchradd Ynys Môn | Nifer o ysgolion | Nifer yn sefyll | | | % A*/A | | | % A-C | | | % A-E | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2016** | 4 | | | 54 | | | 13.0 | | | 74.1 | | | 100 |
| **GwE** | | | | 288 | | | 15.3 | | | 72.9 | | | 99.7 |

**Canlyniadau Uwch Gyfrannol: Astudiaethau Crefyddol**

| Ysgolion Uwchradd Ynys Môn | Nifer o ysgolion | Nifer yn sefyll | | | % A*/A | | | % A-C | | | % A-E | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2016** | 4 | | | 11 | | | 9.1 | | | 36.4 | | | 54.5 |
| **GwE** | | | | 95 | | | 8.4 | | | 38.9 | | | 78.9 |

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**
- Annog adrannau uwchradd i ymateb i unrhyw negeseuon a amlygir yn sgil dadansoddi data perfformiad mewnol ac allanol ysgolion;
- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC a hwyluso cyfleoedd iddynt gydweithio gydag ymarferwyr arweiniol GwE (Mefys Edwards ac Angharad Derham) wrth ymateb i fanylebau yr arholiadau TGAU a Safon Uwch newydd.

### 2.3.3 Adroddiadau arolygu ESTYN

Cyflwynwyd gwybodaeth am arolygiadau 3 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd yn ystod 2016-17.

| Ysgol | Dyddiad | **Gofal cymorth ac arweiniad (2.3)** *A oes cyfeiriad at: datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol?* | **Gofal cymorth ac arweiniad (2.3)** *A oes cyfeiriad at: addoli ar y cyd?* | **Profiadau dysgu (2.1)** *A oes cyfeiriad at: Addysg Grefyddol?* | **Gweithio mewn partneriaeth (3.3)** *A oes cyfeiriad at gymunedau crefyddol lleol?* |
|---|---|---|---|---|---|
| Gynradd Bodedern | Tachwedd | ✓ | ✓[1] | ✓ | ✓ |
| Llanfawr[2] | Tachwedd | × | × | ✓ | × |
| Niwbwrch | Ionawr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| David Hughes[2] | Mawrth | ✓ | × | ✓ | × |

1. Mae'r adroddiadau yn cyfeirio at 'gwasanaethau' nid sesiynau addoli ar y cyd.
2. Roedd Ysgol Llanfawr ac Ysgol David Hughes yn ysgolion peilot ar gyfer Fframwaith Arolygu newydd ESTYN

Prin yw'r cyfeiriadau at addysg grefyddol yn adroddiadau ESTYN, ond mae'r adroddiadau yn nodi bod:

- tair o'r ysgolion yn darparu ystod o brofiadau dysgu priodol sy'n hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol;
- dwy o'r ysgolion yn cynnal sesiynau addoli ar y cyd pwrpasol;
- dwy o'r ysgolion wedi sefydlu partneriaethau priodol gyda chymunedau crefyddol lleol;
- llawer o'r ysgolion yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr sy'n datblygu dealltwriaeth y disgyblion o gredoau a chrefyddau gwahanol.

## 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Mr. Gareth Jones, swyddog addysg Cyngor Ynys Môn yn sicrhau bod arweiniad ac argymhellion CYSAG Môn yn cael eu trosglwyddo i benaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae Cyngor Ynys Môn yn comisiynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i gefnogi cyfarfodydd CYSAGau Môn ac i gynrychioli CYSAG Môn mewn cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol.

Rhannwyd arferion da yn ystod y flwyddyn trwy estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr ysgol i amlinellu'r profiadau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a ddarperir i'w disgyblion:

- Cydlynydd Ysgol y Bont (ysgol arbennig)
- Cydlynydd Ysgol Llanfawr
- Pennaeth Ysgol Uwchradd Caergybi a chynrychiolydd o 'Gobaith Môn'.

Lluniwyd cynllun gweithredu ar gyfer CYSAG Môn yn ystod cyfarfod Haf 2016 yn amlinellu pedair blaenoriaeth ar gyfer 2016-17 (gweler atodiad 3.7). Roedd y blaenoriaethau yn codi o drafodaethau'r flwyddyn ac adroddiad blynyddol 2014-15 a 2015-16. Fodd bynnag, mewn cyfnod o doriadau cyllidol, nid oes bellach gwasanaeth ymgynghorol lleol sy'n gallu cynnig cefnogaeth neu hyfforddiant i athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol ac mae'n her gynyddol i CYSAGau i allu cynghori a chefnogi ysgolion.

**Blaenoriaeth 1: Datblygu arweinyddiaeth dda ym maes addysg grefyddol ac addoli ar y cyd**
**Blaenoriaeth 2: Dyfodol Llwyddiannus (Argymhellion Donaldson ac Addysg Grefyddol)**
**Blaenoriaeth 3: Cefnogi athrawon uwchradd wrth gyflwyno manyleb TGAU newydd**
**Blaenoriaeth 4: Hyrwyddo Addoli ar y Cyd o ansawdd**

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod yr ymgynghorydd her yn cynnig gweithdai tymhorol er mwyn cynnig arweiniad i gydlynwyr pwnc wrth iddynt hunan arfarnu addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn eu hysgolion.
- Ymateb i flaenoriaethau cynllun gweithredu 2016-17.

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

Yn ystod 2014-15, comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Mae CYSAG Môn wedi cyfrannu at y broses ymgynghorol, y 'Sgwrs Fawr' ac wedi trafod argymhellion y ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' a gyhoeddwyd yn Chwefror 2015. Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn cael ei chynrychioli ar y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Llywodraeth

Cymru ac mae Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi mynychu cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn gyda chynrychiolwyr o Adran Cwricwlwm Llywodraeth Cymru wrth iddynt gefnogi'r ysgolion arloesol a datblygu Cwricwlwm i Gymru. Mae Miss Bethan James, yr Ymgynghorydd Her (GwE) sy'n cefnogi CYSAGau Gwynedd a Môn yn cydweithio gydag aelodau PYCAG er mwyn cynorthwyo athrawon i baratoi at y cwricwlwm newydd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn ymwybodol o'r canllawiau sydd ar gael ac yn gweithredu ar yr arweiniad;
- Annog athrawon addysg grefyddol Ynys Môn ac aelodau CYSAG Môn i gyfrannu'n llawn at unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu;

## 2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Môn yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (2011)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o gasgliadau ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ESTYN.

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Môn wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
  - 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Mehefin 2008);
  - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).

- Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Mae CYSAG Môn yn argymell bod ysgolion yn defnyddio amrediad o adnoddau er mwyn darparu sesiynau addoli ar y cyd ystyrlon i'w disgyblion:

- Safle Moodle CYNNAL: canllawiau, amserlen enghreifftiol, rhestr o lyfrau a gwefannau defnyddiol, deunyddiau enghreifftiol gan ysgolion cynradd yr ardal.

Gan fod y gefnogaeth ymgynghorol i addysg grefyddol wedi gorffen ym mis Mawrth 2013 mae aelodau CYSAGau Gwynedd a Môn wedi ystyried dulliau amgen o gyflawni eu dyletswyddau i fonitro safonau a chynghori'r awdurdod addysg. Dosbarthwyd holiadur i aelodau CYSAG Môn (28.06.14) ac ymatebodd deg aelod. Mae'r dadansoddiad (26.11.14) yn dangos bod:

- holl aelodau CYSAG Môn yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o ofynion statudol addoli ar y cyd mewn ysgolion;
- llawer o'r aelodau yn barod i ymweld â sesiwn/sesiynau addoli ar y cyd mewn sampl o ysgolion pob tymor.

Mewn ymateb i argymhellion CYSAG Môn, mae'r Awdurdod Addysg wedi llythyru'r ysgolion yn rheolaidd yn gofyn iddynt estyn gwahoddiad i aelodau CYSAG i fynychu sesiwn addoli ar y cyd. Cytunwyd (6.10.15) y byddai'r aelodau yn treialu pro-fforma ar gyfer cofnodi eu harsylwadau yn ystod eu hymweliadau addoli ar y cyd am gyfnod o flwyddyn. Mae Grŵp Strategol Cynradd Môn yn cefnogi'r defnydd o'r pro fforma (Atodiad X) a dosbarthwyd copi i bob ysgol. Mynychodd un aelod sesiwn addoli ar y cyd yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn ystod y flwyddyn.

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Môn i fynychu sesiynau addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.
- Sicrhau bod ysgolion ac aelodau CYSAG yn derbyn copïau o 'Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN), a 'Canllawiau ynglyn ag addoli ar y cyd' (Cymdeithas CYSAGau Cymru';

**ADRAN 3: ATODIADAU**

## 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Môn yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,

- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Ynys Môn 2016-7

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | Parch./Rev. Kate McClelland (Haf 2016) |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Mrs Catherine Jones |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Mr Rheinallt Thomas |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Ms Kirsty Williams |
| Undeb yr Annibynwyr | Yr Athro Euros Wyn Jones |
| Yr Eglwys Babyddol | Mr Christopher Thomas |

**Cynrychiolwyr Athrawon (cyfetholwyd)**

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Llangaffo | Manon Morris Williams |
| Ysgol Parch Thomas Ellis | Alison Jones |
| Ysgol Uwchradd Bodedern | Heledd Hearn |
| Ysgol Syr Thomas Jones | Mefys Jones Edwards |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol**

Cynghorydd Glyn Haynes
Cynghorydd Gwilym O Jones
Cynghorydd Alun Mummery
Cynghorydd Bryan Owen
Cynghorydd Dylan Rees (**Cadeirydd**)
Cynghorydd Alun Roberts

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

| | |
|---|---|
| Rheinallt Thomas | Cyngor yr Ysgolion Sul |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Delyth Molyneux | Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes |
| Gareth Jones | Swyddog Addysg a chlerc CYSAG Môn |
| Bethan James | Ymgynghorydd Her GwE |
| Shirley Cooke | Swyddog Pwyllgor |

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2016-17

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2016 – 2017, cyfarfu CYSAG Ynys Môn ar dri achlysur:

11 Hydref 2016
14 Chwefror 2017
13 Mehefin 2017

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rai ohonynt yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 11 Hydref 2016**

- Materion yn codi: llythyr at CBAC am gyrsiau a deunyddiau TGAU, diweddariad ar gynnydd Ysgol Pencarnisiog, ymweliadau i arsylwi addoli ar y cyd.
- Adroddiadau hunan arfarniadau ysgolion: Biwmares, Brynsiencyn, Parch. Thomas Ellis, Uwchradd Bodedern.
- Adroddiad blynyddol (drafft) CYSAG Ynys Môn 2015/2016
- Diweddariad gan ymgynghorydd her GwE: TGAU newydd
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno adroddiad llafar o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Rhyl, Sir Ddinbych ar 23 Mehefin 2017

**b) Cyfarfod 14 Chwefror 2017**

- Materion yn codi: cynrychiolaeth Cyngor Ysgolion Sul
- Arolygiadau ESTYN: Ysgol Gynradd Bodedern, Ysgol Llanfawr
- Hunan arfarniadau ysgolion: Llanfawr, Rhosybol, Cylch y Garn, Caergeiliog, Ysgol David Hughes
- Diweddariad gan ymgynghorydd her GwE:
  - ➢ Safonau addysg grefyddol
  - ➢ Adnoddau Addysg Grefyddol
  - ➢ Addysg Grefyddol a'r Cwricwlwm am Oes
  - ➢ Astudiaethau Crefyddol TGAU/Safon Uwch
  - ➢ Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn
- Cyfansoddiad y pwyllgor
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin ar 18 Tachwedd, 2016.

**c) Cyfarfod 13 Mehefin 2017**

- Cyflwyniad gan Ysgol Llanfawr, Ysgol Uwchradd Caergybi a Gobaith Môn
- Arolygiadau ESTYN: Ysgol Gynradd Niwbwrch, Ysgol David Hughes
- Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion: Kingsland, Esceifiog, Llanfairpwll, Santes Fair.
- Diweddariad gan yr Ymgynghorydd Her
- Cyfansoddiad CYSAG
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mrynbuga, Sir Fynwy ar 3 Mawrth 2017.

**3.3.1** Mae CYSAG Ynys Môn wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y cynrychiolwyr canlynol:

- Rheinallt Thomas
- Mefys Edwards (cyflwyniad)

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y sylwebyddion canlynol:

- Miss Bethan James – ymgynghorydd her GwE

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Delyth Molyneux, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Gareth Jones , Swyddog Addysg sy'n gweithredu fel Clerc CYSAG
Bethan James, ymgynghorydd her GwE
Shirley Cooke, Swyddog Pwyllgor sy'n cofnodi ac yn gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Ynys Môn

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni. LL77 7EY

**3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG**

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Gwefan Ysgolion Ynys Môn
- Cymdeithas CYSAGau Cymru

**Darperir copi hefyd i:**

- Aelodau CYSAG Môn

## 3.4 Templed CYSAG Ynys Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

### Rhesymeg

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred **CYSAG Ynys Môn** y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae **CYSAG Ynys Môn** wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae **CYSAG Ynys Môn** felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod **CYSAG Ynys Môn** ar 14 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i holl ysgolion cynradd ac uwchradd y sir i gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Ynys Môn:

| | |
|---|---|
| **Manylion cyswllt:** | |
| **Enw (Clerc CYSAG):** | **Mr Gareth Jones** |
| **Cyfeiriad:** | Adran Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni |

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol:** **Cyfeiriad:**

| Addysg Grefyddol |
|---|
| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** |
| • Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad. |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1, Maes Llafur Cytûn Lleol, Addysg Grefyddol, Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011), Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011), Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009), Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013), Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr CBAC. |
| **Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu** |
| **Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl** |
| **Materion i gael sylw** |

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?** |
|---|
| • Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.<br>• Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.<br>• Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol). |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.1 a 2.2, Maes Llafur Cytûn Lleol, Addysg Grefyddol, Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011), Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011), Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009), Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013), Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr CBAC. |
| **Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau** |
| **Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl** |
| **Materion i gael sylw** |

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| Addoli ar y Cyd | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |

| |
|---|
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2011) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012). |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** |

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: (Pennaeth)
Dyddiad:

## 3.5 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

**Beth mae'r tabl TGAU (cwrs llawn) yn dangos?**

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B \| G \| Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU llawn mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B \| G \| Σ | Dyma'r ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill A* neu A mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % L2<br>B \| G \| Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 2 yn cyfateb i raddau A* i C mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i C mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| %L1<br>B \| G \| Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 1 yn cyfateb i raddau A* i G mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i G mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B \| G \| Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* felly yn gyfwerth a 58 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 40 phwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (⍰) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn a'r genethod mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. Mae'r symbol Σ yn cynrychioli'r cyfanswm o'r ymgeiswyr |

**Beth mae'r tabl TGAU (cwrs byr) yn dangos?**

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B \| G \| Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU byr mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B \| G \| Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cyrsiau byr yn cyfrannu 10% o bwyntiau i'r trothwy Lefel 1 a Lefel 2. 29 pwynt yw gwerth A* mewn cwrs byr. |
| % L2<br>B \| G \| Σ | |
| % L1<br>B \| G \| Σ | |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B \| G \| Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* (cwrs byr) felly yn gyfwerth a 29 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 11 pwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (÷) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn, genethod a chyfanswm y grŵp dysgu mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. |

**3.6: Taflen gofnodi ar gyfer aelodau CYSAG Ynys Môn wrth iddynt fynychu sesiwn addoli ar y cyd**

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Cyngor Sefydlog ar Addysg Grefyddol**

| | | |
|---|---|---|
| Mynychais sesiwn addoli ar y cyd mewn: | ysgol arbennig | ☐ |
| | ysgol gynradd | ☐ |
| | ysgol uwchradd | ☐ |
| Mynychais sesiwn addoli ar y cyd: | torfol/ysgol gyfan | ☐ |
| | dosbarth | ☐ |
| | cyfnod allweddol | ☐ |
| Yn cyfrannu i'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: | y pennaeth | ☐ |
| | disgyblion | ☐ |
| | athro/athrawon | ☐ |
| | arweinydd crefyddol lleol | ☐ |
| | rhiant/rhieni | ☐ |
| | llywodraethwr | ☐ |
| Roedd y sesiwn addoli ar y cyd wedi para: | llai na 5 munud | ☐ |
| | rhwng 5-10 munud | ☐ |
| | rhwng 10-15 munud | ☐ |
| | dros 15 munud. | ☐ |

Thema'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: ____________________________________________

Clywais:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Stori Feiblaidd | | | Cyflwyniad gan oedolyn | |
| Stori o draddodiad crefyddol arall | | | Cyflwyniad gan y disgyblion | |
| Stori foesol/cyfoes/hanesyddol addas | | | Disgyblion yn myfyrio'n dawel mewn ymateb i ysgogiad | |
| Disgyblion yn gweddïo (yn unigol neu ar y cyd) | | | | |
| Emyn /carol Cristnogol | | | | |
| Cân addas | | | | |

Tanlinellwch y tri datganiad gorau sy'n disgrifio'r sesiwn addoli ar y cyd.

Heddiw, roedd y sesiwn addoli ar y cyd yn:

- datblygu gallu dysgwyr i fyfyrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain;
- datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o fywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn;
- trafod a hybu ymatebion i gwestiynau sylfaenol ynglŷn ag ystyr bywyd, newid a marwolaeth;
- datblygu credoau a gwerthoedd, yn bersonol ac yn gymunedol fel ei gilydd;
- hybu dealltwriaeth o gredoau a gwerthoedd pobl eraill naill ai yn lleol neu yn fyd-eang;
- cynyddu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd;
- meithrin y gallu dynol i wneud dewisiadau moesol er da neu er drwg;
- hybu gwerthoedd, ystyr a phwrpas a rennir;
- darparu cyfleoedd i fyfyrio ar y digwyddiadau a'r profiadau 'hapus' a 'thrist' sy'n effeithio ar gymuned yr ysgol a'r gymuned leol, ac i'w rhannu;
- ategu dealltwriaeth ar y cyd o sut y gall dysgwyr unigol ac ysgol gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach
- datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth ac anghydraddoldeb byd-eang.

Unrhyw sylw arall:

## 3.7 : Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn 2016-17

| **Adroddiad Blynyddol CYSAG Môn 2014-15/2015-16** | **Camau Gweithredu 2016-17**<br>**ALl (Awdurdod Lleol)**<br>**YH (Ymgynghorydd Her)**<br>**AC (Aelodau CYSAG)** | **Tystiolaeth** | **Deilliannau** | |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu arweinyddiaeth dda ym maes addysg grefyddol ac addoli ar y cyd<br><br>Tudalen 8 | • Cynnal gweithdy tymhorol i gydlynwyr AG (YH)<br>• Cyflwyno amserlen a threfn hunan arfarnu (ALl)<br>• Craffu ar adroddiadau hunan arfarnu ysgolion a rhannu'r prif negeseuon yn yr adroddiad blynyddol. | • Canllawiau hunan arfarnu<br>• Amserlen a threfn hunan arfarnu.<br>• Adroddiadau Hunan arfarnu'r ysgolion<br>• Cofnodion CYSAG Ynys Môn | • Bron bob un ysgol wedi cyflwyno hunan arfarniad o safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd erbyn Haf 2017.<br>• CYSAG wedi paratoi adroddiad crynodol tymhorol a blynyddol o safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. | ☺<br>😐<br>☹ |
| Dyfodol Llwyddiannus (Argymhellion Donaldson) ac Addysg Grefyddol<br><br>Tudalen 12 | • Cynrychioli Ynys Môn mewn unrhyw drafodaethau cenedlaethol parthed datblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu (ALl+ YH + AC)<br>• Cyfrannu at drafodaethau lleol er mwyn cynllunio profiadau dysgu yn ymateb i'r Maes Llafur Cytûn ag egwyddorion 'Dyfodol Llwyddiannus' (YH+ALl+AC) | • Cofnodion CYSAG Ynys Môn<br>• Gohebiaeth a chanllawiau CYSAG Ynys Môn i ysgolion.<br>• Enghreifftiau o arferion da | • Addysg Grefyddol yn cael ystyriaeth lawn wrth i ysgolion adolygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu.<br>• Y ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol.<br>• Safonau addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol. | ☺<br>😐<br>☹ |
| Cefnogi athrawon uwchradd wrth gyflwyno manyleb TGAU newydd.<br><br>Tudalen 10 | • Cefnogi athrawon uwchradd mewn unrhyw drafodaethau gyda CBAC neu Gymwysterau Cymru.<br>• Cefnogi gwaith Arweinydd Rhanbarthol AG TGAU (Mefys Jones)<br>• Annog pob adran TGAU AG i fanteisio ar y cyfleoedd i gyfrannu at y cydweithio lleol (Gwynedd a Môn) a rhanbarthol. | • Cofnodion CYSAG Ynys Môn<br>• Gohebiaeth a chanllawiau CYSAG Ynys Môn i ysgolion.<br>• Enghreifftiau o arferion da | • Athrawon AG ac ymgeiswyr AG TGAU yn teimlo'n hyderus wrth wynebu'r fanyleb newydd.<br>• Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion uwchradd yn nodi bod safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer CA4 yn dda neu'n well;<br>• Canlyniadau TGAU Astudiaethau Crefyddol yn gyson dda neu'n well. | ☺<br>😐<br>☹ |
| Hwyluso Addoli ar y Cyd o ansawdd<br><br>Tudalen 13 | • Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio a'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addolir ar y cyd o ansawdd.<br>• Annog ysgolion i wahodd aelodau o GYSAG Ynys Môn i fynychu sesiynau addoli ar y cyd | • Gohebiaeth i ysgolion<br>• Adroddiadau llafar aelodau CYSAG<br>• Cyfeiriadau tuag at addoli ar y cyd yn adroddiadau ESTYN | • Adroddiadau ESTYN yn nodi bod addoli ar y cyd yn dda.<br>• Pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.<br>• Gwell dealltwriaeth ymhlith aelodau CYSAG o natur addoli ar y cyd mewn ysgolion. | ☺<br>😐<br>☹ |

This page is intentionally left blank

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3

Mehefin 2018



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| **Argymhellion** | **8** |
| **Safonau** | **9** |
| Medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth | 9 |
| Agweddau at ddysgu | 12 |
| **Darpariaeth** | **13** |
| Cynllunio'r cwricwlwm | 13 |
| Cyfoethogi a phrofiadau | 15 |
| Addysgu | 16 |
| Asesu ac adborth | 18 |
| **Arweinyddiaeth** | **20** |
| Arweinyddiaeth pwnc | 20 |
| Tynnu allan o wersi | 21 |
| Gwella ansawdd | 21 |
| Pontio | 23 |
| Atal | 24 |
| Her a chymorth allanol | 25 |
| **Atodiad 1: Cwestiynau i ysgolion eu hystyried fel rhan o'u hunanarfarniad** | **26** |
| **Atodiad 2: Sail y dystiolaeth** | **28** |
| **Atodiad 3: Astudiaethau achos** | **30** |
| Astudiaeth Achos 1: Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin | 30 |
| Astudiaeth Achos 2: Ysgol Gynradd Plasmarl | 32 |
| **Geirfa** | **34** |
| **Cyfeiriadau** | **36** |

## Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2017-2018. Mae'r adroddiad yn arfarnu safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Nid yw'n cwmpasu addysg grefyddol mewn ysgolion enwadol, annibynnol nac arbennig.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu safonau mewn addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, a chyfranogiad mewn dysgu ac ymgysylltiad ag ef. Mae hefyd yn ystyried y ffactorau sy'n effeithio ar safonau, gan gynnwys cynllunio'r cwricwlwm, addysgu, asesu, arweinyddiaeth a gwella ansawdd.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, ac aelodau o'r Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAGau)[1]. Bydd canfyddiadau'r adroddiad yn helpu llywio datblygu a gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru hefyd.

## Cefndir

Mae addysg grefyddol yn rhan orfodol o'r cwricwlwm o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 4. Rhaid i ysgolion ddarparu addysg grefyddol yn y sector ôl-16 hefyd. (Prydain Fawr, 1998). Rhaid i addysg grefyddol ddilyn y maes llafur perthnasol a gytunwyd yn lleol ar gyfer addysg grefyddol[2]. Mae gan rieni'r hawl gyfreithiol i dynnu eu plentyn o addysg grefyddol, er bod bron pob disgybl yn cymryd rhan yn llawn mewn addysg grefyddol yn ymarferol.

Mae'r Ddeddf Diwygio Addysg (Prydain Fawr 1988) a Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig (Adran Addysg y Swyddfa Gymreig, 1994) yn amlinellu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd mewn ysgolion yng Nghymru. Rhaid i bob ysgol ddarparu gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd ar gyfer pob disgybl. Nod addoli ar y cyd yw datblygu disgyblion yn gymdeithasol, yn foesol, yn ysbrydol ac yn ddiwylliannol. Ni ddylai ysgolion ddefnyddio addoli ar y cyd i addysgu addysg grefyddol. Mae addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn weithgareddau ar wahân er y gallent atgyfnerthu ei gilydd.

Datblygwyd y 'Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2008 ochr yn ochr â'i hadolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Llywodraeth Cynulliad

[1] Mae CYSAGau yn gyfrifol yn gyfreithiol am gynghori awdurdodau lleol ar addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Rhaid i bob awdurdod lleol gael CYSAG.

[2] Mae'r maes llafur a gytunwyd yn lleol ar gyfer pob awdurdod lleol ar gael gan y Gymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol: http://www.wasacre.org.uk/publications/syllabi.html

Cymru, 2008). Nod y fframwaith oedd gwella safonau addysg grefyddol yn genedlaethol trwy ddarparu cwricwlwm a fframwaith asesu cydlynus ar gyfer Cymru. Mae'n cynnwys rhaglenni astudio enghreifftiol ar gyfer pob cyfnod allweddol, ynghyd â disgrifiadau lefel ar gyfer perfformiad disgyblion. Diwygiodd pob awdurdod lleol a CYSAG eu meysydd llafur a gytunwyd yn lleol i ystyried y fframwaith.

Mae'r fframwaith yn datgan y dylai addysg grefyddol annog disgyblion i archwilio ystod o gwestiynau mewn ffordd fyfyriol, ddadansoddol a chytbwys. Mae'n canolbwyntio hefyd ar ddeall chwilfrydedd dynoliaeth am ystyr, yr agweddau cadarnhaol ar ddealltwriaeth aml-ffydd/amlddiwylliannol, a dealltwriaeth ac ymatebion y disgyblion eu hunain i fywyd a chrefydd. Yng nghyfnod allweddol 2, dylai addysg grefyddol feithrin diddordeb a rhyfeddod dysgwyr yn y byd a'r profiad dynol i'w hysgogi i godi cwestiynau ac ymchwilio iddynt. Dylai disgyblion ddatblygu medrau a chasglu gwybodaeth a fydd yn eu helpu i feddwl yn greadigol a rhannu syniadau trwy drafod. Dylent ddatblygu gwybodaeth am wahanol grefyddau a chydnabod pwysigrwydd crefydd ym mywydau pobl. Dylai hyn eu helpu i ddatblygu goddefgarwch a pharch at bobl eraill. Dylai disgyblion archwilio dimensiynau ysbrydol a moesol er mwyn llywio eu chwiliad eu hunain am ystyr a diben. Dylent gael cyfleoedd i fynegi eu teimladau a'u barn eu hunain, nodi'r modd y gallai eu gweithredoedd effeithio ar bobl eraill, cydnabod bod safbwyntiau pobl eraill yn wahanol i'w safbwyntiau eu hunain, a myfyrio ar eu safbwyntiau eu hunain ar fywyd, a'u diwygio. Yng nghyfnod allweddol 3, dylai addysg grefyddol ysgogi disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. Dylent gael cyfleoedd i gymhwyso ac arfarnu eu mewnwelediad o ran cwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol a meddwl yn greadigol. Dylai eu gwybodaeth am grefyddau feithrin dealltwriaeth well o arwyddocâd crefydd a'i phwysigrwydd o ran hyrwyddo cydlyniad cymdeithasol, sefydlogrwydd, dinasyddiaeth fyd-eang a chynaliadwyedd. Dylai disgyblion fyfyrio ar ddimensiynau ysbrydol a moesol bywyd a dylid rhoi cyfleoedd iddynt fynegi a chyfiawnhau eu teimladau a'u barn eu hunain am eu chwiliad am ystyr.

Mae cymeriad crefyddol i ryw 15% o ysgolion a gynhelir yng Nghymru, ac maent yn addysgu 'addysg enwadol' fel ffurf benodol ar addysg grefyddol (Llywodraeth Cymru, 2018). Nid yw addysg enwadol yn dilyn y maes llafur a gytunwyd yn lleol, ond yn hytrach yn dilyn maes llafur a bennwyd gan yr ysgol unigol neu grŵp o ysgolion sydd â chymeriad crefyddol penodol. Nid yw Estyn yn arolygu addysg enwadol fel rhan o'i arolygiadau arferol o ysgolion sydd â chymeriad crefyddol gan fod yr agwedd hon yn cael ei harolygu o dan ddeddfwriaeth ar wahân gan arolygwyr a benodwyd gan gorff llywodraethol yr ysgol. Mae ysgolion ag iddynt gymeriad crefyddol yn darparu addysg grefyddol enwadol yn hytrach nag addysg grefyddol yn unol â'r maes llafur a gytunwyd yn lleol. Yn yr ysgolion hyn, nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol. Yn hytrach, yn yr ysgolion hyn, cynhelir arolygiad 'Adran 50' ar wahân gan unigolyn a ddewiswyd gan y llywodraethwyr sy'n ystyried eu haddysg grefyddol. Mae 'Adran 50' yn cyfeirio at yr adran o Ddeddf Addysg 2005 sy'n amlinellu'r gofynion arolygu ychwanegol ar gyfer yr ysgolion hyn (Prydain Fawr, 2005). Felly, ni chafodd ysgolion sy'n darparu addysg enwadol eu cynnwys yn y sampl o ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn.

Nid oes gofyniad i ysgolion lunio barnau ar berfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 na 3 mewn addysg grefyddol. Fodd bynnag, mae'r ddogfen 'Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed

yng Nghymru' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) yn cydnabod y bydd gwybodaeth am nodweddion y disgrifiadau lefel yn helpu athrawon i adnabod cryfderau dysgwyr, yn ogystal â meysydd i'w gwella, a chynllunio ar gyfer dilyniant.

Yn 2013, cyhoeddodd Estyn adroddiad ar addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Arweiniodd y negeseuon allweddol yn yr arolwg hwn at yr argymhellion canlynol:

Dylai ysgolion:

A1 Ddatblygu strategaethau i wella cyrhaeddiad bechgyn yng nghyfnod allweddol 4
A2 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4 ar gyfer disgyblion nad ydynt yn cael eu cofrestru ar gyfer cymhwyster ac ystyried rhoi cyfle i bob disgybl ennill cymhwyster priodol
A3 Gwella cywirdeb asesiadau athrawon o lefelau disgyblion yng nghyfnod allweddol 3
A4 Sicrhau bod tasgau'n ddigon heriol i alluogi disgyblion mwy abl i gyrraedd lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 3
A5 Sicrhau bod y trefniadau ar gyfer y cwricwlwm, staffio ac amserlennu yn galluogi pob disgybl i wneud cynnydd da trwy gyfnodau allweddol 3 a 4
A6 Cryfhau hunanarfarnu a defnyddio data mewn adrannau addysg grefyddol i nodi ble a beth i'w wella.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A7 Gasglu, dadansoddi a chyhoeddi data cyrhaeddiad ar gyfer addysg grefyddol ac astudiaethau crefyddol yn yr un ffordd ag ar gyfer pynciau di-graidd
A8 Gweithio gydag awdurdodau lleol a CYSAGau i wella'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a chefnogi rhwydweithiau dysgu ar gyfer athrawon addysg grefyddol.' (Estyn, 2013, tud. 5)

Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau'r Athro Donaldson yn y ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru' (Donaldson, 2015). Mae Dyfodol Llwyddiannus yn cynnig y dylai'r cwricwlwm yng Nghymru sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu:

- 'yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd boddhaus gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas' (Donaldson, 2015, tud. 29)

I hwyluso hyn, mae'r adolygiad yn argymell y dylai un strwythur trefnu ar gyfer y cwricwlwm fod yn berthnasol ar gyfer yr ystod oedran gyfan, o 3 i 16 oed. Mae'n cynnig y dylai'r strwythur hwn gynnwys chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad' (MDPh) ac y dylai pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad hyn wneud cyfraniadau arbennig a chryf at ddatblygu pedwar diben y cwricwlwm.

Mae addysg grefyddol yn dod o fewn Maes Dysgu a Phrofiad ‘y Dyniaethau’.  Mae’r Athro Donaldson (2015) yn ysgrifennu y dylai addysg grefyddol ddarparu profiadau gwerthfawr i ddisgyblion sy’n cyfrannu at bob un o bedwar diben y cwricwlwm. Mae’n cydnabod y gall rôl addysg grefyddol gael ei chamddeall fel rôl sy’n ymwneud â hyrwyddo ffydd neu gred benodol yn hytrach na datblygu parch a dealltwriaeth disgyblion o wahanol fathau o grefydd.  Mae’n cynnig y dylai’r disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol barhau i fod yn ofyniad cwricwlwm statudol o dan y cwricwlwm newydd.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau

1 Mewn llawer o ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, mae safonau addysg grefyddol yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau addysg grefyddol a'u gwybodaeth, er nad yw lleiafrif o ddisgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u gallu. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni safonau yn unol â'u hoedran a'u gallu. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ysgolion yn aml yn ailadrodd gwaith a gwmpaswyd yng nghyfnod allweddol 2, ac o ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud cynnydd digonol yn gwella eu medrau a'u gwybodaeth.

2 Mewn gwersi addysg grefyddol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda ag ystod eang o gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol sy'n canolbwyntio ar chwilio am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd. Maent yn trafod cwestiynau pwysig gyda diddordeb a brwdfrydedd. Mae llawer o ddisgyblion yn cynnig rhesymau ystyriol am eu barn ac yn gwrando ar safbwyntiau disgyblion a phobl eraill yn barchus. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion yn mynegi eu hymatebion personol yn hyderus. Defnyddiant wybodaeth am wahanol grefyddau i wneud cymariaethau priodol rhwng eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a gânt i gymryd rhan mewn ystod eang o ddadleuon diddorol.

3 Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o gredoau ac arferion gwahanol grefyddau. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am Gristnogaeth ac Islam yn arbennig, ynghyd â gwybodaeth sylfaenol am o leiaf ddau o grefyddau eraill.

4 Mae llawer o ddisgyblion yn atgyfnerthu ac ymestyn eu medrau llythrennedd, meddwl a rhesymu'n dda mewn gwersi addysg grefyddol. Nid oes digon o ddisgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3, yn cymhwyso eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol mewn gwersi addysg grefyddol.

5 Mae gan lawer o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at wersi addysg grefyddol ac maent yn cyfrannu â diddordeb at drafodaethau grŵp a dosbarth. Mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 3 yn deall sut mae addysg grefyddol yn eu cynorthwyo i fod yn ddinasyddion byd-eang gwybodus ac yn teimlo bod hyn yn eu helpu i gyfrannu'n dda yn eu cymuned leol. Maent hefyd yn ymwybodol o'r materion sy'n wynebu llawer o rannau o'r byd heddiw ac yn teimlo bod eu haddysg grefyddol yn helpu iddynt ddeall a pharchu'r nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau rhwng pobl. Wrth iddynt aeddfedu, mae mwyafrif y disgyblion yn cydnabod sut bydd y wybodaeth hon o fudd iddynt yn eu bywyd fel oedolyn ac y bydd yn eu helpu yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Mewn llawer o ysgolion, mae gwersi addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

## Darpariaeth

6 Mae llawer o ysgolion yn cynllunio’n dda ar gyfer addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 2. Mewn ysgolion lle mae cynllunio’r cwricwlwm yn wannach, nid yw cynlluniau gwaith yn cynorthwyo staff i addysgu medrau a gwybodaeth yn raddol a sicrhau eu bod yn cwmpasu gofynion llawn y maes llafur a gytunwyd yn lleol. Yn y mwyafrif o ysgolion uwchradd, mae cynllunio’r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 yn dda. Yn yr ysgolion hyn, mae’r cwricwlwm yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol ac ysgogol ar gyfer disgyblion sy’n adeiladu’n llwyddiannus ar eu medrau a’u gwybodaeth wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Mae diffyg gwaith pontio yn golygu bod testunau a medrau sy’n cael eu haddysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn cael eu hailadrodd yng nghyfnod allweddol 3 mewn lleiafrif o ysgolion.

7 Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gwersi sy’n ysgogol ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu yn llwyddiannus. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw’r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gweithgareddau i herio disgyblion mwy abl i ymestyn eu medrau ymhellach, neu ystyried syniadau crefyddol mwy cymhleth. Yng nghyfnod allweddol 3, mewn rhai ysgolion, nid yw’r addysgu yn ennyn diddordeb disgyblion yn ddigon da gan nad yw athrawon yn defnyddio ystod ddigon eang o weithgareddau a strategaethau ysgogol. Yn ychwanegol, pan fydd yr addysgu’n wannach, mae tasgau’n rhy anodd i ddisgyblion llai abl ac nid ydynt yn ymestyn disgyblion mwy abl yn ddigon da.

8 Mae’r rhan fwyaf o athrawon cyfnod allweddol 2 yn meddu ar wybodaeth bwnc briodol am addysg grefyddol. Mae lleiafrif o athrawon yn ofni y gallent ‘ddweud y peth anghywir’ wrth addysgu crefyddau heblaw Cristnogaeth, yn enwedig pan fydd eu gwybodaeth yn llai cadarn. Yn aml, mae cyfuniad o athrawon arbenigol ac athrawon cymwys nad ydynt yn rhai arbenigol yn addysgu gwersi addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 3. Mewn rhai achosion, mae defnyddio athrawon nad ydynt yn rhai arbenigol yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion.

9 Mae gan bron bob ysgol gynradd gysylltiadau cryf â sefydliadau Cristnogol sy’n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Fodd bynnag, ychydig o ysgolion yn unig sydd wedi datblygu cysylltiadau defnyddiol â sefydliadau sy’n ymwneud â mathau eraill o ffydd. Er enghraifft, lleiafrif o ddisgyblion yn unig yng nghyfnod allweddol 2 sy’n ymweld â man addoli nad yw’n un Cristnogol. Er bod gan y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd rai cysylltiadau â sefydliadau Cristnogol lleol, mae’r rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar roi cyfleoedd i ddisgyblion berfformio cyngherddau mewn mannau addoli lleol. Lleiafrif ohonynt yn unig sydd wedi datblygu perthnasoedd cryf a phwrpasol sy’n gwella dysgu trwy ymweliadau neu ymwelwyr yn cyfrannu at wersi.

10 Mae ansawdd adborth athrawon i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn amrywio. Mewn gwersi yn y ddau gyfnod allweddol, mae’r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth addas ar lafar i ddisgyblion ar eu gwaith. Yng nghyfnod allweddol 3, mae adborth ysgrifenedig llawer o athrawon yn helpu cynnydd disgyblion. Mae adborth ysgrifenedig ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn fuddiol mewn rhai ysgolion.

11 Yng nghyfnod allweddol 2, ychydig iawn o athrawon yn unig sy’n defnyddio unrhyw ddeunydd safonedig i’w cynorthwyo i lunio barnau ar gyflawniad disgyblion mewn

addysg grefyddol.  Mae staff mewn ychydig iawn o ysgolion cynradd yn unig yn cysylltu ag ysgolion eraill i gymedroli eu barnau neu'n defnyddio deunydd enghreifftiol Llywodraeth Cymru i'w cynorthwyo.

### Arweinyddiaeth

12 Mae arweinyddiaeth mewn addysg grefyddol gan benaethiaid ac arweinwyr pwnc yn dda ar y cyfan yn y mwyafrif o ysgolion.  Mewn llawer o ysgolion cynradd a bron pob ysgol uwchradd, mae arweinwyr pwnc yn monitro'n rheolaidd fod athrawon yn cwmpasu'r maes llafur cytûn.  Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, anaml y maent yn arfarnu ansawdd dysgu disgyblion mewn addysg grefyddol, ac o ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ymwybyddiaeth gadarn o safonau disgyblion.  Mae bron pob ysgol uwchradd yn cynnal hunanarfarniad blynyddol ar gyfer addysg grefyddol. Mewn lleiafrif o'r ysgolion hyn, mae arweinwyr yn canolbwyntio ar ystod gyfyng o dystiolaeth ac nid ydynt yn ystyried safonau addysgu a dysgu'n ddigon da.

13 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, cyfle cyfyngedig iawn a gaiff athrawon i elwa ar ddysgu proffesiynol ar gyfer addysg grefyddol.  Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn cynnig ychydig iawn o ddysgu proffesiynol arbenigol mewn addysg grefyddol ar gyfer athrawon neu arweinwyr pwnc.  Ychydig o ysgolion cynradd yn unig a lleiafrif o ysgolion uwchradd sy'n derbyn cymorth a her yn benodol ar gyfer addysg grefyddol gan awdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol.  Pan gynhelir cyfarfodydd rheolaidd i arweinwyr pwnc uwchradd rannu adnoddau a datblygu cynlluniau gwaith, mae athrawon yn gweld bod y rhain yn eu helpu i wella arfer yn eu hysgol.  Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid yn ymwybodol o'r CYSAG lleol ond maent yn ansicr o'i rôl a'i ddiben.  Mae rhai CYSAGau yn rhoi rhestr o fannau addoli cymeradwy i ymweld â nhw i ysgolion.  Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd yn unig y mae athrawon addysg grefyddol yn cymryd rhan mewn unrhyw weithio diweddar neu ystyrlon rhwng ysgolion sy'n cefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu yn y pwnc.

14 Ychydig iawn o waith pontio a wneir rhwng ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd partner o ran addysg grefyddol.  O ganlyniad, mae disgyblion yn aml yn ailadrodd testunau a medrau addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd.

15 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rôl a'u cyfrifoldebau o dan y ddyletswydd Atal (Llywodraeth EM, 2015) o ran Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (Prydain Fawr, 2015).  Mae llawer o arweinwyr yn cydnabod pa mor bwysig yw addysg grefyddol o ran cyfrannu at yr agenda hon. Mewn rhai ysgolion, nid yw arweinwyr yn deall y cyfrifoldebau hyn yn llawn.  Mae angen cyngor ar lawer o ysgolion ar sut i fynd i'r afael â materion sensitif gyda disgyblion a sut i ddelio â phryderon rhieni ar ymweld â mannau addoli.

16 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr wedi ystyried newidiadau i addysgu addysg grefyddol yng ngoleuni Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015), er mai lleiafrif ohonynt yn unig sydd wedi gwneud newidiadau i'w cwricwlwm hyd yma.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cyflawni yn unol â'u gallu mewn addysg grefyddol

A2 Cryfhau trefniadau monitro a hunanarfarnu yng nghyfnod allweddol 2 i ganolbwyntio ar wella safonau a medrau disgyblion mewn addysg grefyddol

A3 Cryfhau trefniadau pontio fel bod profiadau dysgu yng nghyfnod allweddol 3 yn adeiladu ar y rheiny yng nghyfnod allweddol 2 ac yn osgoi ailadrodd gwaith

A4 Arfarnu eu cwricwlwm ar gyfer addysg grefyddol i baratoi ar gyfer datblygu a gweithredu Maes Dysgu a Phrofiad newydd y Dyniaethau

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A5 Weithio gyda CYSAGau i ddarparu:

a. cyfleoedd dysgu proffesiynol addas ar gyfer athrawon addysg grefyddol
b. cymorth i ysgolion arfarnu eu cwricwlwm a chynllunio ar gyfer addysg grefyddol fel rhan annatod o ddatblygu maes dysgu a phrofiad y dyniaethau
c. cyngor i ysgolion ar sut i fynd i'r afael â materion sensitif gyda disgyblion a sut i ddelio â phryderon rhieni ar ymweld â mannau addoli

A6 Sicrhau bod pob arweinydd yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

A7 Rhoi arweiniad i ysgolion ar leoedd addoli cymeradwy i ymweld â nhw

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 Weithio gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a CYSAGau i sicrhau bod eglurder ynglŷn â lle addysg grefyddol o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau

# Safonau

## Medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth

### Cyfnod allweddol 2

17 Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae safonau addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 yn dda. Yn yr ysgolion hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni safonau mewn addysg grefyddol yn unol â'u gallu a'r rheiny y maent yn eu cyflawni mewn pynciau eraill. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd yn unol â'u gallu, gan nad yw athrawon yn cynllunio digon o weithgareddau sy'n eu galluogi i weithio ar lefel uwch.

18 Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn dda trwy ymdrin ag ystod eang o gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol sy'n canolbwyntio ar y chwiliad am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd. Maent yn trafod cwestiynau pwysig gyda diddordeb a brwdfrydedd. Mae llawer o ddisgyblion yn ymestyn eu hatebion i gwestiynau'n dda, er enghraifft trwy roi rhesymau am eu hatebion a safbwyntiau crefyddol eraill ar adegau.

| |
|---|
| Mewn un ysgol gynradd, ym mhob dosbarth yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn trafod ac yn cyfrannu at gwestiynau athronyddol trwy astudio 'cwestiynau mawr'. Mae'r cwestiynau hyn yn cynnwys 'A yw dwyn bob amser yn anghywir?', 'A yw pawb yn gallu bod yn arwr?' ac 'A yw hi'n iawn i bobl fod yn fwy cyfoethog na phobl eraill?', er enghraifft. Trwy'r gwaith hwn, mae disgyblion o bob oedran yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i ymateb i'r cwestiynau sylfaenol hyn a godwyd yn sgil eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas a chredoau crefyddol. |

19 Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o wahanol grefyddau, eu credoau a'u harferion. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am ystod o grefyddau'r byd, fel Cristnogaeth, Iddewiaeth, Islam a Hindŵaeth yn arbennig. Er enghraifft, maent yn deall pwysigrwydd atgyfodiad Crist i Gristnogion a'r modd y mae'r Qur'an yn dylanwadu ar fywydau Mwslimiaid. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn dechrau cymharu gwahanol ffydd gan ddefnyddio eu gwybodaeth am eu harferion a'u credoau. Mewn rhai ysgolion, nid oes gan ddisgyblion wybodaeth gadarn am wahanol ffydd y tu hwnt i symbolaeth grefyddol. Yn ychwanegol, mewn rhai ysgolion gwledig, nid oes gan ddisgyblion ddealltwriaeth gref fod Cymru yn wlad amlddiwylliannol, aml-ffydd ac maent yn credu bod pobl â gwahanol grefyddau yn byw mewn gwledydd eraill yn unig.

20 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion yn mynegi eu hymatebion personol yn hyderus i gwestiynau crefyddol neu athronyddol. Gwnânt gymariaethau priodol rhwng eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill gan ddefnyddio eu gwybodaeth am wahanol grefyddau. Mae llawer o ddisgyblion yn ystyried, yn gwerthfawrogi ac yn dangos empathi â, ac yn parchu, safbwyntiau pobl eraill. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn arbennig yn defnyddio iaith grefyddol yn briodol wrth rannu eu safbwyntiau. Mewn llawer o ysgolion, mae gwersi addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus yng Nghymru a'r byd.

Mewn dwy ysgol gynradd yng Nghaerdydd, caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i rannu eu ffydd â disgyblion eraill. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion Mwslimaidd yn rhannu eu credoau a'u harferion crefyddol gyda disgyblion eraill yn hyderus. Mae disgyblion hŷn, yn arbennig, yn siarad am eu ffydd gyda dealltwriaeth glir o'r modd y mae hyn yn effeithio ar eu bywyd bob dydd. Maent yn gwerthfawrogi siarad am sut a pham maent yn gweddïo, ac yn falch i esbonio pam mae llyfrau crefyddol mor bwysig iddyn nhw. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi disgyblion i gael cipolwg go iawn ac ystyrlon ar gredoau pobl eraill.

21 Mae llawer o ddisgyblion yn atgyfnerthu eu medrau llythrennedd mewn gwersi addysg grefyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac ar ei gilydd. Maent yn siarad yn huawdl gan ddefnyddio terminoleg grefyddol yn briodol. Maent yn trafod eu gwaith a'u safbwyntiau'n hyderus mewn grwpiau bach ac mewn sefyllfaoedd dosbarth cyfan. Maent yn ysgrifennu darnau byr o waith at ystod o wahanol ddibenion. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n greadigol nac yn estynedig yn ddigon aml mewn gwersi addysg grefyddol. Mewn rhai ysgolion, mae cynllunio athrawon yn rhwystro gallu disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol ac yn estynedig gan eu bod yn rhoi strwythur diangen iddynt ar gyfer eu hatebion. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn darllen ar goedd o wahanol destunau crefyddol gyda hyder a dealltwriaeth.

22 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau TGCh yn dda i gefnogi eu dysgu mewn addysg grefyddol. Er enghraifft, mewn un ysgol, mae disgyblion yn defnyddio meddalwedd efelychu i greu animeiddiadau syml i ddangos eu dealltwriaeth o stori Gristnogol Moses ac, mewn ysgol arall, defnyddiant y rhyngrwyd a rhaglenni prosesu geiriau i wneud gwaith ymchwil a llunio taflenni gwybodaeth defnyddiol i ddatblygu a dangos eu gwybodaeth am y Sikh, Guru Nanak.

23 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd mewn gwersi addysg grefyddol pan fo'n briodol gwneud hynny.

24 Yn y rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Saesneg, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn ddigon da mewn gwersi addysg grefyddol gan nad ydynt yn cael eu hannog i wneud hynny gan eu hathro.

### Cyfnod allweddol 3

25 Mewn llawer o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw, mae safonau addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 3 yn dda ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da trwy gydol y cyfnod allweddol ac maent yn cyflawni safonau yn unol â'u hoedran a'u gallu.

26 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn ymdrin yn dda â chwestiynau sylfaenol. Er enghraifft, maent yn trafod cwestiynau mawr fel 'Creu neu esblygu?' a 'Beth yw diben bywyd?', gan ddefnyddio eu gwybodaeth am wahanol ffydd a'u safbwyntiau personol yn aeddfed. Mae llawer o ddisgyblion yn cynnig rhesymau ystyriol am eu barn ac yn gwrando ar safbwyntiau pobl eraill yn barchus. Mewn llawer o ysgolion, mae gwersi addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus yng Nghymru a'r byd.

27 Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn archwilio ystod addas o wahanol gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ar lefel briodol. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r testunau a gwmpesir yn aml yn ailadrodd y rheiny a astudiwyd mewn ysgolion cynradd. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn yr ysgolion hyn yn adeiladu'n ddigon da ar eu medrau neu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol grefyddau.

Mewn un ysgol uwchradd, mae disgyblion ym Mlwyddyn 7 yn defnyddio 'Llwybr Cynnydd' yr adran yn dda fel sylfaen eu gwersi addysg grefyddol. Mae hyn wedi'i rannu'n dri medr addysg grefyddol, sef 'ymdrin â chwestiynau sylfaenol', 'archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion', a 'mynegi ymatebion personol'. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu disgrifiadau cywir o brif nodweddion Islam trwy astudio bywyd chwaraewyr pêl-droed Mwslimaidd yr Uwch Gynghrair. Mae llawer o ddisgyblion yn trafod yn hyderus p'un a yw 'sawm' (ymprydio yn ystod Ramadan) yn bwysig ai peidio, a ph'un a ddylai pobl yng Nghymru gyfrannu rhan o'u cyflog at 'zakah' (rhoi rhodd elusennol i'r tlawd a'r anghenus). Mae eu gwaith yn dangos dealltwriaeth dda o bum piler Islam a sut maent yn ymwneud â bywyd bob dydd. Maent yn ysgrifennu bwydlenni priodol ar gyfer gwledd Fwslimaidd yn seiliedig ar eu gwybodaeth am y Qur'an, yn ogystal â llythyrau perswadiol at reolwr pêl-droed yn nodi'r hyn y gallai'r clwb ei ddysgu o fywyd chwaraewr Mwslimaidd.

28 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn mynegi ymatebion personol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a gânt i gymryd rhan mewn ystod eang o drafodaethau llafar. Mae'r rhain yn cynnwys ystod eang o drafodaethau cyfoes, fel 'A oedd trychineb Aberfan yn un foesol neu naturiol?' Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu safbwyntiau yn aeddfed, gan roi rhesymau ystyriol am eu hatebion. Mae disgyblion mwy abl yn gwneud cysylltiadau cryf ag ystod o ddysgeidiaethau crefyddol, pan fo'n briodol, i gefnogi eu barn.

29 Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn dda mewn gwersi addysg grefyddol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac yn mynegi eu barn gan ddefnyddio ystod addas o eirfa sy'n benodol i bwnc. Mae disgyblion mwy abl yn arbennig yn defnyddio atebion meddylgar ac estynedig gan ddefnyddio gwybodaeth o destunau crefyddol yn aml i'w cefnogi. Mewn lleiafrif o ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar ddefnyddio terminoleg Saesneg yn eu hatebion. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion, i'r un safon ag yn eu gwersi Cymraeg a Saesneg, ar y cyfan. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn ddigon aml mewn gwersi addysg grefyddol. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen a dehongli testunau'n gywir ac mae disgyblion mwy abl yn arbennig yn defnyddio medrau fel rhesymu a dod i gasgliad i ddangos dealltwriaeth gadarn o ystyr ystod o wahanol ffynonellau tystiolaeth ysgrifenedig.

30 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd mewn gwersi addysg grefyddol pan fo'n briodol gwneud hynny. Mewn rhai ysgolion, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd i gefnogi eu dysgu'n dda. Er enghraifft, maent yn llunio graffiau cywir i gyflwyno gwybodaeth am grefyddau a phoblogaethau, yn canfod cost taith i Mecca ac yn creu siartiau cylch i ddangos safbwyntiau disgyblion ar gydraddoldeb.

31 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau TGCh yn rheolaidd mewn gwersi addysg grefyddol. Mewn ysgolion lle mae disgyblion yn defnyddio eu TGCh yn dda i gefnogi eu dysgu, maent yn datblygu eu medrau prosesu geiriau i lunio taflenni gwybodaeth am wahanol grefyddau ac yn defnyddio cyfrifiaduron llechen i ymchwilio i arteffactau crefyddol.

32 Mewn llawer o ysgolion cyfrwng Saesneg, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn ddigon da mewn gwersi addysg grefyddol.

### Agweddau at ddysgu

### Cyfnod allweddol 2

33 Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at addysg grefyddol ac maent yn mwynhau'r pwnc. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn cydweithio â'i gilydd mewn gweithgareddau grŵp. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o'r modd y mae gwersi addysg grefyddol yn bwysig i'w helpu i ddeall credoau gwahanol bobl. Maent yn mwynhau dysgu am wyliau crefyddol, a sut a pham mae pobl yn gweddïo. Maent yn cydnabod ei bod yn bwysig bod yn barchus a goddefgar at gredoau pobl eraill. Mae mwyafrif y bobl hŷn y deall y modd y mae addysg grefyddol yn eu cynorthwyo i fod yn ddinesydd byd-eang gwybodus.

### Cyfnod allweddol 3

34 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at wersi addysg grefyddol. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn cyfranogi'n dda mewn gwersi, ac yn cyfrannu â diddordeb at drafodaethau dosbarth a grŵp. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'r un mor galed mewn gwersi addysg grefyddol ag y maent mewn pynciau eraill. Maent yn mwynhau cael cyfleoedd i drafod materion go iawn sy'n berthnasol i'w bywydau a'r byd heddiw. Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid yw disgyblion yn cymryd digon o ofal â'u hysgrifennu mewn gwersi addysg grefyddol ac maent yn cynhyrchu gwaith sy'n anniben a heb fod o safon ddigon uchel.

35 Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd dysgu am wahanol grefyddau ac maent yn disgrifio'n fanwl fanteision astudio'r pwnc. Trwy astudio gwahanol grefyddau, mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r modd y mae hyn yn eu helpu i ddeall materion cydraddoldeb ac osgoi stereoteipio grwpiau ac unigolion. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo y bydd hyn yn eu helpu i fod yn ddinasyddion gwell yn eu cymuned leol a'r byd.

36 Mae mwyafrif y disgyblion yn teimlo y bydd addysg grefyddol yn eu helpu yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Mewn rhai ysgolion, mae disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth gref o'r modd y mae cymunedau'n newid, gan fod pobl yn gallu symud mwy ledled y byd, a'r modd y bydd addysg grefyddol yn eu helpu i groesawu newid a dathlu amrywiaeth. Maent hefyd yn ymwybodol o'r materion sy'n wynebu rhannau o'r byd heddiw, er enghraifft gwahaniaethu sy'n seiliedig ar gredoau crefyddol pobl. Mae llawer o ddisgyblion o'r farn fod addysg grefyddol yn eu helpu i ddeall yn well y nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau rhwng pobl a dysgu parchu hyn.

# Darpariaeth

## Cynllunio'r cwricwlwm

### Cyfnod allweddol 2

37 Mewn llawer o ysgolion cynradd, caiff y cwricwlwm ar gyfer addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 ei gynllunio'n dda. Mae bron pob ysgol gynradd yn addysgu disgyblion am Gristnogaeth ac Islam ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cwmpasu o leiaf ddwy grefydd arall o blith Iddewiaeth, Hindŵaeth, Bwdhaeth a Siciaeth. Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae'r cwricwlwm yn bodloni gofynion y maes llafur a gytunwyd yn lleol. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn darparu cwricwlwm addysg grefyddol eang a chytbwys ar gyfer disgyblion sy'n meithrin eu medrau a'u profiadau. Yn yr ysgolion prin lle mae cynllunio'r cwricwlwm yn wannach, nid yw cynlluniau gwaith yn rhoi arweiniad i staff addysgu medrau a gwybodaeth yn raddol ac nid ydynt yn cwmpasu gofynion y maes llafur a gytunwyd yn lleol.

38 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn diwygio eu cynllun gwaith addysg grefyddol yn rheolaidd i adlewyrchu newidiadau i'r cwricwlwm, er enghraifft i ystyried y fframwaith llythrennedd a rhifedd (Llywodraeth Cymru, 2013).

39 Mewn llawer o ysgolion, caiff disgyblion wers addysg grefyddol sy'n rhan o'r amserlen wythnosol. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae athrawon yn addysgu addysg grefyddol fel pwnc unigol. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae athrawon yn addysgu addysg grefyddol fel rhan o destun. Mewn un ysgol, er enghraifft, pan fydd y disgyblion yn astudio thema India, maent yn dysgu am Hindŵaeth, ac yn cysylltu Iddewiaeth â thema'r Ail Ryfel Byd.

40 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr wedi ystyried newidiadau i addysgu addysg grefyddol yng ngoleuni Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015). Fodd bynnag, lleiafrif ohonynt yn unig sydd wedi gwneud newidiadau hyd yma. Yn yr ysgolion hyn, mae staff wedi ffurfio grwpiau meysydd dysgu a phrofiad ac wedi dechrau ystyried addysgu addysg grefyddol trwy ddull sydd â'r dyniaethau yn thema. Hyd yn oed yn yr ysgolion hyn, ychydig iawn sydd wedi newid i'r profiadau dysgu i ddisgyblion. Mewn un ysgol gynradd, mae athrawon wedi edrych yn fanwl ar newid y cwricwlwm yn unol ag egwyddorion Dyfodol Llwyddiannus. (Gweler atodiad 3)

41 Mewn tua hanner o ysgolion, nid yw'r athro dosbarth arferol yn addysgu addysg grefyddol. Mae aelod arall o staff (athro neu gynorthwyydd addysgu) sy'n cyflenwi yn ystod amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA) yn addysgu addysg grefyddol bob wythnos. Mewn rhai ysgolion, mae athrawon yn aml yn gadael gwersi addysg grefyddol i athrawon cyflenwi eu haddysgu.

42 Mewn ardaloedd aml-ffydd yng Nghymru, gall darpariaeth ysgol ar gyfer addysg grefyddol fod â rhan bwysig mewn gwella cydlyniad cymunedol. Er enghraifft, mewn un ysgol yng Nghaerdydd, mae staff yn teimlo bod gwaith addysg grefyddol yr ysgol wedi helpu'r gymuned i fynd i'r afael â phroblemau hiliaeth, gyda disgyblion yn addysgu aelodau eraill o'u teulu am hawliau a'r angen i barchu gwahanol safbwyntiau.

## Cyfnod allweddol 3

43 Yn y mwyafrif o ysgolion uwchradd, caiff y cwricwlwm ar gyfer addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 3 ei gynllunio'n dda. Yn yr ysgolion hyn, mae'r cwricwlwm yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol ac ysgogol ar gyfer disgyblion sy'n adeiladu ar eu medrau a'u gwybodaeth wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae profiadau dysgu yn canolbwyntio'n briodol ar gredoau ac arferion crefyddol yn ogystal â chwestiynau sylfaenol yn ymwneud â materion moesol, moesegol ac athronyddol. Mae gwersi'n rhoi dealltwriaeth dda i ddisgyblion o'r bobl amrywiol yn eu cymuned eu hunain, Cymru a'r byd ehangach. Mae bron pob ysgol yn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y maes llafur a gytunwyd yn lleol ar gyfer addysg grefyddol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr yn diwygio eu cynlluniau gwaith yn rheolaidd i adlewyrchu newidiadau i'r cwricwlwm.

44 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae staff wedi dechrau trafod y goblygiadau ar gyfer addysgu addysg grefyddol yng ngoleuni Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015). Mae lleiafrif o'r ysgolion hyn wedi dechrau newid cwricwlwm cyfnod allweddol 3 ac maent wrthi'n datblygu cynlluniau i addysgu addysg grefyddol o fewn dull sydd â'r dyniaethau yn thema. Mewn rhai ysgolion, mae athrawon wedi dechrau ymgorffori'r pedwar diben craidd yn eu cynllunio cyfredol ar gyfer addysg grefyddol.

45 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r cwricwlwm yn cwmpasu'r rhan fwyaf, neu bob un, o chwe phrif grefydd y byd. Mewn un ysgol yr ymwelwyd â hi, penderfynodd arweinwyr beidio ag addysgu Islam gan mai ychydig iawn o Fwslimiaid sy'n byw yn eu hardal leol. Mae hyn yn annerbyniol ac yn amddifadu disgyblion o'r cyfle i ddysgu am brif grefydd sy'n dylanwadu ar safbwyntiau ar faterion byd-eang arwyddocaol. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae gor-bwyslais ar Gristnogaeth.

46 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, prin yw'r wybodaeth sydd gan athrawon am yr hyn y mae disgyblion wedi ei ddysgu a'r lefelau y maent wedi eu cyflawni yng nghyfnod allweddol 2. O ganlyniad, mewn lleiafrif o ysgolion, mae cynlluniau gwaith yn ailadrodd medrau a gweithgareddau y mae disgyblion eisoes wedi eu dysgu yn eu hysgol flaenorol.

47 Bron ym mhob ysgol, caiff disgyblion wersi addysg grefyddol rheolaidd. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, caiff disgyblion yr hyn sydd gyfwerth ag awr o addysg grefyddol yr wythnos.

48 Mae'n ofynnol i ysgolion addysgu addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 4, felly mae llawer o ysgolion yn dewis achredu'r dysgu hwn trwy gofrestru disgyblion ar gyfer cymhwyster TGAU. Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw lle mae hyn yn digwydd, mae trefniadau i ddisgyblion ddechrau eu cwrs astudiaethau crefyddol TGAU yn amrywio. Mewn tua thraean o ysgolion, maent yn dechrau'r cwrs TGAU ar ddechrau Blwyddyn 9, mae traean ohonynt yn dechrau yn ystod trydydd tymor Blwyddyn 9, tra bod y traean arall yn dechrau'r cwrs TGAU ym Mlwyddyn 10. Bron ym mhob ysgol lle mae disgyblion yn dechrau eu cwrs TGAU ym Mlwyddyn 9, mae arweinwyr yn sicrhau bod y cynllun gwaith ar gyfer Blwyddyn 9 yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer cyfnod allweddol 3 hefyd.

49 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae addysg grefyddol yn helpu ysgolion i fod â rhan mewn cryfhau cydlyniad cymunedol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion safbwyntiau cryf ar bwysigrwydd goddefgarwch a pharch ac maent yn mynd â'r rhain gyda nhw i'w cartrefi a'u cymunedau ehangach. Mae hyn ar ei amlycaf mewn rhannau aml-ffydd o Gymru. Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r cyfleoedd y mae addysg grefyddol yn eu darparu i baratoi disgyblion i fyw mewn cymdeithas amrywiol.

## Cyfoethogi a phrofiadau

### Cyfnod allweddol 2

50 Mae gan bron bob ysgol gysylltiadau cryf â sefydliadau Cristnogol. Er enghraifft, mewn llawer o ysgolion, mae arweinwyr Cristnogol lleol yn arwain addoli ar y cyd yn rheolaidd ac yn trafod Cristnogaeth gyda disgyblion mewn gwersi addysg grefyddol. Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn ymweld ag amrywiaeth o eglwysi lleol gwahanol i ddysgu am gredoau ac arferion Cristnogol. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn y mannau addoli hyn hefyd, er enghraifft cyngherddau Nadolig a digwyddiadau elusennol.

51 Ychydig o ysgolion yn unig sy'n ymgysylltu'n dda ag arweinwyr a sefydliadau ffydd i gyfoethogi'r cwricwlwm, ac mae'r rhain yn tueddu i fod yn ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau aml-ffydd. Er enghraifft, mewn un ysgol yng nghanol dinas, mae'r imam lleol yn siarad â disgyblion mewn gwersi yn rheolaidd, ac mae aelodau o gymdeithas Fwslimaidd yn trefnu dathliadau Eid yn yr ysgol. Mewn rhai ysgolion, mae rhieni o wahanol ffydd yn helpu staff i drefnu a dathlu gwyliau fel y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a Diwali.

52 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae disgyblion yn ymweld â mannau addoli heblaw mannau Cristnogol. Pan fydd athrawon yn trefnu ymweliadau o'r fath, maent fel arfer yn ymweliadau i fosgiau, temlau a synagogau. Yn yr ysgolion hyn, nid yw ychydig iawn o rieni yn caniatáu i'w plant fynd ar yr ymweliad. Fodd bynnag, mewn ysgolion lle na chynhelir ymweliadau, mae lleiafrif o arweinwyr yn sylwi na fyddai rhieni'n eu cefnogi, pe baent yn trefnu ymweld â mosg.

> Mae staff mewn ysgol gynradd ym Merthyr yn cydnabod gwerth ymweld â mannau addoli i wella addysg grefyddol. O ganlyniad, maent yn trefnu bod disgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 yn ymweld â synagog yng Nghaerdydd, a bod disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn ymweld â mosg yn Abertawe. Mae ganddynt gysylltiadau cryf ag eglwysi yn eu cymuned leol hefyd. Mae'r cyfleoedd a gaiff disgyblion i ymgysylltu trwy brofiad â gwahanol ffydd ac archwilio cwestiynau'n uniongyrchol ag arweinwyr ffydd yn cael effaith arwyddocaol ar eu dysgu mewn addysg grefyddol.

### Cyfnod allweddol 3

53 Er bod gan y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd rai cysylltiadau â sefydliadau Cristnogol lleol, mae'r rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar roi cyfleoedd i ddisgyblion berfformio cyngherddau mewn mannau addoli lleol. Lleiafrif ohonynt yn unig sydd wedi datblygu perthnasoedd cryf sy'n gwella dysgu trwy ymweliadau addysgol neu ymwelwyr yn cyfrannu at wersi. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio

ymweliadau'n dda i gyfoethogi eu cwricwlwm addysg grefyddol. Pan gynhelir ymweliadau, bydd y rhain fel arfer yn ymweliadau i gapeli, eglwysi cadeiriol a synagogau. Ychydig o ysgolion yn unig sy'n trefnu ymweliadau â mosgau. Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ymweld â llai o fannau addoli nag oeddent mewn blynyddoedd blaenorol. O bryd i'w gilydd, mae rhai ysgolion yn trefnu i arweinwyr ffydd arwain addoli ar y cyd neu drafod eu ffydd gyda disgyblion mewn gwersi addysg grefyddol. Mae'r ymwelwyr hyn wedi cynnwys cynrychiolwyr o ganolfannau Hindŵaidd ac Islamaidd. Mewn llawer o ysgolion, collir cyfleoedd i weithio gydag eglwysi a chapeli cyfrwng Cymraeg i helpu cynnwys elfen o Gymraeg mewn gwersi addysg grefyddol.

Mewn un ysgol uwchradd sy'n gwasanaethu cymuned amrywiol, mae staff wedi datblygu cysylltiadau ag arweinwyr ffydd o grwpiau ethnig amrywiol sy'n cynrychioli cefndiroedd disgyblion yn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn gweithio gydag aelodau o'r gymuned Somali leol, sy'n ymweld â'r ysgol i gynnal diwrnodau cymunedol i godi proffil y grŵp ethnig hwn. Mae'r cymorth a'r cyngor hwn yn helpu staff i gefnogi a deall anghenion disgyblion o wahanol grwpiau ethnig yn fwy effeithiol.

## Addysgu

### Cyfnod allweddol 2

54 Mewn llawer o ysgolion, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gwersi'n dda i fodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion ac ennyn eu diddordeb yn eu dysgu yn llwyddiannus. Defnyddiant amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol gan gynnwys trafodaethau grŵp, chwarae rôl a gwaith pâr. Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod eang o adnoddau ysgogol a pherthnasol i ychwanegu diddordeb a chyffro at eu gwersi. Er enghraifft, maent yn defnyddio pytiau fideo o storïau a gwyliau crefyddol i ddarparu cyflwyniad difyr i wers ac yn darparu arteffactau o wahanol grefyddau i ddisgyblion eu harchwilio i symbylu eu chwilfrydedd. Maent yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gymharu gwahanol grefyddau, er enghraifft y nodweddion tebyg rhwng dameg Gristnogol a phum piler Islam. Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, nid yw athrawon yn rhoi digon o her i ddisgyblion mwy abl am nad ydynt yn addysgu medrau lefel 5 uwch yn ddigon aml. O ganlyniad, nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal ag y gallent. Mewn rhai ysgolion, mae athrawon yn rhoi gormod o 'strwythur' i ddisgyblion ar gyfer ymateb, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ddewis sut i drefnu eu gwaith, ac nid yw'n galluogi iddynt ysgrifennu'n estynedig chwaith.

55 Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol briodol am addysg grefyddol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o athrawon yn ofni y gallent 'ddweud y peth anghywir' wrth addysgu crefyddau heblaw Cristnogaeth, yn enwedig pan fydd eu gwybodaeth yn llai sicr. O ganlyniad, mae profiadau dysgu disgyblion am ffydd heblaw Cristnogaeth yn fwy cyfyngedig.

56 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a medrau meddwl disgyblion ochr yn ochr â'u medrau addysg grefyddol. Mewn rhai ysgolion, mae cynllunio athrawon yn canolbwyntio gormod ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draul medrau addysg grefyddol, ac mae hyn yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion yn y pwnc.

57 Mae ychydig iawn o ysgolion yn cyflogi grwpiau allanol i addysg gwersi addysg grefyddol. Mewn un ysgol, mae arweinwyr yn defnyddio sefydliad Cristnogol lleol i addysgu rhan o'u cynllun gwaith addysg grefyddol i ddisgyblion hŷn. Mae'r pennaeth wedi gwirio cynnwys y cwrs ac mae'n hapus ei fod yn addas. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn monitro nac yn herio ansawdd y ddarpariaeth hon nac yn gwneud yn siŵr fod y darparwr wedi cynllunio gweithgareddau priodol nac wedi asesu gwaith disgyblion. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn yn derbyn addysgu o ansawdd uchel sy'n gweddu i'w gallu'n ddigon da.

### Cyfnod allweddol 3

58 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn frwdfrydig ynglŷn â'r pwnc. Mae llawer ohonynt yn cynllunio gwersi sy'n ysgogol a diddorol i ddisgyblion. Defnyddiant ystod o wahanol ddulliau addysgu, gan gynnwys cyflwyniadau amlgyfrwng, trafodaethau grŵp a cherddoriaeth i gymell disgyblion. Mewn rhai ysgolion, nid yw addysgu yn ennyn diddordeb disgyblion yn ddigon da gan nad yw athrawon yn defnyddio ystod ddigon eang o weithgareddau a strategaethau ysgogol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn gweddu gwaith i fodloni anghenion disgyblion yn dda. Pan fydd yr addysgu'n wannach, mae tasgau'n rhy anodd ar gyfer disgyblion llai abl neu nid ydynt yn ymestyn disgyblion mwy abl.

59 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac maent yn disgwyl iddynt weithio'n galed a gwneud cynnydd da mewn gwersi addysg grefyddol. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, nid yw athrawon yn gosod disgwyliadau digon uchel ar gyfer disgyblion, ac o ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn gweithio i safon ddigon uchel nac yn ymfalchïo ddigon yn eu gwaith.

60 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cyfuniad o athrawon arbenigol ac athrawon cymwys nad ydynt yn rhai arbenigol yn addysgu gwersi addysg grefyddol. Mewn ychydig o ysgolion yn unig y caiff yr holl wersi addysg grefyddol eu haddysgu gan athrawon arbenigol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r cynllun gwaith cynhwysfawr ar gyfer addysg grefyddol a'r cymorth parhaus gan yr arweinydd pwnc yn galluogi athrawon nad ydynt yn arbenigol i addysgu'r pwnc yn ddigonol.

61 Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon yn cynllunio'n briodol i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion mewn gwersi addysg grefyddol. Maent yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llafaredd a meddwl trwy drafodaethau grŵp a dosbarth, er enghraifft wrth ystyried cyfyng-gyngor moesol a rhagfarn. Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon yn cynllunio ystod addas o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu at ystod o ddibenion, gan gynnwys gwaith ysgrifenedig estynedig, mewn cyd-destun crefyddol neu athronyddol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ailddrafftio eu gwaith. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn briodol mewn gwersi addysg grefyddol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i ddarllen testunau, gan gynnwys testunau crefyddol, o ystod o wahanol ffynonellau, gan gynnwys ar-lein.

62 Mewn llawer o ysgolion, nid yw athrawon yn rhoi cyfleoedd priodol i ddisgyblion atgyfnerthu eu medrau TGCh na rhifedd mewn gwersi addysg grefyddol. Pan fydd athrawon yn darparu gweithgareddau, maent yn tueddu i fod er mwyn gwneud

cyflwyniad neu wneud gwaith ymchwil ar gyfer TGCh a chyflwyno data mewn graffiau ar gyfer rhifedd. Mewn lleiafrif o ysgolion lle mae athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion, ceir enghreifftiau cryf o arfer effeithiol. Er enghraifft, mewn un ysgol uwchradd, caiff disgyblion gyfleoedd i ddefnyddio TGCh i gynllunio eu gwersi eu hunain ar Martin Luther King a gwneud cyflwyniadau ar Stanley Tookie Williams.

## Asesu ac adborth

### Cyfnod allweddol 2

63 Mae ansawdd adborth athrawon i ddisgyblion yn amrywio. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar buddiol i ddisgyblion ar eu gwaith sy'n galluogi disgyblion i wella eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mewn rhai ysgolion, mae'r adborth llafar hwn yn galluogi disgyblion mwy abl i ymestyn eu dysgu. Dim ond mewn rhai ysgolion y mae adborth ysgrifenedig athrawon yn helpu disgyblion i wella eu gwybodaeth a'u medrau addysg grefyddol yn ddigon da. Yn yr ysgolion hyn, mae adborth yn benodol a diagnostig ac yn dweud wrth ddisgyblion beth maent wedi'i wneud yn dda a sut i wella ymhellach. Mewn llawer o ysgolion, mae adborth ysgrifenedig yn canolbwyntio ar wella medrau llythrennedd disgyblion yn unig.

64 Dim ond ychydig o ysgolion sy'n defnyddio deunydd enghreifftiol i gefnogi barnau athrawon am gynnydd disgyblion mewn addysg grefyddol. Mae lleiafrif o ysgolion yn cadw portffolios o waith disgyblion. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn, mae portffolios yn dangos ymdriniaeth â'r cwricwlwm yn unig ac nid yw athrawon yn gweddu gwaith i lefelau yn y pwnc. O ganlyniad, ychydig iawn o athrawon yn unig sy'n defnyddio unrhyw ddeunydd safonedig i'w cynorthwyo i lunio barnau ar gyflawniad disgyblion mewn addysg grefyddol. Mae staff mewn ychydig iawn o ysgolion yn unig yn cysylltu ag ysgolion eraill i gymedroli eu barnau neu'n defnyddio deunydd enghreifftiol Llywodraeth Cymru i'w cynorthwyo.

### Cyfnod allweddol 3

65 Bron ym mhob ysgol, mae athrawon yn olrhain cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion mewn addysg grefyddol yn gywir. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn cwblhau asesiadau rheolaidd, yn aml bob hanner tymor neu ar ddiwedd testun. Mae athrawon yn barnu cyrhaeddiad disgyblion gan ddefnyddio disgrifwyr lefel addysg grefyddol. Mewn rhai ysgolion, mae athrawon yn rhoi taflen werthfawr â disgrifwyr lefel i ddisgyblion ar ddechrau'r flwyddyn ac mae'r meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau asesu yn cysylltu'n uniongyrchol â hyn. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn yr ysgolion hyn yn gwybod beth yn union mae athrawon yn gofyn ohonynt.

66 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion bortffolios defnyddiol o waith disgyblion sydd wedi cael eu hasesu a'u safoni. Mae athrawon yn defnyddio'r portffolios hyn yn dda i'w cynorthwyo i lunio barnau cywir am waith disgyblion. Mae athrawon mewn rhai ysgolion yn cysylltu'n dda ag ysgolion eraill i gymedroli eu barnau neu'n defnyddio deunydd enghreifftiol Llywodraeth Cymru i'w cynorthwyo.

67 Mae ansawdd adborth llafar ac ysgrifenedig athrawon i ddisgyblion am eu gwaith yn amrywio'n sylweddol. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae athrawon yn rhoi adborth

buddiol i ddisgyblion ar eu haddysg grefyddol a’u medrau llythrennedd. Mae llawer o athrawon yn rhoi arweiniad defnyddiol i ddisgyblion ar yr hyn y maent wedi’i wneud yn dda a sut gallant wella eu gwaith ymhellach. Mewn llawer o ysgolion, mae adborth athrawon yn cysylltu’n briodol â’r meini prawf llwyddiant ar gyfer pob tasg.

68 Mewn rhai ysgolion, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon yn helpu disgyblion i wella eu medrau llythrennedd yn ddigon da, ac mae disgyblion yn aml yn gwneud ac yn ailadrodd camgymeriadau mewn sillafu ac atalnodi sylfaenol. Yn ychwanegol, mewn rhai ysgolion, prin yw’r dystiolaeth o ddisgyblion yn darllen ac yn gweithredu yn unol ag adborth athrawon i wella eu gwaith ymhellach. Yn y mwyafrif o ysgolion, ni roddir cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

# Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth pwnc

### Cyfnod allweddol 2

69 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, ceir arweinyddiaeth briodol mewn addysg grefyddol gan benaethiaid ac arweinwyr pwnc. Mae pob arweinydd yn ymwybodol o'r maes llafur addysg grefyddol a gytunwyd yn lleol, ac mae llawer ohonynt yn sicrhau bod eu hysgol yn bodloni'r gofynion statudol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn eu hysgol ond maent yn llai cadarn ynglŷn â safonau disgyblion.

70 Mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr farn glir ar bwysigrwydd addysg grefyddol ac yn deall beth mae disgyblion yn ei ennill o wersi. Bron ym mhob ysgol, mae arweinwyr yn adnabod pwysigrwydd yr ethos ysgol gyfan o ran cefnogi addysgu addysg grefyddol. Maent hefyd yn gweld bod gan addoli ar y cyd rôl bwysig o ran atgyfnerthu addysg grefyddol a negeseuon moesol.

71 Mae arweinwyr mewn ychydig o ysgolion yn unig yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn addysg grefyddol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae gan benaethiaid ac arweinwyr pwnc farn gadarnhaol iawn am addysg grefyddol yn eu hysgolion. Fodd bynnag, nid ydynt yn seilio'r farn hon ar arfarniad trylwyr o safonau disgyblion. Yn yr ysgolion prin lle mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o safonau, maent yn arsylwi dysgu ac yn monitro gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn gywir i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella.

72 Er mai ychydig o arweinwyr pwnc yn unig sydd ag unrhyw gymwysterau addysg grefyddol ffurfiol, yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r arweinydd pwnc wedi datblygu'r medrau sydd eu hangen i arwain y pwnc yn briodol. Mewn ychydig iawn o ysgolion, penodwyd yr arweinydd pwnc gan y pennaeth gan mai hon oedd yr unig swydd ar gael i aelod newydd o staff adeg penodi, ac nid oherwydd diddordeb cryf, neu wybodaeth, yr athro am y pwnc.

73 Bron ym mhob ysgol, mae arweinwyr yn sicrhau bod gan athrawon ddigon o adnoddau i addysgu gwersi addysg grefyddol yn llwyddiannus. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion ystod gynhwysfawr o lyfrau ac arteffactau perthnasol sydd o ansawdd da ac yn cefnogi addysgu yn effeithiol. Er nad yw arweinwyr yn dyrannu adnoddau ariannol ar gyfer addysg grefyddol bob blwyddyn yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr yn trefnu bod cyllid ar gael os oes angen diweddaru adnoddau neu gael rhai newydd. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae athrawon yn defnyddio gwasanaethau llyfrgell neu wasanaethau benthyca'r awdurdod lleol hefyd i gael benthyg llyfrau ac adnoddau i gefnogi eu haddysgu'n dda.

### Cyfnod allweddol 3

74 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr pwnc addysg grefyddol yn arwain eu pwnc yn dda. Maent yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd a buddiol i drafod darpariaeth yr ysgol a monitro cynnydd disgyblion. Maent yn sicrhau bod pob un o'r staff, yn enwedig y rhai nad ydynt yn arbenigwyr, yn cael cymorth priodol i'w galluogi i addysgu'r pwnc yn effeithiol.

75 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae penaethiaid ac arweinwyr pwnc yn meddu ar ymwybyddiaeth gadarn o safonau addysg grefyddol yn eu hysgol. Mae arweinwyr pwnc yn meddu ar ddealltwriaeth gynhwysfawr o gryfderau'r pwnc a'r meysydd y mae angen eu gwella.

76 Bron ym mhob ysgol, mae arweinwyr yn sicrhau bod addysg grefyddol yn cael yr un adnoddau â phynciau eraill y tu allan i'r pynciau craidd. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r pennaeth yn dyrannu swm rheolaidd o arian bob blwyddyn i'r pwnc i brynu ystod o adnoddau defnyddiol. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae arweinwyr yn seilio cyllid ar nifer y disgyblion sy'n astudio'r pwnc ar gyfer TGAU, ac o ganlyniad, mae'r adran addysg grefyddol yn aml yn cael cyllid ychwanegol ar gyfer adnoddau.

### Tynnu allan o wersi

77 Bron ym mhob ysgol, mae arweinwyr yn hysbysu rhieni am eu hawl i dynnu eu plentyn allan o wersi addysg grefyddol, fel arfer trwy ddatganiad ym mhrosbectws yr ysgol neu ar eu gwefan. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr yn trefnu siarad ag unrhyw rieni sy'n dymuno tynnu eu plentyn allan o addoli ar y cyd neu wersi addysg grefyddol. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, mae'r rhan fwyaf o rieni yn newid eu meddwl gan fod y pennaeth neu'r arweinydd pwnc yn mynd i'r afael yn sensitif â phryderon y rhieni am y pwnc ac yn eu hargyhoeddi ynglŷn â gwerth addysg grefyddol i'w plentyn. O ganlyniad, bron ym mhob ysgol, mae ychydig iawn o ddisgyblion nad ydynt yn cymryd rhan mewn addysg grefyddol, ac mae hyn wedi bod yn wir ers sawl blwyddyn.

### Gwella ansawdd

### Cyfnod allweddol 2

78 Mewn rhai ysgolion, mae arweinwyr yn defnyddio deilliannau gweithgareddau monitro trylwyr i wella ansawdd safonau disgyblion mewn addysg grefyddol. Mewn llawer o ysgolion, mae'r arweinydd pwnc addysg grefyddol yn ymgymryd â rhyw fath o fonitro yn rheolaidd yn unol â pholisi ei (h)ysgol. Mae hyn fel arfer yn digwydd bob blwyddyn neu mae'n rhan o gylch dwy neu dair blynedd. Mae'r pennaeth fel arfer yn neilltuo amser ar gyfer monitro addysg grefyddol yn unol â'r amser a roddir ar gyfer pynciau di-graidd eraill.

79 Yn gyffredinol, mae gweithgareddau monitro yn cynnwys craffu ar waith disgyblion, edrych ar gynllunio athrawon, ac mewn rhai ysgolion, arsylwadau gwersi. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae arweinwyr yn gofyn am safbwyntiau disgyblion trwy holiaduron neu gyfarfodydd hefyd. Yn dilyn y gweithgareddau hyn, mae llawer o arweinwyr pwnc yn llunio adroddiadau monitro defnyddiol, y maent yn eu rhannu ag aelodau eraill o staff. Mewn rhai ysgolion, mae arweinwyr pwnc yn ysgrifennu adroddiadau hunanarfarnu a chynlluniau gweithredu addysg grefyddol penodol a defnyddiol.

80 Bron ym mhob ysgol, mae arweinwyr pwnc yn arfarnu darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg grefyddol a medrau yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh: Llywodraeth Cymru, 2013) a TGCh mewn gwersi addysg grefyddol, safonau addysgu, adnoddau a chyfleoedd i wella'r cwricwlwm. Nid yw arweinwyr yn arfarnu'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn addysg grefyddol na'r cynnydd y maent yn ei wneud. O ganlyniad, nid oes gan y rhan fwyaf o arweinwyr unrhyw gynlluniau ar waith i wella deilliannau disgyblion mewn addysg grefyddol ac nid oes ganddynt unrhyw dystiolaeth drylwyr na gwiriedig i gefnogi eu barnau ar safonau disgyblion.

Mewn un ysgol gynradd, mae arweinwyr yn monitro'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn addysg grefyddol yn rheolaidd trwy graffu ar waith disgyblion, arsylwadau gwersi a dadansoddi data mewnol. Dangosodd monitro diweddar fod llawer o ddisgyblion hŷn yn cyflawni lefel 4, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth o waith lefel 5. Nododd arweinwyr nad oedd disgyblion yn gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol nac yn nodi'r nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau o fewn ac ar draws crefyddau. O ganlyniad i'r gwaith hwn, roedd arweinwyr yn cynnwys targed i fynd i'r afael â hyn fel rhan o'u cynllun gwella ysgol.

81 Cyfyngedig yw'r cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon neu arweinwyr pwnc addysg grefyddol. Ychydig iawn o gyfleoedd a gaiff athrawon i gydweithio ac arsylwi arfer dda mewn addysg grefyddol yn eu hysgol eu hunain neu mewn ysgolion eraill. Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn cynnig ychydig iawn o gyfleoedd dysgu proffesiynol penodol mewn addysg grefyddol ar gyfer athrawon neu arweinwyr pwnc. O ganlyniad, mae bron pob ysgol yn dibynnu ar drefnu eu hyfforddiant addysg grefyddol eu hunain yn fewnol ar gyfer staff yr ysgol. Mae ansawdd yr hyfforddiant yn dibynnu ar wybodaeth a medrau'r arweinwyr pwnc.

82 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r arweinydd pwnc yn darparu cymorth a her addas ar gyfer cydweithwyr sy'n addysgu'r pwnc. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn frwdfrydig ynglŷn â'r pwnc ac maent yn gweithio'n dda gyda staff eraill i wella darpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn eu hysgol. Fodd bynnag, yn yr ysgolion prin lle nad oes gan arweinwyr pwnc wybodaeth helaeth am ystod eang o grefyddau, mae eu gallu i gynorthwyo a herio staff eraill yn gyfyngedig. Yn ychwanegol, nid yw arweinwyr pwnc yn herio staff yn ddigon da ynglŷn â'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl.

### Cyfnod allweddol 3

83 Bron ym mhob ysgol, mae arweinwyr pwnc yn monitro safonau a darpariaeth mewn addysg grefyddol bob blwyddyn neu bob dwy flynedd fel rhan o gylch monitro ac arfarnu ysgol gyfan. Mae arweinwyr yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau monitro addas, gan gynnwys craffu ar waith disgyblion, arsylwadau gwersi a theithiau dysgu. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae athrawon yn siarad â disgyblion fel rhan o'r broses hon i gael eu barn ar y pwnc. Mae hyn yn cynnwys darganfod beth hoffai disgyblion ei ddysgu. Mae arweinwyr hefyd yn monitro'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud trwy ddadansoddi data olrhain mewnol ar ddisgyblion. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae aelodau o uwch dîm arweinyddiaeth yr ysgol hefyd yn cymedroli'r barnau y mae'r athrawon pwnc yn eu llunio trwy graffu ar safonau addysgu a dysgu hefyd. O ganlyniad, yn yr ysgolion hyn, mae barnau ar safonau disgyblion yn gadarn.

84 Bron ym mhob ysgol, mae’r arweinydd pwnc ar gyfer addysg grefyddol, ar ôl ymgynghori ag athrawon pwnc, yn llunio adroddiad hunanarfarnu a chynllun gweithredu blynyddol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cysylltiad clir rhwng deilliannau gweithgareddau monitro a blaenoriaethau ar gyfer gwella yn y cynllun gwella. Mewn lleiafrif o ysgolion, fodd bynnag, nid yw ansawdd yr hunanarfarnu yn ddigon da. Er enghraifft, mae arweinwyr yn seilio eu barnau ar ystod gyfyng o dystiolaeth, ac nid ydynt yn canolbwyntio ar effaith camau gweithredu yn ddigon da.

85 Mae CBAC yn cynnig hyfforddiant i athrawon Blwyddyn 9 sy’n addysgu’r maes llafur TGAU. Fodd bynnag, heblaw’r cyrsiau hyn, ychydig iawn o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy’n benodol i bwnc a geir ar gyfer athrawon addysg grefyddol.

86 Mewn lleiafrif o ysgolion yn unig y mae athrawon addysg grefyddol yn cymryd rhan mewn unrhyw weithio diweddar neu ystyrlon rhwng ysgolion sy’n cefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu yn y pwnc. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon addysg grefyddol yn rhan o rwydwaith arfer broffesiynol y consortiwm rhanbarthol neu maent yn mynychu cyfarfodydd fforwm addysg grefyddol yr awdurdod lleol yn rheolaidd. Mae’r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfleoedd i athrawon rannu arfer orau yn ogystal â chynnig cymorth ac arweiniad iddynt.

87 Bron ym mhob ysgol, mae’r arweinydd pwnc yn darparu lefel addas o gymorth ar gyfer cydweithwyr sy’n addysgu addysg grefyddol trwy gyfarfodydd ffurfiol ac yn anffurfiol, yn enwedig ar gyfer y rheiny nad ydynt yn arbenigwyr pwnc. Maent hefyd yn darparu ystod o adnoddau addas ar gyfer yr athrawon hyn i gefnogi eu haddysgu.

### Pontio

88 Ychydig iawn o waith pontio a geir rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd sy’n canolbwyntio ar addysg grefyddol. Yn ychwanegol, ychydig iawn o drafodaeth a geir am addysg grefyddol rhwng ysgolion cynradd o fewn eu clwstwr, er enghraifft ar ba grefyddau y byddant yn eu hastudio. Yn yr un modd â phynciau di-graidd eraill, ychydig iawn o ysgolion cynradd ac uwchradd sy’n gweithio gyda’i gilydd i gyfnewid gwybodaeth am berfformiad am gyflawniad disgyblion mewn addysg grefyddol. Nid ydynt yn gweithio gyda’i gilydd i rannu gwybodaeth am eu cynlluniau gwaith addysg grefyddol na pha grefyddau sydd wedi cael eu haddysgu. O ganlyniad, mae disgyblion yn aml yn ailadrodd testunau a medrau addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 3 y gwnaethant eu dysgu yng nghyfnod allweddol 2.

89 Mewn rhai clystyrau ysgolion, mae athrawon addysg grefyddol arbenigol o ysgolion uwchradd wedi cynorthwyo cydweithwyr cynradd i addysgu agweddau ar addysg grefyddol ac wedi rhannu adnoddau. Mewn ychydig iawn o glystyrau, mae athrawon addysg grefyddol o ysgolion uwchradd yn addysgu gwersi addysg grefyddol i ddisgyblion cynradd o bryd i’w gilydd. Yn ychwanegol, pan fydd disgyblion yn ymweld ag ysgolion uwchradd ar ddiwrnodau pontio, mewn rhai clystyrau ysgolion, cânt wers addysg grefyddol o bryd i’w gilydd. Fodd bynnag, nid yw’r trefniadau hyn yn nodwedd reolaidd o waith pontio o fewn y clystyrau hyn o ysgolion.

## Atal

90 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rôl a'u cyfrifoldebau a amlinellir yn y ddyletswydd Atal (Llywodraeth EM, 2015) o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (Prydain Fawr, 2015). Mae llawer o arweinwyr yn cydnabod pa mor bwysig yw gwersi addysg grefyddol o ran cyfrannu at yr agenda hon.

91 Mewn ardaloedd trefol mwy, mae bron pob un o'r athrawon addysg grefyddol wedi mynychu cyrsiau Atal lleol i roi hyfforddiant trylwyr iawn iddynt ar sut i adnabod arwyddion posibl o radicaleiddio ac eithafiaeth a delio â phryderon. Mae rhai ysgolion wedi cyfeirio pryderon am ddisgyblion unigol at y panel lleol perthnasol i'w hystyried. Er enghraifft, mewn un ysgol uwchradd, roedd athrawes addysg grefyddol yn pryderu am sylw a wnaeth disgybl mewn gwers. Yn dilyn trafodaeth bellach â'u hathro amddiffyn plant dynodedig, gwnaeth yr ysgol gyfeiriad yn unol â'u polisi diogelu.

92 Yn y rhan fwyaf o Gymru, fodd bynnag, uwch arweinwyr yn unig sydd wedi cael hyfforddiant am Atal, a'u rôl nhw yw lledaenu'r wybodaeth ymhlith aelodau eraill o staff. Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid yw aelodau o staff yn ymwybodol o Atal.

93 Mewn rhai ysgolion, nid yw arweinwyr yn deall eu rôl yn llawn ac nid ydynt yn ystyried bod hyn yn berthnasol nac yn fygythiad i'w hysgol a'r ardal gyfagos. Mae'r diffyg sylw hwn i Atal yn golygu y gallai staff yn yr ysgolion hyn, gan gynnwys athrawon addysg grefyddol, golli cyfle i nodi a mynd i'r afael â phryderon cynnar am ddisgybl neu ymddygiad unigolion y tu allan i'r ysgol sy'n cael cyswllt â disgybl.

94 Bron ym mhob ysgol, mae gan arweinwyr weithdrefnau effeithiol ar waith i fonitro siaradwyr allanol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr yn gwirio siaradwyr cyn eu hymweliadau, ac yn yr arfer orau, mae'n ofynnol i ymwelwyr drafod a chytuno ar union gynnwys eu sgwrs gydag uwch aelod o staff. Mae o leiaf un aelod o staff fel arfer yn aros yn yr ystafell pan fydd ymwelwyr yn siarad â dosbarthiadau neu'n arwain addoli ar y cyd. Mewn rhai ysgolion, mae arweinwyr pwnc yn adrodd am ostyngiad nodedig yn nifer y bobl sydd wedi ymweld â'r ysgol dros y blynyddoedd diwethaf, gan fod arweinwyr yn fwy ystyriol o risgiau posibl.

95 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi cyfleoedd priodol i ddisgyblion siarad am ddigwyddiadau yn gysylltiedig â therfysgaeth, fel arfer yn y dosbarth. Mewn llawer o ysgolion, mae arweinwyr yn myfyrio ar ddigwyddiadau o'r fath mewn addoli ar y cyd hefyd, pan fo'n briodol, sy'n cefnogi gwaith mewn addysg grefyddol. Fodd bynnag, nid oes gan athrawon addysg grefyddol mewn rhai ysgolion hyder i ymdrin â thrafodaethau dosbarth am y materion sensitif hyn. Er enghraifft, mewn un ysgol gynradd, adeg y bomio ym Manceinion yn 2017, roedd athrawon wedi bwriadu addysgu uned waith ar Islam. Penderfynodd y rhan fwyaf o athrawon cyfnod allweddol 2 beidio ag addysgu'r uned yn unol â'r bwriad gan nad oeddent yn siŵr sut i'w chyflwyno yn sensitif ac yn briodol.

96 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal asesiadau risg priodol cyn mynd â disgyblion i ymweld â mannau addoli.

## Her a chymorth allanol

97 Ychydig o ysgolion cynradd yn unig sy'n cael cymorth neu her yn benodol ar gyfer addysg grefyddol gan awdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol.  Yn unol â phynciau di-graidd eraill, nid yw ymgynghorwyr her yn trafod safonau a darpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn systematig, ac nid ydynt yn gofyn am unrhyw ddata.

> Cafodd staff mewn un ysgol gynradd gymorth defnyddiol gan eu consortiwm rhanbarthol i'w helpu i ddiwygio eu cynllun gwaith addysg grefyddol.  Ymwelodd ymgynghorwyr o'r consortiwm â'r ysgol am ddeuddydd i siarad â staff ac adolygu'r cynllun gwaith presennol.  Wedyn, fe wnaethant gynorthwyo arweinydd pwnc yr ysgol i ddatblygu cynllun gwaith newydd i adlewyrchu cyd-destun yr ysgol, gan ddefnyddio'r maes llafur a gytunwyd yn lleol fel y man cychwyn.

98 Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid ysgolion cynradd yn ymwybodol o'r CYSAG lleol ond maent yn ansicr ynglŷn â'i rôl a'i ddiben.  Mewn lleiafrif o ysgolion, caiff arweinwyr arweiniad defnyddiol trwy negeseuon e-bost gan y CYSAG lleol.  Yn benodol, mae rhai CYSAGau yn rhoi rhestr i ysgolion o leoedd addoli cymeradwy i ymweld â nhw.

99 Lleiafrif o ysgolion uwchradd yn unig sy'n cael unrhyw gymorth allanol gan yr awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol.  Mewn consortia lle cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i arweinwyr pwnc rannu adnoddau a datblygu cynlluniau gwaith, dywed athrawon fod y cyfarfodydd hyn yn eu helpu i wella arfer yn eu hysgol.  Yn yr ysgolion prin lle mae athrawon yn rhan o'r CYSAG lleol, cânt y wybodaeth fwyaf cyfoes am waith y grŵp.  Fodd bynnag, mae athrawon mewn lleiafrif o ysgolion yn gwneud ychydig iawn o ddefnydd o'r wybodaeth a ddarperir gan eu CYSAG lleol.

100 Mae bron pob un o'r CYSAGau yn cynnig cymorth i ysgolion fynd i'r afael ag argymhellion sy'n ymwneud ag addysg grefyddol yn dilyn arolygiad Estyn.

> Mae un CYSAG yn cynnig cyngor dros y ffôn i athrawon gan eu hymgynghorydd proffesiynol ar gyfer addysg grefyddol.  Mae'r CYSAG yn darparu rhestr o gysylltiadau ar gyfer ysgolion sy'n dymuno ymweld â mannau addoli neu wahodd aelodau o gymunedau ffydd i ysgolion.  Mae aelodau o'r CYSAG wedi sefydlu gwefan o fewn gwefan yr awdurdod lleol lle gall ysgolion fynd at ddogfennau, gwybodaeth ac arweiniad statudol am addysg grefyddol ac addoli ar y cyd.  Maent yn gweithio'n agos â gwasanaeth lleiafrifoedd ethnig yr awdurdod lleol sydd wedi creu 'llwybr ffydd' o gwmpas yr ardal i gynorthwyo ysgolion â'u hymweliadau a'u hadnoddau ysgol sy'n cysylltu'n agos â'u gwaith nhw a gwaith CYSAG.  Mae aelodau o'r CYSAG yn annog ysgolion i gyflwyno erthyglau i'r cyhoeddiad, 'RE News', i rannu arfer dda.  Mae cynrychiolwyr athrawon a phenaethiaid ar y CYSAG yn adrodd yn ôl i'r staff yn eu hysgol hefyd ac yn tynnu eu sylw at unrhyw broblemau, pryderon neu faterion o ddiddordeb.

# Atodiad 1: Cwestiynau ar gyfer darparwyr

Fel man cychwyn ar gyfer adolygu arfer bresennol mewn addysg grefyddol, gall ysgolion ddefnyddio'r cwestiynau canlynol fel rhan o'u hunanarfarniad:

**Safonau**

- A ydym ni'n gwybod pa safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn addysg grefyddol?
- A ydym ni'n gwybod bod disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal ag y gallent?
- A ydym ni'n gwybod bod disgyblion o bob gallu yn cyflawni safonau tebyg i bynciau eraill mewn addysg grefyddol?

**Darpariaeth**

- A ydym ni'n sicrhau nad ydym yn ailadrodd medrau a thestunau yng nghyfnod allweddol 3 y mae disgyblion eisoes wedi'u cwmpasu yng nghyfnod allweddol 2?
- A ydym ni'n sicrhau bod profiadau dysgu yn herio'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwy abl?
- A ydym ni'n cynllunio cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh mewn gwersi addysg grefyddol?
- A ydym ni'n defnyddio ymweliadau ac ymwelwyr i wella'r cwricwlwm yn ddigon da?
- A ydym ni'n defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu sy'n ennyn diddordeb yr holl ddisgyblion yn effeithiol?
- A oes gennym ni ddisgwyliadau uchel o'r holl ddysgwyr, yn enwedig y rhai mwy abl?
- A ydym ni'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion o wahanol ffydd rannu eu profiadau â disgyblion eraill?
- A ydym ni'n sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut bydd gwersi addysg grefyddol yn eu helpu i fod yn ddinasyddion moesegol wybodus yng Nghymru a'r byd?
- A ydym ni'n rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig effeithiol i ddisgyblion sy'n mynd i'r afael ag addysg grefyddol a medrau eraill?

**Arweinyddiaeth**

- A ydym ni'n monitro'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn addysg grefyddol yn ogystal â darpariaeth?

- A oes gennym ni brosesau ar waith i lunio barnau cadarn ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion?
- A ydym ni'n seilio ein barnau ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol?
- A ydym ni'n gwrando ar ddysgwyr yn ddigon da?
- A yw ein hadroddiad hunanarfarnu a'n cynllun gweithredu yn ymwneud â gwella safonau disgyblion yn ogystal â darpariaeth ac arweinyddiaeth?
- A ydym ni'n darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol addas i staff neu gyfleoedd i staff gydweithio â phobl eraill?
- A ydym ni'n trafod safonau addysg grefyddol a darpariaeth ar ei chyfer o fewn ein clwstwr o ysgolion?
- A ydym ni'n arfarnu ein cwricwlwm i baratoi ar gyfer datblygu a gweithredu maes dysgu newydd y dyniaethau?
- A ydym ni'n sicrhau bod pob aelod o staff, gan gynnwys staff cyflenwi ac aelodau newydd o staff, yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y ddyletswydd Atal?

## Atodiad 2: Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o 47 o ysgolion:

- ymweliadau â 12 ysgol gynradd a naw ysgol uwchradd
- cyfweliadau dros y ffôn gydag arweinwyr mewn saith ysgol gynradd a phum ysgol uwchradd
- gwybodaeth o 13 arolygiad ysgol gynradd yn ystod tymor yr hydref 2017 lle roedd addysg grefyddol yn ffocws thematig ychwanegol
- ymatebion i'r holiadur gan bob un o'r 22 CYSAG

Mae'r detholiad o ysgolion yr ymwelwyd â nhw neu a ffoniwyd yn ystyried amrywiaeth o ran lleoliad daearyddol, cefndir economaidd gymdeithasol, maint yr ysgol a chyd-destunau ieithyddol. Mae'r detholiad hefyd yn cynnwys nifer fach o ysgolion arloesi.

Roedd yr ymweliadau'n cynnwys:

- cyfweliadau â phenaethiaid ac arweinwyr pwnc
- arsylwadau gwersi a theithiau dysgu
- trafodaethau gyda disgyblion â'u gwaith
- craffu ar waith disgyblion
- craffu ar ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys, er enghraifft, polisïau, cynlluniau gwaith, adroddiadau hunanarfarnu a chynlluniau gweithredu, portffolios gwaith disgyblion, cofnodion hyfforddiant a data monitro

**Rhestr o ysgolion a gyfwelwyd, yr ymwelwyd â nhw neu a arolygwyd**

**Ysgolion yr ymwelwyd â nhw**

Ysgol Awel y Mynydd, Conwy
Ysgol Bro Dinefwr, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Dinas Brân, Sir Ddinbych
Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin, Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Gyfun Treorci, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gyfun y Bont-faen, Bro Morgannwg
Ysgol Gynradd Albany, Caerdydd
Ysgol Gynradd Cwrt Rawlin, Caerffili
Ysgol Gynradd Llanfair, Sir Ddinbych
Ysgol Gynradd Llanidloes, Powys
Ysgol Gynradd Moorland, Caerdydd
Ysgol Gynradd Palmerston, Bro Morgannwg
Ysgol Gynradd Parc Y Bont, Ynys Môn
Ysgol Gynradd Penygawsi, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd Plasmarl, Abertawe
Ysgol Gynradd Victoria, Wrecsam
Ysgol Pentrehafod, Abertawe

Ysgol Santes Tudful, Merthyr Tudful
Ysgol Tryfan, Gwynedd
Ysgol Uwchradd Argoed, Sir y Fflint
Ysgol Uwchradd Cathays, Caerdydd

**Ysgolion a ffoniwyd**

Ysgol Bod Alaw, Conwy
Ysgol Bryn Gwalia, Sir y Fflint
Ysgol Brynrefail, Gwynedd
Ysgol Gyfun Gwynllyw, Torfaen
Ysgol Gyfun Stanwell, Bro Morgannwg
Ysgol Gyfun y Coed-duon, Caerffili
Ysgol Gynradd Drenewydd Gelli-farch, Sir Fynwy
Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa, Merthyr Tudful
Ysgol Gynradd Ringland, Casnewydd
Ysgol Iau Llangewydd, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Maenclochog, Sir Benfro
Ysgol Sefydledig Brynmawr, Blaenau Gwent

**Ysgolion a arolygwyd**

Ysgol Baladeulyn, Gwynedd
Ysgol Bro Siôn Cwilt, Ceredigion
Ysgol Gynradd Creunant, Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Gynradd Darran Park, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd Franksbridge, Powys
Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre, Wrecsam
Ysgol Gynradd Gymysg Hendy, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Gynradd Penrhys, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd Penysarn, Ynys Môn
Ysgol Gynradd Sant Illtyd, Blaenau Gwent
Ysgol Sarn Bach, Gwynedd
Ysgol Y Berllan Deg, Caerdydd
Ysgol y Faenol, Sir Ddinbych

# Atodiad 3: Astudiaethau achos

**Astudiaeth achos 1: Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin: Datblygu dysgwyr uchelgeisiol a medrus sy'n entrepreneuraidd a chreadigol yn eu dysgu.**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol gyfun fawr gymysg 11-16 cyfrwng Saesneg yng Nghastell-nedd Port Talbot yw Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin. Mae ganddi 1,134 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 14% o ddisgyblion yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae tua 18% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndiroedd gwyn Prydeinig ac ychydig iawn ohonynt sydd o grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae gan ryw 26% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r ysgol yn 'ysgol arloesi dysgu proffesiynol' ar hyn o bryd. Mae datganiad cenhadaeth yr ysgol yn cyd-fynd â phedwar diben y cwricwlwm i Gymru.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer effeithiol**

Mae'r adran addysg grefyddol yn Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin yn adran flaengar sy'n ceisio arloesi yn ei dulliau addysgu yn barhaus er mwyn gwella profiadau dysgu'r disgyblion. Yng nghynllun datblygu'r adran, nododd arweinwyr fod angen cefnogi nod yr ysgol i ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol a medrus sy'n entrepreneuraidd a chreadigol yn eu dysgu. Yn dilyn ymgynghori â phob aelod o staff yn yr adran, penderfynodd yr arweinwyr roi ymreolaeth i'r disgyblion gynllunio a chreu cyfres o wersi ar thema benodol. Cynlluniwyd y dull hwn i alluogi diddordebau a syniadau'r disgyblion i fod yn ganolog i'w dysgu, gan roi cyfrifoldeb iddynt am yrru eu cynnydd eu hunain ymlaen a datblygu medrau ar gyfer dysgu gydol oes.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd/strategaeth**

Annog, cymell ac ymgysylltu â disgyblion trwy addysgu a dysgu effeithiol sydd wrth wraidd cynllunio cwricwlwm yr ysgol. Yn ystod tymor yr hydref 2017, ffocws allweddol yr adran addysg grefyddol oedd darparu cydbwysedd lle caiff datblygu medrau ei gynorthwyo trwy gynnwys pwnc a'i gefnogi gan brofiadau dysgu dilys.

I ddechrau'r prosiect, rhoddodd athrawon deitl y ffocws thematig i ddisgyblion yn seiliedig ar 'Arwyr a Dihirod' a'r gofyniad am ganlyniad asesedig ar ddiwedd yr ymweliad. Yn dilyn hyn, fe wnaeth athrawon roi disgyblion mewn grwpiau gallu cymysg a chymysg o ran rhywedd i benderfynu ar weledigaeth ar gyfer eu canlyniad. Dewiswyd y grwpiau gan yr athro ar sail herio disgyblion i weithio gydag amrywiaeth o wahanol

ddisgyblion. Yn eu grwpiau, bu disgyblion yn trafod y medrau y byddai eu hangen arnynt i gwblhau'r dasg. Fe wnaethant gytuno ar feini prawf llwyddiant ar gyfer yr asesiad hefyd, i'w cynorthwyo i gyflawni eu canlyniad. Trwy ymchwil annibynnol, canolbwyntiodd bob grŵp ar agwedd wahanol o fewn y thema, gan edrych ar bobl sydd â chefndir crefyddol ac sydd wedi gwneud pethau arwrol neu a ddaeth yn fwy arwrol o ganlyniad i dröedigaeth grefyddol. Roedd hyn yn gweddu i ddiddordeb y disgyblion a llwyddodd i gadw eu cymhelliant i ddysgu. Dewisodd disgyblion astudio Martin Luther King Jnr., Nicky Cruz a Stanley Williams. Hefyd, dewisodd pob aelod o'r grŵp eu rolau eu hunain, sef arweinydd, ymchwilydd, trefnydd, arbenigwr TGCh, datblygwr adnoddau a holwr. Roedd pob rôl yn gweddu i ddiddordebau'r disgybl unigol. Rhoddodd yr athrawon gyfle i ddisgyblion ddangos eu dealltwriaeth trwy ofyn iddynt gwblhau ateb cytbwys ac arfarnol a oedd yn ymgorffori cynnwys crefyddol yn ogystal ag asesu eu medrau arfarnol a dadansoddol. Dechreuodd pob gwers gyda'r athro yn galw i gof wersi blaenorol trwy ddefnyddio cwestiynau treiddgar. Arfarnodd disgyblion y medrau blaenorol yr oeddent wedi'u datblygu, ac wedyn, dewison nhw yn annibynnol fedrau y byddent yn canolbwyntio arnynt am y wers benodol honno a oedd yn cefnogi eu meini prawf llwyddiant.

Hwylusodd yr athrawon y dysgu trwy awgrymu a thrafod strategaethau ymhlith grwpiau a thrwy sesiynau llawn defnyddiol. Bu disgyblion yn cydweithio ac roedd grwpiau yn gystadleuol ymhlith ei gilydd wrth iddynt ymdrechu i gyflawni'r canlyniad gorau.

Trwy gydol y tymor, roedd cymhelliant, brwdfrydedd ac ymgysylltiad gan yr holl ddisgyblion yn rhagorol ac awgrymodd adborth y disgyblion mai'r dull ymreolaethol ac annibynnol yw'r hyn roeddent yn ei fwynhau fwyaf ynglŷn â'r dysgu.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Y newid mwyaf a welodd athrawon oedd cyfranogiad gwell disgyblion mewn addysg grefyddol o gymharu â dull mwy penodol o ddysgu. Enillodd disgyblion fwy o wybodaeth hefyd am gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a'r berthynas rhwng credoau pobl a'u gweithredoedd, na mewn blynyddoedd blaenorol. Rhoddodd athrawon gyfle i ddisgyblion arfarnu'r hyn yr oeddent wedi'i gael o'r profiad. Y prif ganlyniad oedd eu bod yn hoffi'r cyfle i ddewis sut maent yn dysgu mewn gwersi addysg grefyddol a'r ffaith fod mwy o gyfle i weithio'n annibynnol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodus er mwyn cyflwyno eu tystiolaeth.

Yn dilyn y dull hwn, rhoddodd athrawon gyfle wedyn i ddisgyblion ddewis eu testun am y tymor nesaf a'u galluogi i awgrymu syniadau ar gyfer gyrru eu dysgu ymlaen ymhellach. Mae'r ysgol yn bwriadu ymestyn y dull hwn o ddysgu yn y dyfodol.

**Astudiaeth achos 2: Ysgol Gynradd Plasmarl: Datblygu medrau addysg grefyddol gan ddefnyddio cyd-destunau go iawn**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Gynradd Plasmarl yn Abertawe. Mae gan yr ysgol 164 o ddisgyblion, gan gynnwys 29 o ddisgyblion rhan-amser yn y dosbarth meithrin. Mae tua 45% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ryw 17% o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 49% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer ddiddorol**

Roedd uwch arweinwyr am sicrhau bod y cwricwlwm yn datblygu medrau llythrennedd a TGCh disgyblion ar draws maes dysgu a phrofiad y dyniaethau, a darparu cyd-destunau ysgogol a go iawn y gall disgyblion ddatblygu a chymhwyso eu dysgu ynddynt. Nod athrawon yw cymhwyso'r egwyddorion addysgegol a nodwyd yn Dyfodol Llwyddiannus wrth gynllunio eu haddysgu a'u dysgu, i sicrhau bod y gweithgareddau'n ymwneud yn uniongyrchol â phedwar diben y cwricwlwm newydd.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd/strategaeth**

Mae athrawon yn deall pwysigrwydd datblygu medrau disgyblion yng nghyd-destun cynnwys pwnc y dyniaethau. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gwerthfawrogi'r angen am gyd-destun perthnasol i ddatblygu medrau o'r fath ynddo, gan alluogi disgyblion i wneud cysylltiadau rhwng eu dysgu eu hunain a'r byd go iawn.

Mae'r dull hwn yn seiliedig ar yr athroniaeth y dylai disgyblion dderbyn cwricwlwm eang a chreadigol sy'n datblygu eu medrau (pynciol a thrawsgwricwlaidd), cysyniadau, gwybodaeth a dealltwriaeth.

Yn eu gwers addysg grefyddol, bu disgyblion yn trafod materion yn Myanmar gan ddefnyddio gwybodaeth yr oeddent wedi ei chlywed yn y newyddion. Cododd y wers lawer o gwestiynau a anogodd y disgyblion i feddwl yn greadigol. Roedd disgyblion yn awyddus i ddysgu mwy ac eisiau rhannu mwy o wybodaeth. Penderfynodd yr athro a'r disgyblion ganolbwyntio ar argyfwng Myanmar yn ystod amser athroniaeth a myfyrio.

Trefnodd yr athrawes amrywiaeth o weithgareddau llythrennedd, gan gynnwys ysgrifennu cytundebau heddwch, cymharu Islam a Bwdhaeth a defnyddio gridiau meddwl wrth edrych ar ffotograffau. O ganlyniad i gyfleoedd ymchwil effeithiol, llwyddodd disgyblion i gyfuno amrywiaeth o destun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo yn annibynnol i gynhyrchu cyflwyniad amlgyfrwng ar y cyd. Fe wnaethant gyflwyno eu gwaith i ddisgyblion eraill yng nghyfnod allweddol 2. Darparodd y gweithgaredd hwn gynulleidfa go iawn, a diben ar gyfer dysgu'r disgyblion.

Sicrhaodd y gweithgareddau fod y disgyblion yn gallu elwa ar wybodaeth ddilys, o ansawdd da o ystod o ffynonellau i ymchwilio i Islam a Bwdhaeth, gan roi dealltwriaeth well iddynt o'r gwerthoedd a'r egwyddorion a arddelir

gan y ddwy grefydd.  O ganlyniad, dylanwadodd hyn ar ddysgu gartref, gan fod disgyblion wedi eu cymell i wylio'r newyddion ac ymddiddori mewn materion cyfoes ynglŷn â datblygiadau yn Myanmar.

Deilliodd cyfleoedd i ddisgyblion fynegi eu safbwyntiau o drafodaethau am y gwleidydd Aung San Suu Kyi.  Bu'r disgyblion yn trafod y pryder cyffredinol am ei diffyg gweithredu wrth ddelio â dioddefaint poblogaeth y Rohingya Mwslimaidd yn Myanmar.

Mae'r ysgol yn datblygu'r dull hwn ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad erbyn hyn, ac mae'n nodi cyfleoedd dysgu rhwng y gwahanol feysydd dysgu a phrofiad.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

O ganlyniad i'r dull hwn o ddysgu, mae'r ysgol wedi sylwi bod llawer o ddisgyblion wedi magu hyder wrth weithio gyda'u cyfoedion.  Mae llawer o ddisgyblion wedi gwella eu medrau datrys problemau mewn gwersi addysg grefyddol trwy drafod a myfyrio.  Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf, gan alw gwybodaeth flaenorol i gof yn effeithiol a chymhwyso'r wybodaeth hon i gefnogi eu barn a'u safbwyntiau.  Mae'r dull hwn o ddysgu wedi helpu creu disgyblion ymholgar a brwdfrydig sy'n cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu.  Yn ychwanegol, mae gan lawer o ddisgyblion wybodaeth gryfach am Islam a Bwdhaeth a gwerthfawrogiad gwell o'r modd y mae credoau yn ysgogi ymddygiad.

Mae staff yn Ysgol Gynradd Plasmarl wedi rhannu'r arfer hon â sawl ysgol arall.  Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant HMS ac wedi rhannu agweddau ar y gwaith gyda grŵp staff o ysgol mewn clwstwr gwahanol i'w clwstwr nhw eu hunain.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **CPA** | Cynllunio, paratoi ac asesu. Hawl athrawon i amser digyswllt. Mae rhywun arall yn addysgu ei ddosbarth/dosbarth yn ystod yr amser hwn. |
| **CYSAG** | Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol. Mae CYSAGau yn gyfrifol yn gyfreithiol am gynghori awdurdodau lleol ar addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Rhaid i bob awdurdod lleol gael CYSAG. |
| **Dyletswydd Atal** | Y Ddyletswydd Atal yw'r ddyletswydd yn Neddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 sydd ar awdurdodau penodol, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi ystyriaeth briodol i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth. |
| **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh)** | Fframwaith medrau yw hwn a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Daeth yn statudol mewn ysgolion o fis Medi 2013. Mae wedi'i gynllunio i helpu athrawon i ymgorffori llythrennedd a rhifedd ym mhob maes pwnc. |
| **MDPh** | Maes dysgu a phrofiad. Mae chwe MDPh yn y Cwricwlwm newydd i Gymru, fel y nodir yn Dyfodol Llwyddiannus. |
| **Pedwar Diben Craidd** | Mae Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) yn nodi'r angen am ddibenion cyffredin sy'n treiddio trwy'r cwricwlwm ac yn hyrwyddo dyheadau uchel a phenderfyniad i gyflawni. Y pedwar diben craidd hyn yw bod plant a phobl ifanc yn datblygu i fod:<br>• yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes<br>• yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith<br>• yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd<br>• yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd boddhaus gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas |
| **Ysgolion arloesi** | Ysgolion sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i ddatblygu ac arbrofi â chwricwlwm newydd i Gymru |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Adran Addysg y Swyddfa Gymreig (1994) *Religious Education and Collective Worship.* Caerdydd: Y Swyddfa Gymreig. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.wasacre.org.uk/publications/wag/E-circular10-94.pdf [Defnyddiwyd 9 Ebrill 2018]

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf [Defnyddiwyd 16 Mai 2017]

Estyn (2013) *Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/RE%20in%20secondary%20schools.pdf [Defnyddiwyd 8 Mai 2017]

Llywodraeth Cymru (2013) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130415-lnf-guidance-cy.pdf [Defnyddiwyd 25 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2018) *Rhestr cyfeiriadau ysgolion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/statistics-and-research/address-list-of-schools/?skip=1&lang=cy [Defnyddiwyd 25 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130426-re-national-exemplar-framework-cy-v2.pdf [Defnyddiwyd 4 Medi 2017]

Llywodraeth EM (2015) *Canllawiau Diwygiedig ar y ddyletswydd Atal ar gyfer Cymru a Lloegr.* Llundain: Llywodraeth EM. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/445977/3799_Revised_Prevent_Duty_Guidance__England_Wales_V2-Interactive.pdf [Defnyddiwyd 13 Chwefror 2018]

Prydain Fawr (1988) *Deddf Diwygio Addysg 1988*. Pennod 40. Llundain: Llyfrfa Ei Mawrhydi

Prydain Fawr (1998) *Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.* Pennod 31. Llundain: Llyfrfa Ei Mawrhydi

Prydain Fawr (2005) *Deddf Addysg 2005.* Pennod 18. Llundain: Llyfrfa Ei Mawrhydi

Prydain Fawr (2015) *Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.* Pennod 6. Llundain: Llyfrfa Ei Mawrhydi

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Adroddiadau Estyn Reports**

A. **HYDREF 2017 AUTUMN**

**Ysgol Penysarn.**

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**
Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, ddiogel a hapus. Rhoddir pwyslais ar gydnabod a pharchu amrywiaeth unigolion a chaiff pob disgybl hawl gyfartal. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae'r sesiynau cydaddoli yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol a rhoddir cyfleoedd priodol iddynt fyfyrio ar faterion perthnasol. Mae cyfraniad aelod o'r corff llywodraethol trwy weithgareddau Agor y Llyfr yn cryfhau'r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Golyga hyn fod y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Fe amlygir hyn yn glir yn y ffordd mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymdrin â'i gilydd.

***Care, support and guidance: Good***
The school is a homely, safe and happy community. Emphasis is placed on recognising and respecting individuals' diversity and all pupils have equal rights. Provision for pupils' spiritual, moral, social and cultural development is good. Collective worship sessions support children's spiritual and moral development effectively, and they are given appropriate opportunities to reflect on relevant issues. The contribution of a member of the governing body through Open the Book activities strengthens provision successfully. This means that pupils develop a sound understanding of values such as honesty, fairness and respect towards others. This is highlighted clearly in the way in which most pupils treat each other.

**Ysgol y Fali.**

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**
Mae gan yr ysgol strategaethau pwrpasol i gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda nifer o wasanaethau ac asiantaethau allanol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, cyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos gofalgar a chynhwysol sy'n bodoli yn yr ysgol.

Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau ar amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn rhan naturiol o waith yr ysgol. Mae pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn yr ysgol, ac mae hyn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad disgyblion.

***Care, support and guidance: Good***
*The school has purposeful strategies to support pupils' emotional and social needs. The school works well with a number of external services and agencies. These procedures*

*are effective and have a positive effect on pupils' standards, attainment and wellbeing. This contributes successfully to the caring and inclusive ethos within the school.*

*Respecting multiculturalism, promoting aspects of diversity, anti-racism and developing fairness and equal opportunities are a natural part of the school's work. There is a clear emphasis on promoting the school's agreed values, and this has a positive influence on pupils' behaviour.*

**Ysgol Brynsiencyn.**

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella**
Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau ar amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau cadarn o ddiwylliant yr ysgol. Mae pwyslais amlwg ar ofalu am ei gilydd, ac mae hyn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad disgyblion.

**Care, support and guidance: Adequate and needs improvement**
Respecting multiculturalism, promoting aspects of diversity, anti-racism and developing fairness and equal opportunities are sound elements of the school's culture. There is a prominent emphasis on caring for each other, and this has a positive influence on pupils' behaviour.

**B. GWANWYN 2018 SPRING**

**Ysgol Llanbedrgoch**

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**
Mae ymddygiad bron bob disgybl wrth symud o amgylch yr ysgol yn ystod cyfnodau hamdden, gwasanaethau boreol ac mewn gwersi yn ardderchog. Maent yn gwrtais iawn wrth gyfarch ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn groesawgar, yn foesgar ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**
Mae sesiynau cyd-addoli o safon uchel, ac yn aml yn seiliedig ar straeon o'r Beibl neu themâu moesol, a chaiff y disgyblion gyfleoedd buddiol i ganolbwyntio ar agweddau fel 'bod yn amyneddgar'. Mae'r pwyslais ar ddatblygu gwerthoedd yn amlwg ym mywyd yr ysgol.

**Wellbeing and attitudes to learning: Good**
Nearly all pupils' behaviour while moving around the school during leisure time, morning assemblies and in lessons is excellent. They are very polite when greeting each other, staff and visitors. They are welcoming, polite and treat adults and visitors with respect.

**Care, support and guidance: Good**
Collective worship sessions are of a high standard and are often based on stories from the Bible or moral themes, and pupils are given beneficial opportunities to concentrate on aspects such as 'being patient'. The emphasis on developing values is prominent in the school's life.

**Ysgol Santes Gwenfaen, Rhoscolyn**

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**
Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, parch, ac ymroddiad yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn ardderchog, yn

dangos parch tuag at ei gilydd ac ymwelwyr, ac yn ymateb yn gydwybodol i'w gweithgareddau.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol ac mae'r ymweliadau â'r gymuned leol yn cyfoethogi hyn ymhellach.

**Care, support and guidance: Good**
The school promotes the importance of good behaviour, courtesy, respect and dedication very successfully. As a result, pupils behave excellently, treat each other and visitors with respect, and respond conscientiously to their activities.

The school promotes pupils' spiritual, moral and social development effectively, and visits to the local community enrich this further.

**<u>Ysgol Rhosybol.</u>**

Arolygwyd yr ysgol 12 Mawrth, 2018, a chyhoeddir yr adroddiad ar 17 Mai.

*The school was inspected 12 March, 2018, and the report will be published 17 May.*

**Lles ac agweddau at ddysgu : Rhagorol**
Mae ymdrech y disgyblion i gasglu arian at elusennau a chodi ymwybyddiaeth cymuned yr ysgol am achosion ymhell tu hwnt i'r ardal yn cyfleu eu hymwybyddiaeth aeddfed a chanmoladwy o anghenion eraill. Yn ddiweddar, maent wedi arwain ymgyrch ar draws Ynys Môn i gasglu dillad i ffoaduriaid o wlad Syria. Mae casglu dillad i ddioddefwyr Tŵr Grenfell yn enghraifft arall o'r gwaith arbennig hwn. Mae hyn yn annog disgyblion i ddatblygu'n ddinasyddion gweithgar, sy'n barod i arwain elfennau pwysig o fywyd o fewn a thu hwnt i'w cymuned leol yn y dyfodol.

**Gofal cymorth ac arweiniad : Rhagorol**
Mae ansawdd ardderchog y gofal, y cymorth a'r arweiniad a roddir gan staff yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus iawn ac mae ffocws cryf yr holl staff ar hyrwyddo disgwyliadau a gwerthoedd uchel yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb aeddfed dros eu gweithredoedd. Mae staff yn trefnu profiadau gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli, sy'n aml yn seiliedig ar straeon o'r Beibl lle y cânt werthfawrogi a dathlu'r gwahaniaethau rhyngddynt a'u cyfoedion. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o faterion crefyddol, moesol a materion sy'n digwydd yn y byd ehangach. Rhoddir cyfleoedd buddiol iawn i ddisgyblion leisio'u barn trwy gyfrwng amrywiol gynghorau. Ystyrir eu barn o ddifrif gan arweinwyr, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hyder ac yn meithrin ynddynt synnwyr o falchder a chyfrifoldeb dros eraill.

**Wellbeing and attitudes to learning: Excellent**
Pupils' effort to raise money for charities and raise the school community's awareness of causes far beyond the area conveys their mature and praiseworthy

awareness of others' needs. This has recently led to a campaign across Anglesey to collect clothing for refugees from Syria. Collecting clothing for the survivors of Grenfell Tower is another example of this exceptional work. This encourages pupils to develop as active citizens who are willing to lead on important elements of life, both within and outside their local community, in the future.

**Care, support and guidance: Excellent**

The excellent quality of care, support and guidance that is given by the school's staff has a very positive effect on pupils' standards and wellbeing. Pupils' spiritual, moral, social and cultural development is promoted very successfully, and the strong focus of all staff on promoting high expectations and values encourages pupils to take responsibility for their actions maturely. Staff organise valuable experiences for pupils to reflect in collective worship sessions, which are often based on stories from the Bible, where they are able to appreciate and celebrate the differences between themselves and their peers. As a result, pupils have a sound understanding of religious and moral issues, and issues that are occurring in the wider world. Pupils are given very beneficial opportunities to express their views through various councils. Their views are given serious consideration by leaders, which has a positive effect on their confidence and nurtures a sense of pride and responsibility for others.

## C. HAF 2018 SUMMER

## Ysgol Bryngwran

Arolygwyd yr ysgol 18 Ebrill, 2018, a chyhoeddir yr adroddiad ar 20 Mehefin 2018.

*The school was inspected 18 April, 2018, and the report will be published 20 June 2018.*

### Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae bron pob disgybl yn datblygu'n ddinasyddion moesol cydwybodol, er enghraifft wrth godi arian ar gyfer adeiladu ffynnon ddŵr yn Kenya yn sgil ymchwilio i fywyd yn Affrica. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd gwneud penderfyniadau iachus wrth gadw'n heini ac wrth ddewis byrbryd a chynnwys pecynnau cinio.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, weithgar a chynhwysol. Mae'r staff yn creu ymdeimlad gofalgar a chartrefol sy'n cael ei adlewyrchu yn ymddygiad parchus a chwrtais y disgyblion. Mae'r ysgol yn llwyddo i hybu amrywiaeth, gwrth-hiliaeth, tegwch a chyfle cyfartal yn llwyddiannus. Mae ymweliadau cyson gan y rheithor a chymdogion y gymuned er mwyn cynnal gwasanaethau a sesiynau am negeseuon y Beibl yn cyfrannu'n fuddiol tuag at ddatblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion.

**Wellbeing and attitudes to learning: Excellent**

Nearly all pupils develop as conscientious moral citizens, for example when raising money to build a water well in Kenya after researching life in Africa. Nearly all pupils understand the importance of making healthy choices when keeping fit and when choosing snacks and the content of packed lunches.

**Care, support and guidance: Good**

The school is a happy, active and inclusive community. Staff create a caring and homely feel that is reflected in the pupils' respectful and polite behaviour. The school succeeds in promoting diversity, anti-racism, fairness and equal opportunities successfully. Regular visits from the rector and members of the community to conduct services and sessions on messages from the Bible make a beneficial contribution towards pupils' moral and spiritual development.

**<u>Ysgol Gynradd Llanfair Pwll</u>**

Arolygwyd yr ysgol Mehefin, 2018, a chyhoeddir yr adroddiad ar 20 Awst 2018.

*The school was inspected June, 2018, and the report will be published 20 August 2018.*

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u rolau arwain o fewn yr ysgol. Mae aelodau'r cynghorau dosbarth, y cyngor ysgol, y cyngor eco a'r pwyllgor siarter iaith yn cyflawni eu rolau'n fedrus ac yn gwneud cyfraniad amlwg at fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn chwarae rhan flaenllaw yng ngweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol ac yn trafod, mireinio a gosod trefn ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu. O ganlyniad, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd eu cyfraniad at ddatblygiad yr ysgol ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfle i wneud hynny. Trwy ddatblygu perthynas reolaidd a gwerthfawr gydag aelodau'r gymuned leol, mae gan bron pob un disgybl ymwybyddiaeth dda iawn o anghenion pobl eraill. Mae hyn yn eu galluogi i sylweddoli nad yw pawb mor ffodus â nhw. Maent yn cyfrannu'n helaeth at ystod eang o ddigwyddiadau, cyngherddau a gweithgareddau cymdeithasol. Er enghraifft, maent yn ymweld â chartrefi'r henoed yn rheolaidd i gyfarfod a diddanu'r trigolion, ac yn canu carolau tra'n goleuo'r goeden Nadolig.

**Gofal cymorth ac arweiniad: Rhagorol**
Wrth weithredu sesiynau amser cylch a chyfnodau ymyrraeth lles ar gyfer grwpiau penodol, mae'r ysgol yn gweithredu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol werthfawr. Mae'r agwedd hon yn cael sylw cyson a thrylwyr ar draws y cwricwlwm. Mae ymweliadau i'r capel a chyfleoedd i ddisgyblion berfformio mewn cyngherddau yn yr ardal leol a thu hwnt yn hybu eu datblygiad cymdeithasol a diwylliannol yn effeithiol iawn. Mae'r gwasanaethau boreol, a'r sesiynau amser cylch, hefyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn dda iawn. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliannau gwahanol yn effeithiol iawn trwy ddefnyddio testunau penodol o wahanol wledydd, a thrwy e-gysylltiadau cyffrous. Enghraifft nodedig o hyn yw'r cysylltiadau sydd wedi eu datblygu gydag ysgol yng Nghanada. Mae'r ysgol hefyd yn ymateb yn ddychmygus i ddisgyblion sydd â chysylltiadau â gwahanol wledydd neu ddiwylliannau. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dathlu gwahaniaethau ac yn parchu amrywiaeth yn aeddfed iawn.

**Wellbeing and attitudes to learning: Excellent**
Most pupils have a sound understanding of their leadership roles within the school. Members of the class councils, school council, eco council and Welsh language charter committee fulfil their roles skilfully and make a prominent contribution to school life. For example, the school council plays a prominent part in the school's self-evaluation procedures and discusses, refines and orders the priorities in the development plan. As a result, pupils have a sound awareness of the importance of their contribution to the school's development and they appreciate the opportunity to do so. By forging regular and valuable relationships with members of the local community, nearly all pupils have a very good awareness of other people's needs. This enables them to realise that not everyone is as fortunate as they are. They contribute extensively to a wide range of events, concerts and social activities. For example, they visit homes for the elderly regularly to meet and entertain residents, and sing carols while lighting the Christmas tree.

**Care, support and guidance: Excellent**

By implementing circle time sessions and wellbeing interventions for specific groups, the school operates a valuable personal and social education programme. This aspect is given regular and thorough attention across the curriculum. Visits to the chapel and opportunities for pupils to perform in concerts in the local area and beyond promote their social and cultural development very effectively. Morning assemblies and circle time sessions also promote pupils' spiritual and moral development very well. The school promotes pupils' awareness of different cultures very effectively by using specific texts from different countries, and through exciting e-links. A notable example of this is the links that have been developed with a school in Canada. The school also responds imaginatively to pupils who have links with different countries or cultures. As a result, pupils celebrate differences and respect diversity very maturely.

**Sut y gall CYSAG fonitro safonau?**

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

Prif swyddogaeth CYSAG yw monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a chynghori'r awdurdod lleol ar faterion sy'n ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn credu y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Mae llawer o CYSAGau yn monitro safonau trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunanarfarniad Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd ag aelodau CYSAG.

**Gwybodaeth bellach:**

- Cymdeithas CYSAGau Cymru: www.wasacre.org.uk
- Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd: Cylchlythyr 10/94 (Swyddfa Gymreig)
- Felly rydych yn ymuno â'ch CYSAG lleol: llawlyfr ar gyfer aelodau CYSAGau yng Nghymru (Cym. CYSAGau C)
- Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, 2012);
- Adolygiad o Adroddiadau CYSAG (Llywodraeth Cymru, 2011 and 2013)

**Adran Addysg a Sgiliau Cymru (AdAS)**

Mae'r rhan fwyaf o CYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru' neu'i addasu fel eu maes llafur cytûn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi addysg grefyddol yng Nghymru trwy ddarparu canllawiau i gefnogi athrawon, penaethiaid ac aelodau CYSAG. Maent yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ddulliau addysgu, adnoddau ac asesu. Roedd proses gymedroli allanol genedlaethol 2010 -12 yn gyfle i adrannau AG mewn ysgolion uwchradd ddangos eu dealltwriaeth o lefelau cyrhaeddiad Addysg Grefyddol.

**Gwybodaeth bellach**

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

**ESTYN**

Mae arolygiadau ESTYN yn seiliedig ar bump maes arolygu:





1. Safonau
2. Lles ac agweddau ddysgu
3. Addysgu a phrofiadau dysgu
4. Gofal, cymorth ac arweiniad
5. Arweinyddiaeth a rheolaeth

Prin yw'r adroddiadau arolygiadau ysgol sy'n cynnwys sylwadau ar safonau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Cyhoeddwyd adolygiad thematig o Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd ym mis Mehefin 2013 ac mae'n cynnig argymhellion i awdurdodau lleol, ysgolion a CYSAGau.

**Gwybodaeth bellach:**

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Addysg grefyddol a moesol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Haf 2018)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (Hydref 2017)

**Pa dystiolaeth a ddefnyddir gan ysgolion wrth ddod i farn?**

| | |
|---|---|
| **Craffu ar lyfrau**<br> | Mae athrawon yn casglu sampl o waith disgyblion, (*e.e. amrediad o allu, oed, bechgyn a merched*) er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• I ba raddau y mae'r gwaith yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd, a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Arsylwadau gwersi**<br> | Mae athrawon ac arweinwyr ysgol yn arsylwi gwersi er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• A yw'r dysgwyr yn dangos cymhelliant uchel? A ydynt yn cyfrannu i'w dysgu?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Holiaduron a chyfweliadau**<br> | Gall ysgolion ddadansoddi canlyniadau holiaduron a ddefnyddiwyd i ganfod barn disgyblion, athrawon a rhieni i gwestiynau megis:<br>• Beth yw eu barn am 'gynnwys' y gwersi AG? A oes grwpiau arwyddocaol o ddisgyblion/rhieni sy'n cynnig barnau gwahanol?<br>• Pa gynnydd a wneir ganddynt yn eu sgiliau Addysg Grefyddol?<br>• Beth yw eu rhagdybiaethau/barnau/agweddau tuag at Addysg Grefyddol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Data**<br> | Gall ysgolion ddefnyddio data asesiadau athro neu ganlyniadau arholiadau allanol (uwchradd yn unig) er mwyn adnabod tueddiadau neu batrymau?<br>• Pa mor dda y mae bechgyn/merched/grwpiau o ddisgyblion yn perfformio dros gyfnod? (*pob ysgol*)<br>• Pa mor dda y mae disgyblion ein hysgol/adran ni yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion/adrannau eraill? (*ysgolion uwchradd yn unig*)<br>• A oes grwpiau o ddisgyblion sy'n tangyflawni? (*pob ysgol*)<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu mewn addysg grefyddol? |
| **Eraill**<br><br>Newyddion Addysg Grefyddol<br>Religious Education News | Gall barn ysgolion hefyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth arall megis:<br>• Llwyddiant mewn cystadlaethau AG lleol neu genedlaethol;<br>• Cyfrannu tuag at ddigwyddiadau/cynadleddau/prosiectau/cyhoeddiadau lleol neu genedlaethol;<br>• Adroddiadau monitro gan aelodau eraill o'r staff *e.e. cydlynwyr llythrennedd rhifedd neu TGCh;*<br>• Cofnodion cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr neu ymwelwyr CYSAG;<br>• Ymchwil gweithredu gan aelod o Gymuned Ddysgu Broffesiynol;<br>• Achrediad allanol, *e.e. Marc Ansawdd Addysg Grefyddol http://www.reqm.org/wales* |

## Canllawiau CYSAG (tudalennau 3, 4, 5 a 6)

**I ba raddau y mae ddarpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion? (Maes arolygu 4.2)**
Bydd arfarnu safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn gymorth i'r ysgol arfarnu maes arolygu 4.2 sef 'Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol).

Mae arweiniad arolygu ESTYN (Medi 2017) ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol yn nodi:

> "*Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd sy'n cael eu rhannu, fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd, ac yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill yn lleol, ac fel aelodau o fyd eang ac amrywiol.*"

O fewn amserlen cylch hunan arfarnu'r ysgol bydd angen ystyried pa dystiolaeth fydd yn helpu'r ysgol ddod i farn ar maes arolygu 4.2. Mae gan addysg grefyddol ac addoli ar y cyd gyfraniad pwysig i'r maes hwn.

Mae'r cwestiynau enghreifftiol canlynol yn seiliedig ar Fframwaith Arolygu Cyffredinol ESTYN (Medi 2017) a'r cwestiynau a defnyddiwyd gan ESTYN yn ystod arolygiad thematig ar addysg grefyddol yn ystod tymor yr Hydref 2017. Nid oes disgwyl i ysgol ateb pob cwestiwn, ond o drafod rhain gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion ac ymgynghorydd cefnogi gwelliant bydd ysgol yn gallu adnabod cryfderau a meysydd gwella fydd yn eu galluogi i gynllunio gwelliannau.

### Maes Arolygu 1: Safonau

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- Beth yw eich barn am safonau addysg grefyddol yn eich ysgol? *(Disgyblion CS, CA2, CA3, CA4, CA5)*
- Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol?
- I ba raddau mae grwpiau o ddisgyblion yn gwneud cynnydd mewn addysg grefyddol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd?
- I ba raddau mae disgyblion yn defnyddio'u medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a TGCh yn briodol mewn addysg grefyddol?
- Rhowch enghraifft o sut mae'r disgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl, eu creadigrwydd a'u medrau corfforol mewn gweithgareddau addysg grefyddol yn yr ystafell ddosbarth a thu allan?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- A yw'r disgyblion yn dangos diddordeb mewn addysg grefyddol?
- Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

Cofiwch gyfeirio at enghreifftiau o'r darpariaeth. Amser i'r pwnc? % sy'n dewis fel opsiwn Ast. Cref? % sy'n cael achrediad am AGref statudol.

- Sut ydych yn gwybod bod eich ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol?
- Sut mae addysg grefyddol yn cael ei haddysgu yn eich ysgol?
- A yw'r addysg grefyddol yn llwyddo i ennyn ddiddordeb y disgyblion?
- Pa mor dda y mae'r gwersi/gweithgareddau yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn ogystal a'u medrau pwnc a'u medrau trawsgwricwlaidd?

- Beth yw ansawdd y cynllunio ar gyfer addysg grefyddol? (adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol? amcanion clir? dulliau addysgu? adnoddau?)
- Pa mor dda y mae'r adborth mewn addysg grefyddol yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella?
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n asesu ac yn olrhain cynnydd disgyblion mewn addysg grefyddol?
- Sut mae'r cynllunio ar gyfer addysg grefyddol yn helpu'r disgyblion i fod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus? A ydych wedi dechrau ymateb i argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus'?
- I ba raddau y mae'r ysgol yn rhoi ystod eang a phriodol o brofiadau, tu fewn a thu allan i'r dosbarth, er mwyn datblygu diddordeb a medrau'r disgyblion mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn trefnu unrhyw deithiau neu ymweliadau sy'n gysylltiedig ag addysg grefyddol? Pa grwpiau blwyddyn, pa mor aml, a sut mae'r teithiau hyn yn cyfoethogi'r cwricwlwm?
- A yw'r addysg grefyddol yn adlewyrchu natur cyd-destun yr ysgol? A yw'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru ac ardal leol yr ysgol?
- I ba raddau mae'r gweithgareddau addysg grefyddol yn rhoi cyfleoedd cynyddol pwrpasol i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh i'r safon briodol?'
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?


**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad**

- I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol?
- Sut mae'r disgyblion yn dylanwadau ar yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau cymunedol neu a oes ganddi gysylltiadau ag unrhyw arweinwyr neu sefydliadau ffydd?
- Beth yw cyfraniad addysg grefyddol i ddealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach?
- Rhowch enghreifftiau o sut mae addysg grefyddol wedi helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ystrydebau neu eithafiaeth crefyddol, hawliau dynol?
- I ba raddau mae'r ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?
- Pa mor dda mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain?
- A yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd?
- Beth yw ansawdd yr addoli ar y cyd? Pa mor dda y mae'r ysgol yn ei gynllunio dros gyfnod?
- Sut mae'r ysgol yn cadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio, *e.e. deunydd eithafol naill ai drwy siaradwyr gwadd neu siaradwyr ar ymweliadau a safleoedd*?
- Sut ydych chi'n sicrhau y caiff pryderon ynghylch sylwadau a wneir gan ddisgyblion yn ystod gwersi addysg grefyddol eu hystyried yn briodol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol?
- A yw'r staff yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol mewn addysg grefyddol?
- Sut ydych yn dyrannu adnoddau i gynorthwyo i addysgu addysg grefyddol?
- Sut caiff rhieni eu hysbysu am eu hawl i dynnu disgyblion o wersi addysg grefyddol? Sawl disgybl sy'n cael eu tynno o wersi addysg grefyddol gan eu rhieni ac a oes gan yr ysgol drefniadau da i ddarparu ar eu cyfer yn ystod gwersi addysg grefyddol? A yw'r nifer hon wedi cynnydd/gostwng/aros yr un fath dros y 5 mlynedd diwethaf? O ba grwpiau y daw'r disgyblion hyn? A ydych yn cael sgwrs a rhieni ynghylch eu penderfyniad?
- Ym mha ffyrdd y mae darpariaeth eich ysgol ar gyfer addysg grefyddol yn helpu i hyrwyddo cydlyniad cymunedol gwell?
- Pa mor aml ydych chi'n monitro addysg grefyddol? Sut caiff y wybodaeth hon ei rhannu a staff perthnasol eraill?
- A ydych yn ystyried safbwyntiau disgyblion yn yr adroddiad hunan-arfarnu a'r cynlluniau gweithredu?
- A ydych yn cydweithio gydag athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol mewn ysgolion eraill? Beth yw effaith hyn?
- Beth yw'r 'enghraifft gorau o addysg grefyddol' y gallwch ei rannu gyda'ch CYSAG lleol neu gydag athrawon eraill?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Sut y gall CYSAGau fonitro safonau?**




## Sut y gall CYSAG gywain gwybodaeth?

- trwy ofyn i ysgolion gyflwyno gwybodaeth a hunanarfarniad;
- trwy gomisiynu 'arbenigwr' i ymweld â sampl o ysgolion a darparu adroddiad tymhorol;
- trwy drefnu bod yr aelodau yn ymweld ag ysgolion;
- trwy ofyn i ddisgyblion, staff a llywodraethwyr mewn sampl o ysgolion gwblhau holiadur ar-lein;
- trwy edrych ar ganlyniadau arholiadau allanol ac asesiadau athro CA3 (ysgolion uwchradd yn unig)

## Pa ffynonellau sydd ar gael yn eich hardal chi?

- Dadansoddiad o adroddiadau hunan arfarnu ysgolion;
- Dadansoddiad o bolisïau, cynlluniau gwaith, cynlluniau datblygu ysgolion;
- Data perfformiad ysgolion: asesiadau athrawon CA3, canlyniadau TGAU, Safon UG/A;
- Adroddiadau ymweliadau ysgol gan aelodau CYSAG;
- Dadansoddiad o holiaduron ysgol, arolygon ar-lein (disgyblion, staff, llywodraethwyr) wedi'u cyflwyno gan benaethiaid, cydlynwyr neu CYSAG/Cymdeithas CYSAGau Cymru;
- Cyflwyniadau gan gydlynwyr, athrawon, penaethiaid, disgyblion;
- Llwyddiant mewn cystadleuaethau, achrediadau allanol.

## Rhifau - meintiau a chyfrannau

| | | |
|---|---|---|
| bron bob un | = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf | = | 90% neu fwy |
| llawer | = | 70% neu fwy |
| mwyafrif | = | dros 60% |
| tua hanner | = | agos at 50% |
| lleiafrif | = | o dan 40% |
| ychydig | = | o dan 20% |
| ychydig iawn | = | llai na 10% |

## Pwy sy'n cyfrannu tuag at y monitro?

- athrawon ac aelodau o UDRh ysgolion
- aelodau CYSAG
- swyddogion Awdurdod Lleol/GwE
- athrawon a nodwyd fel athrawon neilltuol
- disgyblion
- llywodraethwyr
- rhieni

| | |
|---|---|
| **Rhagorol**<br>**Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig**<br>arbennig, da iawn, cryf iawn, eithriadol, yn rhagori ar, arbennig, ardderchog, gwych, safon uchel iawn, ansawdd uchel iawn, ymestynnol, creadigol iawn, ymhell uwchlaw'r disgwyliadau, effeithiol iawn, hyfedr, meistrolgar | **Da**<br>**Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau**<br>llwyddiannus, cryf, cadarn, medrus, buddiol, gwerthfawr, cadarnhaol, trwyadl, defnyddiol, nerthol, grymus, cynhwysfawr, defnydd da, cyson dda, effeithiol, pwrpasol |
| **Digonol ac angen gwelliant**<br>**Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella**<br>boddhaol, priodol, addas, effeithlon, cymwys, perthnasol, digonol, digon, dilys, cadarn, diogel, canolig, cyson, cymedrol, anghyson, | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys**<br>**Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau**<br>annigonol, aneffeithlon, dim, amhriodol, aneffeithiol, anaddas, methu, gwan, gwael, cyfyngedig. |

**Geiriau/ymadroddion defnyddiol**

Mae xxx wedi arwain at....
O ganlyniad i xxx mae safonau xxx wedi codi xx% er xx
Yn dilyn cyflwyno xxx mae xxx wedi gwella, fel y dangosir gan ...
Dengys xxx fod safonau xxx wedi...
Gwelir effaith xxx yn xxx sy'n dangos bod....
Gellir gweld gwelliant mewn xxx yn ....
Gellir gweld dylanwad xxx yn y gwelliant/cynnydd...
Dengys XXXXX bod x% o'r disgyblion yn gallu/bod gan x% o'r disgylion ...
Dengys xxx bod x% o'r rhieni/staff/llywodraethwyr yn....

## Beth ddylid ei gynnwys?

- **Effaith ymyrraeth** ar (safonau, lles, addysgu, agweddau, gwerthoedd)
- **Tueddiadau** dros gyfnod
- **Cymhariaeth** ag ysgolion eraill (?)
- **Barn** - defnyddio termau arfarnol
- **Meintioli** pa bryd bynnag y bo'n bosibl

**Enw'r Ysgol:**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

| **Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**<br>***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?*** |
|---|
| • Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.<br>• I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC. |
| Nodiadau: |
| **Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: BARN** |

| **Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**<br>***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?*** |
|---|
| • Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grwp ffocws/Cyngor Ysgol<br>• I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017), |
| Nodiadau: |
| **Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN** |

| **Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**<br>***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog*** |
|---|
| • Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion<br>• I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018) |
| Nodiadau: |
| **Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN** |

| **Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**<br>***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?*** |
|---|
| • Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw troseddau casineb/bwlio. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglyn â addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017) | | | | |
| Nodiadau: | | | | |
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | | **Nac ydy** | |
| **Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: BARN** | | | | |

| |
|---|
| **Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?** ***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |
| • Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro ac hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.<br>• I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG |
| Nodiadau: |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: BARN** |

| Agweddau i gael sylw | Camau gweithredu | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Cryno! Tua 50 o eiriau.

**Enw'r pennaeth**
**Llofnod y pennaeth**
**Dyddiad:**

This page is intentionally left blank

Workshop Meeting North Wales SACRE representatives re New Curriculum for Wales

Focus of meeting and presentations was on the place of Religious Education in new Curriculum

The workshop held at WAG building in Llandudno Junction from 1.30 until approximately 4.45pm.

Attendees for Ynys Mon: Cr Dylan Rees (SACRE Chair) Anest Gray Frazer and Chris Thomas

Agenda

- Presentation by Manon Jones, Head of Are of Learning and Experience, (AoLE) Welsh Government
- Video of interview with Prof. Donaldson about the place of RE in the New Curriculum
- Wider presentation regarding RE Manon Jones including proposals regarding locally Ageed Syllabus and the Humanities
- A presentation by Paula Webber (RE Consultant) about the specifics of the Humanities AoLE's and RE
- A presentation by Libby Jones RE Adviser Wrexham about proposals for a Supporting Framework for RE –What these may look like.

Between each presentation there were significant blocks of time for Reflection, questions and immediate reaction to what was heard and observations from workshop attendees

Four particular questions were open for consideration during the whole afternoon.

1. What are your views on the proposed relationship between the agreed syllabus and Humanities AoLE?
2. Would the supporting framework be a good way of supporting the Agreed Syllabus Conferences to fulfil their statutory role?
3. Is there anything we (Welsh Government) should consider when developing the supporting framework?
4. What are the implications of these proposals for you?

The film clip showed Prof Donaldson answering questions about the place of RE in New Curriculum. He emphasised that RE would play a significant role, how important an area of study it is, and that it was being involved 'within' the curriculum at the outset for the first time. This was deemed significant because the last time education was re-structured RE was considered as being 'outside' an addendum to the curriculum. The Agreed Syllabus came out a year later than the rest of the curriculum reinforcing the feeling that perhaps it was less important – the 'Cinderella' subject.

Manon Jones, Head of Are of Learning and Experience, (AoLE) Welsh Government

Talked about the background to curriculum reform, the Great Debate, Successful Futures and acceptance of the 68 recommendations in June 2015,

The evolution of the four purposes, AoLE and the 'What Matters' approach, the timeline for implementation in September 2022.

AoLE Design Model

The diagram is an attempt to explain the relationships between the various parts of the curriculum remembering that each part looks to the four purposes; the heart of all development.

**The four purposes are that all children and young people will be:**

- Ambitious, capable learners who are ready to learn throughout their lives.
- Enterprising, creative contributors who are ready to play a full part in life and work.
- Ethical, informed citizens who are ready to be citizens of Wales and the world.
- Healthy, confident individuals who are ready to lead fulfilling lives as valued members of society

The Six Areas of Learning Experience

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Expressive Arts | Health and Wellbeing | **Humanities** | Language, Literacy and Communication | Mathematics and Numeracy | Science and Technology |

**The Humanities Area** will seek to give pupils an understanding of historical, geographical, political, economic and societal factors, providing opportunities to engage in informed discussions about ethics, beliefs, religion and spirituality. It will draw on existing subjects, history, geography, business and social studies, as well as religious education, which Professor Donaldson recommends should remain a statutory curriculum requirement from Reception year onwards.

**The next stage considers 'What matters '.**

**The 'what matters' statements set out the most important knowledge and skills to be gained and aim to make what children and young people learn relevant to the world we live in today and help them adapt to a changing society and world**

1. Our natural world is diverse and dynamic, influenced by physical processes and human actions. Studying the humanities helps learners to identify, understand and analyse the dynamic nature of Wales and the world. Human responsibility for our natural world, can be influenced by diverse beliefs, practices, ethics and philosophies. Innovation, economic and technological developments have shaped and continue to shape our natural world. It is also important to understand how human actions can be influenced by, and affect, the natural environment. Physical processes have major impacts on places, environments, landscapes and the lives of people. Appreciating these complex patterns and connections between the past, present and future is important for the understanding of the cause and consequences of change.

2. Society has been shaped and influenced by human behaviour and beliefs in the past, societies have been formed and influenced by individuals, communities, political, economic factors, cultural values, religious beliefs and practices. Societies have experienced continuity and change that affected people's lives, in Wales and the wider world. The causes and consequences of human interactions in the past have shaped society and how it has developed in different times and places. Exploring past human interactions has intrinsic value.

3. Humanity faces many challenges and opportunities, that require informed and considered responses. Understanding current local, national and global challenges and opportunities is

essential to be an ethical and informed citizen. Learners should develop informed views about political, economic, technological, social, religious, cultural and environmental challenges and opportunities that people in Wales and the wider world face. Learners understand that beliefs, experiences and circumstances can influence the varied responses of themselves and others. By engaging with fundamental and philosophical questions about the challenges and opportunities that face humanity, learners will develop the knowledge and skills to form opinions, and understand values, beliefs and viewpoints.

4. People view the experiences of humanity through a range of lenses. Humanities provides learners with a variety of lenses through which they develop an understanding of the human experience. These lenses are drawn from a growing understanding of the disciplines that make up the Humanities, and the way in which they interconnect. They give learners an understanding of how others construct narratives to record and represent the human experience and how to understand, interpret, and represent the experience of humanity themselves. Learners appreciate how and why interpretations and representations are constructed in order to critically question and evaluate their validity.

5. The process of enquiry allows people to make sense of and engage with the world. Studying the humanities develops the skills of disciplinary enquiry. Learners pose questions and develop hypothesis across the humanities. By gathering, evaluating and analysing evidence from a range sources, learners can interpret layers of meaning and connect information to attain relevant knowledge to inform their understanding. Through thinking critically and reflectively about the evidence they've analysed, they learn to make coherent, substantiated judgements. Learners critically evaluate the effectiveness of the enquiry process and how well it has helped them to make sense of and engage with the world.

6. Citizens should be ethical, informed and engaged in life and work. The Humanities encourages learners to think critically about ethical, economic, entrepreneurial or social engagement in their communities. Learners will understand their rights and responsibilities as ethical citizens, and the importance of ensuring that they respect the rights of others. Learners understand individuals' legal and moral responsibilities and the consequences of failing to act accordingly. Learners will develop an understanding of identity and are conscious of their own role in society and of the religious, moral and ethical influences on people’s lives.

**Next come the Areas of Learning Experience (AoLE)** **Humanities**

Through exploring ‘what matters’ about the humanities, learners will study the past and present, imagine possible futures and learn about people, place, time and beliefs in order to become ambitious, capable learners. They will build, communicate and apply effectively a solid base of knowledge and understanding of historical, geographical, political, economic, religious and societal concepts.

Learners will develop a range of skills and dispositions to become enterprising, creative contributors and responsible citizens, improving the lives of people in their local community, Wales and the wider world. They will contribute positively to these and engage critically with local, national and global issues.

Through understanding and respecting different beliefs and understanding how to exercise their democratic rights and responsibilities, learners will become ethical, informed citizens. They will

consider, explore and make informed choices about sustainability and the impact of their actions. They will learn about rights, values, ethics, beliefs and philosophy.

By developing their personal stances on matters of faith, spirituality, sustainability and social inclusion, they will become healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society. Exploring their environment will help them to develop their well-being and their sense of place.

**If we now refer to the AoLE Design Model (**separate sheet**)**

We can see at the top that AoLE's support the Four Purposes

The What Matters statements come next. So far each of the statements above are agreed although may change slightly as they are 'tweaked' the rest of this diagram deals with what will come next.

Knowledge Skills and Experiences are currently being formulated together with progression steps and Achievement Outcomes

**Achievement Outcomes**

Four principles will underpin the new approach:

- It will be based on a nationally described continuum of learning for learners aged 3 to 16.
- Learning should be an expedition, not a straight line. Progression is a 'road map' for each individual, and each may progress at a different rate or take a different path to get to the next stage in their learning journey.
- Progression Steps will be at 5, 8, 11, 14 and 16 and take the form of Achievement Outcomes relating broadly to expectations at those ages. These will help learners, teachers, parents and carers to understand if appropriate progress is being made.
- Achievement outcomes will be in the form of 'I can' and 'I have' statements. Literacy, numeracy, digital competence, wider skills and elements of the Cwricwlwm Cymreig will be included

<table>
<tr><td colspan="5">Progression Steps<br>Progression Steps and achievement outcomes<br>Progression steps (CAMAU) will be described at five points 5, 8, 11,14 and 16<br>Steps will take form of a range of achievement outcomes and by signalling an emphasis on achievement, in a broad sense, these outcomes broaden the scope of what we value in children and young people's learning.<br>Outcomes will be described from learner's point of view; terms like 'I have for experiences…' 'I can for …..' for outcomes will be used.<br>Achievement outcomes will include Knowledge, Skills and Experiences together Cross Curricular Responsibilities, wider skills, the Welsh dimension and international perspective when appropriate<br>The Achievement Outcomes will contribute to achieving the 'What Matters and Four Purposes and are to be used as 'reference points' for individuals and not as universal expectations of all children at these fixed points</td></tr>
<tr><td>5 years</td><td>8 years</td><td>11 years</td><td>14 years</td><td>16 years</td></tr>
<tr><td colspan="5">Knowledge, Skills and Experiences<br>The KSE's identify the key ideas and 'enablers' to achieving each What Matters<br>They give an indication of 'content' that is essential to be covered at some point on the continuum to reach each What Matters and are an outline of progression articulating the general nature of change across the continuum of learning.</td></tr>
</table>

When considering RE policy making the WG is mindful of:

- The description of an agreed syllabus
- Sixth form RE
- School nursery classes
- Withdrawal from RE

Because there also legal requirements and issues currently with WG legal department.

**Things to consider**

Is RE identifiable in this Humanities Area – each person can judge for themselves the obvious and discrete areas but it is important to remember that it is envisaged that:

Schools will have opportunity and freedom to plan the **content** of own curriculum**.**

Be able to identify the opportunities for rich learning in RE within the existing framework

RE remains locally determined (subsidiarity supports this).

The supporting framework and hopefully case studies will be available to support schools in their planning.

Are there opportunities you can see?

This supporting Framework is still in planning stage but writing group hope it will include

- Introduction
- RE Learner entitlement
- What is Good RE?
- Progression
- The place of RE In the Humanities
- The right to withdraw

Together with background on Successful Futures, What Matters approach, cross-curricular elements, the Welsh dimension etc.

If colleagues have comments or observations send them to pauline.smith@gov.wales.

Other comments:

It was made plain to the WG representatives the need for each SACRE to have a professional adviser available to support its work, even more so at this important time. The decision by GWe to withdraw the services of Bethan James from her supporting role for Ynys Mon and Gwynedd SACRES needs to be challenged otherwise the SACRE will be 'blind' at the very time it needs to be clear sighted. Future decisions and ability of SACRE's to play their part in the evolution of the New Curriculum is at stake because children, teachers, parents and Governors of Ynys Mon will be the biggest losers. The RE community needs to voice its concerns as a matter of urgency. Decisions will be made; a White paper comes out in January with a three month window of opportunity for comment. These are

important times; complex and far reaching decisions are to be made and in due course implemented and we need the appropriate advice and clear, unbiased interpretation of what is proposed.

Another area of concern was much would depend on the expertise of teachers as to how these plans unfold in the classroom. Are there/ will there be enough good RE teachers available to ensure that the right choices are made and the children are well taught?

**Questions to be considered:**

What are your views on the proposed relationship between the agreed syllabus and Humanities AoLE?

Would a supporting framework be a good way of supporting the Agreed Syllabus Conferences to fulfil their statutory role?

Is there anything WG should consider when developing framework?

What are the implications of these proposals for you?

Should RE be compulsory at sixth form?
Should nursery children be included in the provisions being outlined?
Do we agree with definitions, statements and views stated?

# Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau

**Haf 2018**

DRAFT

## Sut mae'r MDPh yn cefnogi'r Pedwar Diben

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn astudio profiad pobl yn y gorffennol a'r presennol yng Nghymru, yn y Deyrnas Unedig ac yn y byd ehangach. Mae'n cynnwys ffactorau a chysyniadau hanesyddol, daearyddol, crefyddol ac anghrefyddol, gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol.

Drwy ystyried y datganiadau 'Yr Hyn sy'n Bwysig' am y Dyniaethau, bydd dysgwyr yn astudio pobl, lle, amser a chredoau crefyddol ac anghrefyddol/safbwyntiau byd-eang. Byddant yn dysgu am Gymru, Prydain a'r byd ehangach, yn y gorffennol a'r presennol, er mwyn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gysyniadau hanesyddol, daearyddol, gwleidyddol, economaidd, crefyddol, anghrefyddol a chymdeithasol. Byddant yn dilyn prosesau ymholi, yn dysgu sut i werthuso'r dystiolaeth a ganfyddir ganddynt mewn ffordd feirniadol a sut i gymhwyso a chyfleu eu gwybodaeth yn effeithiol, a bydd hyn yn ei dro yn cyfrannu at feithrin eu gallu a'u huchelgais.

Bydd dysgwyr yn datblygu amrywiaeth o sgiliau a rhinweddau er mwyn dod yn gyfranwyr mentrus, creadigol a dinasyddion cyfrifol Byddant yn ymgysylltu'n feirniadol â materion lleol, cenedlaethol a byd-eang ac yn defnyddio eu gwybodaeth er mwyn creu cysylltiadau rhwng heriau a chyfleoedd yn y gorffennol a'r presennol. Byddant yn dychmygu dyfodol posibl a thrwy hyn yn cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at fywydau pobl yn eu cymuned leol, yng Nghymru, yn y Deyrnas Unedig ac yn y byd ehangach. .

Bydd dysgwyr yn deall eu hawliau, gwerthoedd, moeseg, credoau crefyddol ac anghrefyddol / safbwyntiau byd-eang ac athroniaeth eu hunain ac eraill. Drwy ddeall, parchu a herio gwahanol gredoau crefyddol ac anghrefyddol/safbwyntiau byd-eang a sut i arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau democrataidd, bydd dysgwyr yn dod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus o Gymru a'r byd ehangach. Byddant yn ystyried, yn archwilio ac yn gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch cynaliadwyedd ac effaith eu gweithredoedd eu hunain ac eraill yng Nghymru, yn y Deyrnas Unedig ac yn y byd ehangach.

Drwy ddatblygu eu safbwyntiau personol ar faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth barn grefyddol ac anghrefyddol byd-eang, heriau egwyddorol a chynhwysiant cymdeithasol, byddant yn dod yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd boddhaus fel aelodau gwerthfawr yn y gymdeithas yng Nghymru a'r byd ehangach. Bydd archwilio'r byd naturiol, yn lleol, ledled Cymru ac yn y byd ehangach, yn eu helpu i ddatblygu eu llesiant ac ymdeimlad o le.



## Datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig

**Mae'r broses ymholi yn galluogi pobl i wneud synnwyr o'r byd ac ymgysylltu ag ef.**

**Mae pobl yn canfod, yn dehongli ac yn darlunio  digwyddiadau a phrofiadau mewn ffyrdd gwahanol.**

**Mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddynamig, ac mae prosesau ffisegol a gweithredoedd dynol yn dylanwadu arno.**

**Mae ymddygiad a chredoau dynol wedi dylanwadu ar gymdeithas ac wedi'i llywio**

**Mae dynoliaeth yn wynebu llawer o heriau a chyfleoedd sy'n gofyn am ymatebion gwybodus ac ystyriol.**

**Dylai dinasyddion fod yn egwyddorol ac yn wybodus, a dylent allu ymgysylltu â bywyd a gwaith.**

DRAFT

| |
|---|
| |

## Yr Hyn sy'n Bwysig 1 - Mae'r broses ymholi'n galluogi pobl i wneud synnwyr o'r byd ac ymgysylltu ag ef.

**Mae'r broses ymholi yn galluogi pobl i wneud synnwyr o'r byd ac ymgysylltu ag ef.**

Mae datblygu sgiliau ymholi o fewn disgyblaethau'r Dyniaethau yn galluogi disgyblion i wneud synnwyr o syniadau, gwybodaeth ac yn y pen draw, y byd o'u hamgylch. Mae hyn yn grymuso dysgwyr i fod yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain ac yn rhoi'r adnoddau iddynt barhau i fynd ar drywydd gwybodaeth drwy gydol eu bywydau. Mae dysgwyr yn gofyn cwestiynau, yn datblygu syniadau ac yn rhagdybio canlyniadau ym mhob rhan o'r  Dyniaethau. Drwy gasglu, dadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o dystiolaeth, gall dysgwyr ddehongli a chysylltu a chysylltu ffeithiau, canfyddiadau a ffynonellau  er mwyn cael gafael ar y wybodaeth berthnasol i lywio eu dealltwriaeth. Drwy feddwl yn feirniadol ac yn fyfyriol am y dystiolaeth, maent yn dysgu llunio casgliadau a barn gydlynus sy'n seiliedig ar reswm a thystiolaeth. Mae dysgwyr yn gwerthuso'n feirniadol effeithiolrwydd y broses ymholi ac i ba raddau y mae wedi'u helpu i wneud synnwyr o'r byd ac ymgysylltu ag ef.



| **Gwybodaeth** - mae angen i ddysgwyr wybod am: | **Camau cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| | | |

| **Sgiliau** - mae angen i ddysgwyr allu gwneud y canlynol: | **Camau cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Gofyn cwestiynau er mwyn saernïo ymholiadau. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ddatblyguyn fanylach ac â mwy o yn ystod pob cam cynnydd. | Yn hanfodol o ran dealltwriaeth dysgwyr gan ei bod yn bwysig bod yn chwilfrydig. |
| Pennu nodau ac amcanion ar gyfer ymholiadau. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 2 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd dilynol. | Mae'n bwysig i ddysgwr bennu nodau ac amcanion er mwyn deall y dull a gwybod pan fydd tasg wedi'i chwblhau. Hyrwyddo dysgu annibynnol. (Cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd, yn rhyng-gysylltiedig â MDPh eraill) |
| Casglu dulliau ymchwilio cynradd ac eilaidd, gweithio gyda'r dulliau | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy | Cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd ac mae'n bwysig i ddysgwyr nodi ffynonellau dibynadwy. |

DRAFT

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| hynny a'u gwerthuso. | cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | |
| Dehongli canfyddiadau, dod i gasgliadau a/neu lunio gwahanol farn a'u cyflwyno gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae'n bwysig gan ei fod yn dangos dealltwriaeth o'r dystiolaeth a gasglwyd ganddynt. |
| Trafod a chyfiawnhau safbwyntiau a barnau. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 2 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd dilynol. | Cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd i gyfathrebu'n effeithiol. Bod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog. (4P) |
| Dethol yn annibynnol ddulliau ymholi sy'n benodol briodol ar gyfer y ddisgyblaeth Dyniaethau | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 5 ar lefel briodol o ran manylder a chymhlethdod. | Gall y broses ymholi amrywio o ddisgyblaeth i ddisgyblaeth, a bydd dewis a dethol y broses fwyaf addas yn caniatáu i'r dysgwr ddod yn ddysgwr annibynnol. |
| Myfyrio ar y broses ymholi | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 2 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd dilynol. | Magu annibyniaeth. Mae hyn yn bwysig er mwyn cynnig cyfle i blant fyfyrio a gwella a thrwy hynny ddod yn ddysgwyr mwy gweithredol ac effro. |
| Gofyn cwestiynau pellach er mwyn datblygu'r ymholiad | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 4 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod cam 5. | Annibyniaeth i ofyn rhagor o gwestiynau – yn meithrin chwilfrydedd. Datrys problemau a helpu i'w datrys mewn ffordd weithredol. |

| **Profiad -** Mae angen i ddysgwyr brofi'r canlynol: | **Camau Cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Profiad: Ystyried gwahanol fathau o ffynonellau a thystiolaeth | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Gall tystiolaeth fod ar amrywiaeth o ffurfiau, dylai dysgwyr brofi amrywiaeth eang o ffynonellau er mwyn llunio barn gyfannol. |
| Meithrin y sgiliau angenrheidiol ar gyfer pob rhan o broses ymholi yn ogystal â'r broses ymholi yn ei chyfanrwydd. | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Dylai dysgwyr ddeall perthnasedd pob rhan o'r broses ymholi, a sut mae pob rhan yn gysylltiedig â'r broses yn ei chyfanrwydd. |

| Deilliannau Cyflawniad ar gyfer y Datganiad Yr Hyn sy'n Bwysig | |
|---|---|
| | **Yr Hyn sy'n Bwysig 1** |
| **Cam Cynnydd 1** | Gallaf ofyn cwestiynau ac awgrymu rhai atebion fel rhan o'm hymholiad. Gallaf ddidoli a threfnu tystiolaeth o fewn fy ymholiad. Gallaf gofnodi arsylwadau fel rhan o'm hymholiad. |
| **Cam Cynnydd 2** | Rwy'n gofyn cwestiynau ac yn ymateb iddynt fel rhan o'm hymholiad. Rwy'n ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng ffaith a barn. Gallaf ddewis gwybodaeth o blith tystiolaeth a ddarperir er mwyn cael syniadau i'm galluogi i ateb cwestiynau penodol. Gallaf ddehongli data a chyfleu fy nghanfyddiadau. Gallaf nodi beth lwyddodd a beth aeth o'i le yn ystod fy ymholiad. |
| **Cam Cynnydd 3** | Rwy'n defnyddio fy ngwybodaeth a'm profiadau i ffurfio cwestiynau ar gyfer fy ymholiad. Rwy'n gwahaniaethu rhwng ffeithiau, barn, credoau, safbwyntiau ac yn rhoi rhesymau amdanynt. Rwy'n dod o hyd i dystiolaeth ac yn casglu tystiolaeth i ategu fy ymholiad. Gallaf ddehongli data a'u defnyddio i lywio fy nghasgliadau, gan roi rhesymau. Rwy'n barnu defnyddioldeb y dystiolaeth. |
| **Cam Cynnydd 4** | Rwy'n creu cysylltiadau rhwng fy ngwybodaeth a'm profiadau er mwyn ffurfio llinell ymholi, yn annibynnol. Rwy'n nodi ac yn dethol amrywiaeth o dystiolaeth berthnasol yn annibynnol a gallaf nodi ystyr er mwyn dod i gasgliadau rhesymegol. Rwy'n deall pwysigrwydd ffynonellau awdurdodol ac yn dechrau asesu eu heffaith. Rwy'n gwerthuso defnyddioldeb ac yn dadansoddi dibynadwyedd tystiolaeth. Wrth fyfyrio ar fy ymholiad, gallaf werthuso ei lwyddiant ac awgrymu gwelliannau. |
| **Cam Cynnydd 5** | Gallaf ddamcaniaethu canlyniadau am gyd-destun yr astudiaeth. Rwy'n casglu amrywiaeth o dystiolaeth berthnasol, gan gynnwys data meintiol ac ansoddol. Rwy'n dehongli tystiolaeth ac yn nodi ystyr, ac yn dod i gasgliadau, gan gyfosod a chyfuno amrywiaeth o dystiolaeth. Rwy'n gwerthuso defnyddioldeb y dystiolaeth ac yn dadansoddi ei dibynadwyedd yn seiliedig ar gynnwys, tarddiad, diben a chyd-destun. Rwy'n nodi gwendidau sy'n codi o gyflwyno data mewn modd ystadegol dewisol. Rwy'n deall effaith ffynonellau awdurdodol ac yn dadansoddi sut y cânt eu dehongli a'u defnyddio. Rwy'n barnu ac yn cyflwyno ymatebion sy'n ystyried safbwyntiau amrywiol, sy'n gydlynus, yn gytbwys ac sydd wedi'u cefnogi â thystiolaeth. Wrth fyfyrio ar fy ymholiad, gallaf werthuso ei lwyddiant yn annibynnol, awgrymu gwelliannau a mireinio fy methodoleg ar gyfer ymholiadau yn y dyfodol. |

DRAFT

DRAFT

## Yr Hyn sy'n Bwysig 2 - Mae pobl yn canfod, yn dehongli ac yn darlunio digwyddiadau a phrofiadau mewn ffyrdd gwahanol.

**Mae pobl yn canfod, yn dehongli ac yn cynrychioli digwyddiadau a phrofiadau mewn ffyrdd gwahanol.**

Mae'r Dyniaethau yn rhoi cyfle i ddysgwyr ystyried y gwahanol ffyrdd y mae pobl yn ystyried ac yn cynrychioli digwyddiadau a phrofiadau. Bydd dysgwyr yn meithrin eu dealltwriaeth o'r ffordd y caiff naratifau a chynrychioliadau eu llunio, sut a pham y mae dehongliadau o ddigwyddiadau a phrofiadau yn wahanol a sut mae pobl, amser, lle a chredoau yn dylanwadu ar ganfyddiadau. Mae dysgwyr yn gofyn cwestiynau beirniadol ac yn gwerthuso dilysrwydd dehongliadau a chynrychioliadau er mwyn creu eu dealltwriaeth wybodus a chytbwys eu hunain o ddigwyddiadau a phrofiadau.



| **Gwybodaeth** - mae angen i ddysgwyr wybod am: | **Camau cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Canfyddiadau, dehongliadau a chynrychioliadau o bobl a digwyddiadau pwysig, o'r gorffennol a'r presennol, o Gymru a'r byd ehangach. Mae dehongliadau yn aml yn newid dros amser. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae angen i ddisgyblion allu cydnabod y caiff pobl a digwyddiadau eu deall eu dehongli a'u cynrychioli'n wahanol. Dylent wybod pam bod dehongliadau yn wahanol, y gall dehongliadau newid a sut i gynnal gwerthusiad beirniadol ohonynt. Mae angen iddynt gydnabod sut a pham y mae canfyddiadau, dehongliadau a chynrychioliadau yn newid er mwyn gwneud synnwyr o ddisgrifiadau croes a chystadleuol. Mae addysgu disgyblion am wahanol ganfyddiadau, dehongliadau a chynrychioliadau yn eu hysbysu am y bobl a'u creodd a'r cymdeithasau roeddent yn rhan ohonynt, gan eu helpu i ddod yn ddinasyddion egwyddorol. Mae digwyddiadau yn cynnwys digwyddiadau hanesyddol, cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd. |
| Canfyddiadau, dehongliadau a chynrychioliadau o gredoau crefyddol ac anghrefyddol / safbwyntiau ac arferion byd-eang, gan gynnwys ideolegau a safbwyntiau gwleidyddol ac economaidd. Mae dehongliadau yn aml yn newid dros amser. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Fel uchod. |

DRAFT

| **Sgiliau** - mae angen i ddysgwyr allu gwneud y canlynol: | **Camau Cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Sgil: Gwahaniaethu rhwng ffaith, barn, cred a safbwyntiau byd-eang. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 2 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth, pob cam cynnydd dilynol. | Mae hyn yn hanfodol er mwyn prosesu mewn ffordd feirniadol yr amrywiaeth o ddata a gwybodaeth sydd ar gael i ddysgwyr. Mae'n bwysig bod disgyblion yn gallu pwyso a mesur ffeithiau a safbwyntiau yn ofalus er mwyn dod i gasgliad gwybodus. |
| Sgil: Gwerthuso hygrededd a dilysrwydd safbwyntiau, dehongliadau a phersbectifau. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 4 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth, camau cynnydd 5. | Mae'r sgil hwn yn hanfodol er mwyn deall credoau a safbwyntiau byd-eang amrywiol er mwyn i'r dysgwyr allu llunio eu credoau a'u safbwyntiau eu hunain |
| Sgil: Llunio a mynegi casgliadau gwybodus, cytbwys wedi'u cyfiawnhau. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 5 ar lefel briodol o ran manylder a chymhlethdod. | Mae hyn yn hanfodol er mwyn dangos dealltwriaeth gyffredinol o wybodaeth ac er mwyn i'r dysgwyr ddatblygu eu safbwyntiau eu hunain |

| **Profiad -** Mae angen i ddysgwyr brofi'r canlynol: | **Camau Cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Profiad: Ystyried gwahanol gynrychioliadau a dehongliadau o'r gorffennol. | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae'n bwysig i ddysgwyr brofi gwahanol gynrychioliadau a dehongliadau, er mwyn gwneud synnwyr o ddisgrifiadau croes a chystadleuol ac er mwyn deall cyd-destunau'r bobl a'u creodd a'r cymdeithasau roeddent yn rhan ohonynt. Bydd hyn yn eu helpu i ddod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus. |

DRAFT

| Deilliannau Cyflawniad ar gyfer y Datganiad Yr Hyn sy'n Bwysig | |
|---|---|
| | **Yr Hyn sy'n Bwysig 2** |
| **Cam Cynnydd 1** | Rwy'n ymwybodol bod gan bobl safbwyntiau gwahanol am brofiadau cyfarwydd. |
| **Cam Cynnydd 2** | Rwy'n ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng ffaith a barn. Gallaf nodi y caiff digwyddiadau a phrofiadau eu hystyried a'u cynrychioli mewn ffyrdd gwahanol. |
| **Cam Cynnydd 3** | Gallaf wahaniaethu rhwng ffaith, barn, cred a safbwyntiau byd-eang a rhoi rhesymau am y gwahaniaethau. Gallaf ddisgrifio'r gwahanol safbwyntiau a chynrychioliadau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau a phrofiadau. |
| **Cam Cynnydd 4** | Gallaf ystyried a rhoi rhywfaint o esboniad am y rhesymau dros wahanol safbwyntiau a phersbectifau o ddigwyddiadau a phrofiadau. Rwy'n deall ac yn dadansoddi sut a pham y cafodd digwyddiadau a phrofiadau eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd, ac rwy'n deall ei bod yn bosibl dod i gasgliadau gwahanol. |
| **Cam Cynnydd 5** | Gallaf edrych drwy wahanol lensys disgyblaethol wrth ystyried amrywiaeth o safbwyntiau a phersbectifau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau a phrofiadau. Rwy'n ystyried y newidiadau yn y safbwyntiau a'r persbectifau hyn, gan ddibynnu ar amser, lleoedd a chredoau. Gallaf werthuso a chyfosod gwahanol ddehongliadau er mwyn dod i gasgliad gwybodus am ddigwyddiadau a phrofiadau. Gallaf werthuso hygrededd a dilysrwydd safbwyntiau, dehongliadau a phersbectifau. |



DRAFT

## Yr Hyn sy’n Bwysig 3 - Mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddynamig, ac mae prosesau ffisegol a gweithredoedd dynol yn dylanwadu arno.

**Mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddynamig, ac mae prosesau ffisegol a gweithredoedd dynol yn dylanwadu arno.**

Mae astudio'r Dyniaethau yn helpu dysgwyr i nodi, deall a dadansoddi'r rhyngweithio amrywiol a dynamig rhwng pobl a lle. Mae prosesau ffisegol yng Nghymru, a'r byd ehangach, yn cael effaith fawr ar leoedd, amgylcheddau, tirweddau a bywydau pobl. Mae gweithredoedd dynol yn cael effaith fawr ar y byd naturiol. Mae gwerthfawrogi'r patrymau cymhleth hyn a chysylltiadau rhwng y gorffennol, y presennol a'r dyfodol yn bwysig er mwyn deall achosion a chanlyniadau newid. Mae arloesedd a datblygiadau economaidd a thechnolegol wedi llywio amgylchedd Cymru a'r byd naturiol ehangach, ac maent yn parhau i wneud hynny. Mae profi'r byd naturiol yn cyfrannu at ddealltwriaeth dysgwyr ac yn helpu i ddatblygu ysbrydolrwydd, llesiant ac ymdeimlad o le. Gall credoau, arferion, moeseg ac athroniaethau amrywiol ddylanwadu ar gyfrifoldeb dynol dros yr amgylchedd a'r camau gweithredu y mae pobl yn eu cymryd.

| **Gwybodaeth** - mae angen i ddysgwyr wybod am: | **Camau cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Daearyddiaeth ffisegol lleoedd ac amgylcheddau yng Nghymru a'r byd ehangach | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae hyn yn galluogi dysgwyr i ddeall eu hamgylcheddau lleol ac ehangach ac mae'n hanfodol er mwyn datblygu pwy ydynt ac o ble y maent yn dod. Hefyd, deall sut y caiff lleoedd eu llywio a'u datblygu dros amser. |
| Y prosesau ffisegol sydd wedi llywio'r byd naturiol, ac sy'n parhau i wneud hynny. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae'n galluogi disgyblion i ddeall sut mae'r byd yn gweithio er mwyn creu dinasyddion gwybodus. |
| Effaith newidiadau ffisegol ar y byd naturiol. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 2 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth, pob cam cynnydd dilynol. | Mae'n bwysig bod dysgwyr yn deall yr effeithiau a gaiff newidiadau ffisegol ar y byd naturiol er mwyn ymateb yn briodol. |
| Effaith gweithredoedd dynol (cymdeithasol, economaidd, busnes a thechnolegol) ar y byd naturiol. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth, pob cam cynnydd. | Mae'n bwysig bod dysgwyr yn deall yr effeithiau a gaiff gweithredoedd dynol ar y byd naturiol er mwyn ymateb yn briodol nawr ac yn y dyfodol. |
| Effaith prosesau ffisegol ar fywydau pobl. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy | Mae'n bwysig bod dysgwyr yn deall yr effeithiau a gaiff newidiadau ffisegol ar y byd naturiol er mwyn ymateb yn briodol. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | cymhleth, pob cam cynnydd. | |
| Patrymau, tueddiadau a dosbarthiadau lleoedd a gofodau yng Nghymru a'r byd ehangach | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 2 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth, pob cam cynnydd dilynol. | Cysyniadau hanfodol sy'n galluogi dysgwyr i ddeall pwysigrwydd lleoliad a thueddiadau er mwyn iddynt allu cysylltu eu dealltwriaeth â'r hyn sy'n digwydd mewn lleoedd eraill yn y byd a rhagfynegi tueddiadau yn y dyfodol. |
| Y credoau crefyddol ac anghrefyddol am darddiadau'r byd naturiol. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Dylai dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth o wahanol safbwyntiau o ran creu'r byd er mwyn datblygu eu credoau eu hunain. |
| Safbwyntiau a chredoau o ran cyfrifoldeb byd-eang am y byd naturiol. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae'n bwysig i ddysgwyr feddu ar ddealltwriaeth o wahanol safbwyntiau o ran cyfrifoldebau byd-eang er mwyn dod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus. |
| Deall achos, effaith, parhad, newid a phwysigrwydd a sut y gellir eu cysylltu. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Cysyniadau hanfodol sy'n galluogi dysgwyr i ddeall sut a pham y mae pethau'n newid. |

| **Sgiliau** - mae angen i ddysgwyr allu gwneud y canlynol: | **Camau cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Deall, dangos a chymhwyso sgiliau map yng nghyd-destun mapiau traddodiadol a digidol. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae'n bwysig gan fod angen i ddysgwyr wybod ble mae eu hardal leol, ble mae lleoedd eraill ynghyd â'r cysylltiad rhwng gwahanol leoedd. |

| **Profiad -** Mae angen i ddysgwyr brofi'r canlynol: | **Camau cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Profiad: Dysgu yn yr awyr agored. | I'w brofi yn ystod pob cam cynnydd ond yn hanfodol ar gyfer cam cynnydd 1 a 2. | Mae dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn helpu dysgwyr i ddatblygu ffyrdd iach a gweithgar o fyw, gan roi cyswllt iddynt â'r byd naturiol, cyfleoedd i ddeall a pharchu natur, cefnogi sgiliau datrys problemau a meithrin ymdeimlad o ryfeddod a syndod mewn perthynas â'u hamgylchedd. |
| Profiad: Gwaith maes sy'n meithrin dealltwriaeth o brosesau | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod | Mae gwaith maes yn elfen allweddol o'r datganiad hwn a datganiad 5. Mae ei brofi'n uniongyrchol yn cynnig cyfleoedd i wella dealltwriaeth. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| daearyddol. | pob cam cynnydd. | |
| Profiad: Defnyddio a dehongli ffotograffau o'r awyr, mapiau'r byd, atlasau, globau a mapiau digidol/cyfrifiadurol a chreu mapiau ar wahanol raddfeydd. | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae'n bwysig gan fod angen i ddysgwyr wybod ble mae eu hardal leol, ble mae lleoedd eraill a'r cysylltiad rhwng gwahanol leoedd. Mae'n bwysig i ddisgyblion ddeall sgiliau gofodol. |
| Profiad: Profi rhyfeddod a syndod, er mwyn gwneud synnwyr o'r byd naturiol. | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Yn hanfodol ar gyfer datblygiad ysbrydol dysgwr. |
| Profiad: Dangos gofal, cyfrifoldeb, pryder a pharch at yr amgylchedd. | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth, pob cam cynnydd. | Gallu profi sut i ofalu am yr amgylchedd mewn ffordd ymarferol a gweld effaith hynny ar y dyfodol. |

DRAFT

| **Deilliannau Cyflawniad ar gyfer y Datganiad Yr Hyn sy'n Bwysig** | |
|---|---|
| | **Yr Hyn sy’n Bwysig 3** |
| **Cam Cynnydd 1** | Gallaf nodi nodweddion amrywiaeth o leoedd. Rwy'n ymwybodol o'r newidiadau sydd wedi digwydd ac sy'n parhau i ddigwydd, yn fy ardal leol. Gallaf gyfleu fy nheimladau a'm syniadau am wahanol leoedd. |
| **Cam Cynnydd 2** | Rwy'n ymwybodol ymhle mae'r lleoedd rwy'n dysgu amdanynt. Gallaf ddisgrifio nodweddion y lleoedd rwy'n dysgu amdanynt. Rwy'n ymwybodol bod pobl a'r byd naturiol yn rhyngweithio mewn gwahanol ffyrdd ac, o ganlyniad, rwy’n gwybod y gall nodweddion y lleoedd hynny newid. Gallaf ddisgrifio fy syniadau a'm teimladau am y byd naturiol. Rwy'n ymwybodol bod gan bobl gyfrifoldeb tuag at yr amgylchedd. |
| **Cam Cynnydd 3** | Rwy'n deall bod lleoedd, amgylcheddau a thirweddau yn amrywio oherwydd prosesau ffisegol. Gallaf nodi achosion a chanlyniadau prosesau ffisegol. Gallaf ddisgrifio sut mae prosesau ffisegol a gweithredoedd dynol yn rhyngweithio. Rwy'n disgrifio newid a pharhad sy'n digwydd mewn lleoedd rwy'n dysgu amdanynt a'r effaith y maent yn ei chael ar fywydau pobl. Rwy'n gwybod bod gwahanol esboniadau ar gyfer bodolaeth y byd naturiol. Rwy'n deall y bydd credoau a safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol amrywiol yn effeithio ar ymatebion pobl i'w cyfrifoldeb amgylcheddol. |
| **Cam Cynnydd 4** | Gallaf egluro sut y gall newid amrywio o ran maint a chyflymder ac egluro sut mae newid a pharhad yn effeithio ar le. Rwy'n egluro ac yn gwerthuso pwysigrwydd achosion a chanlyniadau digwyddiadau a newidiadau dros amser yn y byd naturiol, ac yn rhagfynegi canlyniadau posibl. Gallaf egluro'r rhyngweithio rhwng amrywiaeth o brosesau ffisegol ac ymddygiad dynol. Gallaf ddisgrifio ac egluro patrymau a dosbarthiadau ar ystod o raddfeydd. Gallaf werthuso esboniadau cyferbyniol dros fodolaeth y byd naturiol. Gallaf werthuso sut y gall credoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol amrywiol effeithio ar y byd naturiol a sut y gallant ddylanwadu ar ymatebion i gyfrifoldeb amgylcheddol. |
| **Cam Cynnydd 5** | Gallaf edrych drwy gwahanol lensys disgyblaethol wrth gynnal archwiliad beirniadol o'r ffordd y mae newid a pharhad yn gyd-ddibynnol. Rwy'n cyfosod achosion a chanlyniadau lluosog, ac yn dadansoddi sut maent yn rhyngweithio. Rwy'n nodi ac yn deall canlyniadau bwriadol ac anfwriadol gweithredoedd dynol ar y byd naturiol. Rwy'n deall cymhlethdod a natur ddynamig y byd naturiol a chyd-ddibyniaeth gweithredoedd dynol a'r amgylchedd naturiol. Rwy'n dethol ac yn cyfiawnhau dulliau o gynrychioli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau gan ddefnyddio cartograffeg. Gallaf ddadansoddi ac ymateb yn feirniadol i wahanol esboniadau ar gyfer bodolaeth y byd naturiol. Gallaf gynnal archwiliad beirniadol o'r ymatebion crefyddol ac anghrefyddol amrywiol i gyfrifoldeb amgylcheddol. |

DRAFT

## Yr Hyn sy'n Bwysig 4 - Mae ymddygiad a chredoau dynol wedi dylanwadu ar gymdeithas ac wedi'i llywio

**Mae ymddygiad a chredoau dynol wedi dylanwadu ar gymdeithas ac wedi'i llywio**

Mae'r Dyniaethau yn galluogi dysgwyr i ddeall sut y mae cymdeithasau yng Nghymru, ym Mhrydain a'r byd ehangach wedi'u ffurfio a sut y mae unigolion, cymunedau, ffactorau gwleidyddol ac economaidd, gwerthoedd diwylliannol a chredoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol wedi dylanwadu arnynt. Mae cymdeithasau wedi profi parhad a newid sydd wedi effeithio ar fywydau pobl yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn y byd ehangach, ac sy'n parhau i wneud hynny. Mae achosion a chanlyniadau gweithredoedd dynol yn y gorffennol a'r presennol wedi llywio cymdeithas a'r ffordd y mae wedi datblygu, ar adegau gwahanol ac mewn lleoedd gwahanol. Mae'n hanfodol bod disgyblion yn cael cyfleoedd i weld cysylltiadau rhwng cymdeithas heddiw a'r gorffennol, a gweld sut mae safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol amrywiol wedi esblygu dros amser a sut y maent wedi dylanwadu ar ymddygiad a chredoau pobl yng Nghymru a'r byd ehangach heddiw.



| **Gwybodaeth** - mae angen i ddysgwyr wybod am: | **Camau cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Pobl a digwyddiadau pwysig ar draws amrywiaeth o gyfnodau hanesyddol yng Nghymru ac yn y byd ehangach. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae sail gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r ffordd y mae pobl a digwyddiadau wedi llywio cymdeithasau yn hanfodol er mwyn datblygu dysgwyr egwyddorol, gwybodus ac uchelgeisiol a all osod eu bywyd a'u profiadau eu hunain mewn cyd-destun. |
| Ideolegau, credoau ac arferion gwleidyddol ac economaidd sydd wedi dylanwadu ar gymdeithas yng Nghymru ac ar | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 3 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd dilynol. | Gall ideolegau a chredoau gwleidyddol ac economaidd ddylanwadu ar y ffordd y mae pobl yn dewis gweithredu ee. Democratiaeth, Comiwnyddiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| gymdeithasau ledled y byd ac wedi'u llywio. | | |
| Amrywiaeth o wahanol systemau gwleidyddol, sydd wedi llywio cymdeithas ar lefel leol, yng Nghymru, ym Mhrydain ac ar lefel fyd-eang. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 3 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd dilynol. | Mae systemau llywodraethu, arddulliau llywodraethu ac awdurdod yn caniatáu neu'n cyfyngu, yn cefnogi neu'n atal mathau o ymddygiad a gweithredoedd dynol ee. Democratiaeth, Awtocratiaeth, Unbennaeth. |
| Gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol a diwylliannol sydd wedi llywio cymdeithasau lleol, cymdeithasau yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn fyd-eang. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 2 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd dilynol. | Mae gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol ac arferion diwylliannol yn dylanwadu ar gredoau dynol ac felly ar weithredoedd dynol |
| Credoau crefyddol ac anghrefyddol / safbwyntiau byd-eang, traddodiadau ac arferion a sut maent yn ffurfio cymdeithasau ac yn dylanwadu arnynt, yn y gorffennol a'r presennol, yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn y byd ehangach. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae deall pwysigrwydd credoau crefyddol ac anghrefyddol / safbwyntiau byd-eang, arferion, ffyrdd o fyw, defodau, seremonïau a gwyliau a'u symbolaeth yn helpu i ddatblygu dinasyddion egwyddorol ac yn galluogi dysgwyr i ddeall credoau sy'n wahanol i'w credoau eu hunain. |
| Parhad a newid, pwysigrwydd, achos a chanlyniadau a nodweddion tebyg a gwahaniaethau. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae deall natur newid yn hanfodol er mwyn deall y gorffennol a'r dyfodol ac felly mae'n sgil allweddol o ran y datganiad Yr Hyn sy'n Bwysig hwn. |

DRAFT

| **Sgiliau** - mae angen i ddysgwyr allu gwneud y canlynol: | **Camau Cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Cronoleg ac amser | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae deall cronoleg a'r ffordd y mae cymdeithas wedi newid dros amser yn sgil allweddol o ran y datganiad yr Hyn sy'n Bwysig hwn. Er mwyn dod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus mae'n hanfodol bod disgyblion yn meddu ar wybodaeth am gymdeithas a dealltwriaeth ohoni, ac yn deall sut y mae ymddygiad dynol a chredoau wedi dylanwadu arni ar wahanol adegau ac mewn gwahanol leoedd,. |

| **Profiad -** Mae angen i ddysgwyr brofi'r canlynol: | **Camau Cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Ymweld ag amgueddfa leol a/neu safle hanesyddol. | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae hyn yn bwysig er mwyn i ddisgyblion feithrin dealltwriaeth well o'r gorffennol a'r presennol drwy brofi cyfleoedd dilys i deimlo bod cysylltiad rhyngddynt â'r ffordd roedd pobl yn byw yn y gorffennol. (Profiad o wybodaeth a dealltwriaeth o'r byd yn ystod y Cyfnod Sylfaen) |
| Rhyngweithio ag amrywiaeth o ffynonellau, arteffactau, adeiladau, safleoedd a phobl berthnasol. | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae hyn yn bwysig er mwyn i ddisgyblion feithrin dealltwriaeth well o'r gorffennol a'r presennol drwy brofi cyfleoedd dilys i deimlo bod cysylltiad rhyngddynt â'r ffordd roedd pobl yn byw yn y gorffennol. (Profiad o wybodaeth a dealltwriaeth o'r byd yn ystod y Cyfnod Sylfaen) |
| Cyfleoedd i ystyried hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn a dod yn gynyddol ymwybodol o'r traddodiadau a'r dathliadau sy'n bwysig o fewn diwylliannau yng Nghymru. | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae'n bwysig i ddisgyblion ddathlu gwahanol ddiwylliannau a chydnabod eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill a meithrin ymwybyddiaeth gadarnhaol ohonynt. Dylid datblygu agweddau cadarnhaol er mwyn galluogi plant i ddod yn gynyddol ymwybodol o'r amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yng Nghymru amlddiwylliannol, a gwerthfawrogi gwerth yr amrywiaeth honno. (O Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Llesiant ac |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | Amrywiaeth Ddiwylliannol (PSDWCD) yn ystod y Cyfnod Sylfaen) |

| Deilliannau Cyflawniad ar gyfer y Datganiad Yr Hyn sy'n Bwysig | |
|---|---|
| | **Yr Hyn sy’n Bwysig** |
| **Cam Cynnydd 1** | Rwy'n nodi adegau, digwyddiadau a thraddodiadau arbennig yn fy nghymdeithas. Rwy'n nodi agweddau ar gymdeithasau yn y gorffennol a rhai o'r prif ddigwyddiadau a phobl rwyf wedi'u hastudio. Rwy'n ymwybodol o agweddau ar hunaniaethau diwylliannol yng Nghymru. Gwn nad yw pob unigolyn o fewn cymdeithas yr un fath. |
| **Cam Cynnydd 2** | Gallaf roi digwyddiadau mewn trefn a deall y gall y gorffennol gael ei rannu'n gyfnodau amser penodol.  Gwn nad yw cymdeithasau yn sefydlog ac y bu newidiadau, a bod rhain wedi digwydd dros amser. Gwn fod achosion a chanlyniadau yn gysylltiedig â digwyddiadau a bod ymddygiad dynol wedi dylanwadu ar yr achosion a'r canlyniadau hynny. Gallaf nodi diwylliannau o'r presennol a'r gorffennol yng Nghymru a'r byd ehangach. Rwy'n cydnabod bod gan gymdeithasau amrywiaeth o arweinwyr. Rwy'n deall bod cymdeithas yn cynnwys grwpiau amrywiol o bobl sy’n gallu credu mewn gwahanol bethau, yn byw ac yn ymarfer mewn gwahanol ffyrdd. |
| **Cam Cynnydd 3** | Rwy'n deall bod gwahanol ddiwylliannau o'r presennol a'r gorffennol yn cyfrannu at y gymdeithas amrywiol a geir yng Nghymru a'r byd ehangach. Gallaf ddisgrifio digwyddiadau mewn trefn gronolegol a thrafod sut mae cymdeithasau wedi newid ac wedi aros yr un fath. Gallaf nodi achosion a chanlyniadau byrdymor a hirdymor newidiadau mewn cymdeithas a chreu cysylltiadau rhyngddynt. Rwy'n deall y gall y newidiadau hyn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar fywydau a gweithredoedd pobl. Gallaf ddisgrifio sut mae pobl wedi gwneud cyfraniadau sylweddol at gymdeithas yng Nghymru a'r byd ehangach. Rwy'n deall y nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau o fewn credoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol craidd a sut y maent wedi effeithio ar weithredoedd a phenderfyniadau ac wedi dylanwadu arnynt. Gallaf ddisgrifio sut y gall pobl arwain cymdeithasau mewn gwahanol ffyrdd a sut y maent wedi gwneud hynny. |
| **Cam Cynnydd 4** | Rwy'n deall sut mae achosion a chanlyniadau digwyddiadau'r gorffennol yn bwysig o ran ffurfiant a datblygiad cymdeithasau. Rwy'n deall bod ymddygiad a chydberthnasau dynol yn y gorffennol yn dylanwadu ar amrywiaeth ddiwylliannol. Gallaf nodi trobwyntiau pwysig ac achosion a chanlyniadau hirdymor/byrdymor, gan egluro'r effeithiau cadarnhaol a negyddol. Gallaf ddadansoddi newidiadau a chysylltiadau dros/ar hyd amser, lle a'r economi. Gallaf egluro a gwerthuso cyfraniadau pobl at gymdeithas yng Nghymru a'r byd ehangach. Gallaf werthuso'r effaith y mae credoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol amrywiol wedi'i chael ar fywydau unigolion a chymdeithasau yng Nghymru a'r byd. Rwy'n deall sut mae systemau llywodraethu yng Nghymru wedi newid dros amser. Gallaf eu cymharu â systemau llywodraethu eraill ac egluro eu heffaith. |



DRAFT

| | |
|---|---|
| **Cam Cynnydd 5** | Gallaf edrych drwy wahanol lensys disgyblaethol wrth nodi ac egluro natur gymhleth gwahanol ffactorau o fewn cymdeithas yng Nghymru a'r byd ehangach. Gallaf ddadansoddi sut mae diwylliannau wedi addasu ac wedi newid a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar gymdeithas. Gallaf gategoreiddio achosion a chanlyniadau lluosog a dadansoddi'r gydberthynas rhyngddynt. Gallaf ddadansoddi cysylltiadau rhwng nodweddion cymdeithasau ledled y byd ac ar draws cyfnodau o amser, y trobwyntiau pwysig a dod i gasgliadau rhesymegol a chyfiawnhau’r casgliadau hyn. Gallaf gynnal archwiliad beirniadol i ddangos nad proses unigol yw newid a pharhad. Rwy'n deall bod achosion a chanlyniadau yn y gorffennol sy'n bwysig i Gymru, pobl Cymru a'r byd ehangach yn gymhleth. Gallaf nodi a dadansoddi'r effaith a gaiff lleoliad daearyddol, maes dylanwad a diwylliant ar safbwyntiau pobl a'u hymatebion i amrywiaeth o faterion. Gallaf ddadansoddi a gwerthuso sut y gall demograffeg ardal newid dros amser a llywio cymdeithas. Gallaf gynnal gwerthusiad blaenorol o effaith anghydraddoldebau ar safbwyntiau ac ymatebion pobl o fewn cymdeithasau a rhwng cymdeithasau. Rwy'n deall y gwahanol strwythurau a systemau ar gyfer llywodraethu yng Nghymru a'r byd ehangach a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar gymdeithasau a'r datblygiadau democrataidd a chyfreithiol yng Nghymru. Gallaf ddadansoddi'r effaith y mae credoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol amrywiol wedi'i chael ar fywydau unigolion a chymdeithasau yng Nghymru a'r byd. Gallaf werthuso sut y ceir gwrthdaro a sut mae cyfleoedd yn codi o wahanol gredoau ac arferion diwylliannol, crefyddol ac anghrefyddol, a sut yr ymdrinnir â'r rhain â chanlyniadau gwahanol.<br><br>Dull cyflwyno amgen ar gyfer AA yn ystod cam cynnydd 5:<br><br>Hanes<br>• Gallaf nodi ac egluro natur gymhleth gwahanol ffactorau o fewn cymdeithas yng Nghymru a'r byd ehangach.<br>• Gallaf gynnal dadansoddiad beirniadol o sut mae diwylliannau wedi addasu a newid a chanlyniadau hyn o ran cymdeithas.<br>• Gallaf gategoreiddio achosion a chanlyniadau lluosog a dadansoddi'r gydberthynas rhyngddynt.<br>• Gallaf ddadansoddi cysylltiadau rhwng nodweddion cymdeithasau ledled y byd ac ar draws cyfnodau o amser, y newidiadau, y trobwyntiau a'r nodweddion tebyg pwysig a dod i gasgliadau rhesymegol wedi'u cyfiawnhau.<br>• Gallaf gynnal archwiliad beirniadol i ddangos nad proses unigol yw newid a pharhad.<br>• Rwy'n deall bod achosion, canlyniadau ac esboniadau yn y gorffennol o ddigwyddiadau sydd o bwys i Gymru a phobl Cymru yn gymhleth a sut a pham y cawsant eu herio. |

DRAFT

Daearyddiaeth

- Gallaf nodi a dadansoddi'r effaith a gaiff lleoliad daearyddol a diwylliant ar safbwyntiau pobl a'u hymatebion i amrywiaeth o faterion.
- Gallaf ddadansoddi a gwerthuso sut y gall demograffeg ardal newid dros amser a llywio cymdeithas.
- Gallaf gynnal gwerthusiad blaenorol o effaith anghydraddoldebau ar safbwyntiau ac ymatebion pobl o fewn cymdeithasau a rhwng cymdeithasau.

Addysg Grefyddol

- Gallaf gynnal dadansoddiad beirniadol o'r effaith y mae credoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol amrywiol wedi'i chael ar fywydau unigolion a chymdeithasau yng Nghymru a'r byd.
- Gallaf werthuso sut y ceir gwrthdaro a sut mae cyfleoedd yn codi o wahanol gredoau ac arferion diwylliannol, crefyddol ac anghrefyddol, a sut yr ymdrinnir â'r rhain â chanlyniadau gwahanol.

Busnes

- Rwy'n deall y gwahanol strwythurau a systemau ar gyfer llywodraethu yng Nghymru a'r byd ehangach a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar gymdeithasau a'r datblygiadau democrataidd a chyfreithiol yng Nghymru.

DRAFT

## Yr Hyn sy’n Bwysig 5 - Mae dynoliaeth yn wynebu llawer o heriau a chyfleoedd sy'n gofyn am ymatebion gwybodus ac ystyriol.

**Mae dynoliaeth yn wynebu llawer o heriau a chyfleoedd sy'n gofyn am ymatebion gwybodus ac ystyriol.**

Mae deall heriau a chyfleoedd lleol, cenedlaethol a byd-eang cyfredol yn hanfodol er mwyn dod yn ddinesydd egwyddorol a gwybodus. Dylai dysgwyr ddatblygu safbwyntiau gwybodus am heriau a chyfleoedd y mae pobl yng Nghymru a'r byd ehangach yn eu hwynebu. Drwy ystyried cwestiynau hanfodol, bydd dysgwyr yn deall bod credoau, profiadau, safbwyntiau ac amgylchiadau pobl yn dylanwadu ar eu hymatebion i heriau a chyfleoedd. Bydd dysgwyr yn deall ac yn gwerthuso llwyddiant a phriodolrwydd ymatebion amrywiol i heriau a chyfleoedd. Byddant hefyd yn ffurfio ac yn cyfiawnhau eu safbwyntiau am heriau a chyfleoedd yn seiliedig ar eu dealltwriaeth o werthoedd, credoau a safbwyntiau pobl.

| **Gwybodaeth** - mae angen i ddysgwyr wybod am: | **Camau Cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Yr heriau a'r cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol sy'n wynebu Cymru a'r byd a tharddiadau hanesyddol yr heriau a'r cyfleoedd hyn. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Nododd y Gymdeithas Ddaearyddol fod cynaliadwyedd yn her ac yn gyfle allweddol. Roedd o'r farn y dylid cynnwys y cysyniad hwn ar bob lefel er mwyn i ddysgwyr allu archwilio heriau cyd-ddibynnol sy'n seiliedig ar ddyfodol cynaliadwy, deall yr heriau hynny, ymateb iddynt a'u dadansoddi. |
| Yr heriau a'r cyfleoedd gwleidyddol, economaidd a thechnolegol sy'n wynebu Cymru a'r byd a tharddiadau hanesyddol yr heriau a'r cyfleoedd hyn. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 3 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth, pob cam cynnydd dilynol. | Gan fagu annibyniaeth, mae dysgwyr yn meithrin ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a'r heriau hyn yng Nghymru ac yn creu cysylltiadau rhyngddynt, er mwyn iddynt allu dangos eu hymrwymiad i ddyfodol cynaliadwy a dod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus. |
| Yr heriau a'r cyfleoedd mewn perthynas â chredoau crefyddol ac anghrefyddol sy'n wynebu Cymru a'r byd a tharddiadau hanesyddol yr heriau a'r cyfleoedd hyn. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 3 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd dilynol. | Gan fagu annibyniaeth, mae dysgwyr yn meithrin ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a'r heriau hyn yng Nghymru ac yn creu cysylltiadau rhyngddynt, er mwyn iddynt allu dangos eu hymrwymiad i ddyfodol cynaliadwy a dod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus. |



DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | |

DRAFT

| **Sgiliau -** mae angen i ddysgwyr allu gwneud y canlynol: | **Camau Cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Ymdrin â chwestiynau hanfodol er mwyn deall ymatebion pobl i heriau a chyfleoedd | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 3 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd dilynol. | Thema bwysig mewn Addysg Grefyddol |

| **Profiad -** Mae angen i ddysgwyr brofi'r canlynol: | **Camau Cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Profiad: Ystyried her neu gyfle i ddynol ryw a ffyrdd y gallant ymateb iddi/iddo. | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth, pob cam cynnydd. | Gall dysgwyr ddod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus drwy ddatrys problemau. |

| Deilliannau Cyflawniad ar gyfer y Datganiad Yr Hyn sy'n Bwysig | |
|---|---|
| | **Yr Hyn sy'n Bwysig** |
| **Cam Cynnydd 1** | Rwy'n ymwybodol o'r heriau a'r cyfleoedd y mae pobl yn eu hwynebu. Gallaf ddisgrifio'r heriau a'r cyfleoedd hyn a sut maent yn effeithio ar fy mywyd. |
| **Cam Cynnydd 2** | Rwy'n ymwybodol o'r heriau a'r cyfleoedd y mae pobl yng Nghymru a'r byd ehangach yn eu hwynebu a sut mae pobl yn ymateb iddynt. Rwy'n ymateb i gwestiynau am yr heriau a'r cyfleoedd rwy'n dysgu amdanynt. Rwy'n cyfleu fy safbwyntiau fy hun am heriau a chyfleoedd. |
| **Cam Cynnydd 3** | Gallaf ddisgrifio amrywiaeth o heriau a chyfleoedd y mae pobl yng Nghymru a'r byd ehangach yn eu hwynebu a chymharu ymatebion amrywiol pobl iddynt. Rwy'n ymateb i gwestiynau ac yn llunio fy marn fy hun am yr heriau a'r cyfleoedd a archwiliwyd, gan gyfiawnhau fy rhesymau. Rwy'n deall y gall credoau, safbwyntiau, profiadau ac amgylchiadau ddylanwadu ar fy ymateb ac ymatebion amrywiol eraill. |
| **Cam Cynnydd 4** | Gallaf egluro'r heriau a'r cyfleoedd y mae pobl yng Nghymru a'r byd ehangach yn eu hwynebu ac unrhyw gysylltiadau rhyngddynt. Rwy'n cymharu ymatebion i gwestiynau hollbwysig am yr heriau a'r cyfleoedd y mae dynol ryw yn eu hwynebu. Gallaf egluro sut y gall gwahanol gredoau a phrofiadau pobl ddylanwadu ar eu hymatebion. Rwy'n datblygu safbwyntiau gwybodus am yr heriau a'r cyfleoedd y mae pobl yng Nghymru a'r byd ehangach yn eu hwynebu. Rwy'n mynd ati'n annibynnol i gyfleu disgrifiad trefnus o amrywiaeth o farnau am yr heriau a'r cyfleoedd. |
| **Cam Cynnydd 5** | Gallaf edrych drwy wahanol lensys disgyblaethol wrth ystyried yr heriau a'r cyfleoedd y mae pobl yng Nghymru a'r byd ehangach yn eu hwynebu. Gallaf werthuso'r gwahanol ymatebion iddynt a'r effaith bosibl a gânt. Gallaf egluro pam bod pobl yn ymateb yn wahanol i heriau a chyfleoedd yn seiliedig ar wahanol gredoau a phrofiadau. Gallaf gyfosod amrywiaeth o ymatebion er mwyn dod i gasgliad annibynnol a chydlynol y gellir ei gadarnhau. |

DRAFT

## Yr Hyn sy'n Bwysig 6 - Dylai dinasyddion fod yn egwyddorol ac yn wybodus, a dylent allu ymgysylltu â bywyd a gwaith.

**Dylai dinasyddion fod yn egwyddorol ac yn wybodus, a dylent allu ymgysylltu â bywyd a gwaith.**

Mae'r Dyniaethau yn annog dysgwyr i feddwl yn feirniadol am ddulliau ymgysylltu egwyddorol, darbodus, entrepreneuraidd, gwleidyddol neu gymdeithasol yn eu cymunedau.  Bydd dysgwyr yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion egwyddorol, a phwysigrwydd sicrhau eu bod yn parchu hawliau eraill. Mae dysgwyr yn deall cyfrifoldebau cyfreithiol, moesol, crefyddol ac anghrefyddol unigolion a chanlyniadau methu â gweithredu'n unol â hynny. Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o hunaniaeth a hunaniaeth Gymreig. Byddant yn datblygu dealltwriaeth ymwybodol o'u rôl mewn cymdeithas, y byd gwaith ac o'r dylanwadau crefyddol, anghrefyddol, moesol ac egwyddorol ar fywydau pobl.



| **Gwybodaeth** - mae angen i ddysgwyr wybod am: | **Camau Cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Dylanwad ffigyrau hanesyddol, cyfoes a chrefyddol allweddol ar y broses o ddatblygu eu hagweddau a'u gwerthoedd eu hunain. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae'n bwysig bod dysgwyr yn deall beth sy'n dylanwadu ar y broses o ddatblygu eu barn a'u credoau. |
| Rolau economaidd a chymdeithasol y dysgwr ac eraill mewn cymdeithas a'u dewisiadau egwyddorol a moesol fel dinasyddion - | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae'n bwysig bod dysgwyr yn deall eu rôl economaidd bosibl mewn amrywiaeth o gymdeithasau a datblygiad economïau. Bydd dysgwyr yn ystyried dulliau ac enghreifftiau o gyfranogiad cymunedol cyfrifol ac egwyddorol o'r gorffennol a'r presennol a'u rôl wrth ddatblygu cyfiawnder/anghyfiawnder cymdeithasol, gan gynnwys (dosbarthiad cyfoeth, rhyddid crefyddol, rhagfarn a gwahaniaethu, |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| mewn cyd-destun lleol, yng Nghymru ac yn fyd-eang. | | anghydraddoldeb). |
| Rôl wleidyddol y dysgwr ac eraill mewn cymdeithas a'u dewisiadau egwyddorol a moesol fel dinasyddion - mewn cyd-destun lleol, yng Nghymru ac yn fyd-eang. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae'n bwysig bod dysgwyr yn deall eu rôl wrth ymgysylltu'n wleidyddol, megis deall hawliau a chyfrifoldebau, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol yn ogystal â Datganiad Hawliau Dynol Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn gyffredinol. |
| Amrywiaeth Hunaniaeth | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae'n bwysig bod dysgwyr yn ystyried gwahanol agweddau ar hunaniaeth: hunaniaeth genedlaethol, hunaniaeth leol, hunaniaeth grefyddol, hunaniaeth dosbarth, hunaniaeth rhywedd, hunaniaeth rywiol. Mae hyn yn bwysig er mwyn cydnabod a pharchu amrywiaeth yn eu hardal leol, yng Nghymru ac yn y byd ehangach. Yr angen i fodau dynol feddu ar ymdeimlad o hunaniaeth a diben diwylliannol a fu'n amlwg yng Nghymru drwy'r ffordd y mae crefydd a diwylliant wedi'u rhyngblethu. |
| Cyfreithiau, hawliau, cyfrifoldebau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol sy'n dylanwadu ar eu hunaniaeth a'u bywyd eu hunain a phobl eraill. | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae'n bwysig i'r disgyblion ddysgu am gyfreithiau, hawliau, cyfrifoldebau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol. Er mwyn dod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus dylai dysgwyr ddeall eu rhyddid nhw ac eraill i fynegi credoau, emosiynau, profiadau crefyddol, arferion a threfniadau addoli, gan gynnwys ffyrdd y mae pobl yn addoli ac yn dathlu eu ffydd heddiw. Drwy ymgysylltu â'r ffactorau hyn, bydd dysgwyr yn ystyried eu hunaniaeth eu hunain, diben ac ystyr bywyd a sut maent yn perthyn i'r gymdeithas a'r byd y maent yn rhan ohonynt. |
| Hanfod ystyr bod yn rhan o'r ddynolryw sy'n ystyried gwerthoedd a rennir, hunaniaeth, gwerth personol, | I'w gyflwyno yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam | Mae deall beth yw ystyr bod yn rhan o'r ddynolryw yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu hunaniaeth ac i ddeall diben ac ystyr bywyd er mwyn myfyrio ar y cwestiynau canlynol: Pwy ydw i? O ble rwy'n dod? Pam wyf yma? |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| creadigrwydd, dychymyg, cariad, ffyddlondeb a daioni. | cynnydd. | |

| **Sgiliau -** Mae angen i ddysgwyr allu gwneud y canlynol: | **Camau Cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| | | |

| **Profiad -** Mae angen i ddysgwyr brofi'r canlynol: | **Camau Cynnydd** | **Rhesymeg** |
|---|---|---|
| Profiad: Cyfleoedd i fyfyrio ar eu hysbrydolrwydd a'i ddatblygu | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Er mwyn dod yn fod dynol cytbwys, mae angen i ddysgwyr ddatblygu eu natur ysbrydol, eu chwilfrydedd deallusol, eu natur feddwl agored, eu goddefgarwch, eu hemosiwn, eu cydymdeimlad , eu sgiliau myfyrio, eu greddf a'u hymdrechion i ddod o hyd i ystyr. |
| Profiad: Cyfleoedd i annog agweddau mentrus. | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 2 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd dilynol. | Mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn dysgu am fentergarwch er mwyn ymdrin ag agwedd economeg y Dyniaethau ac er mwyn datblygu dysgwyr creadigol a mentrus sy'n gwerthfawrogi eu rôl yn y byd gwaith ac yn deall y rôl honno. |
| Profiad: Cyfleoedd i ddatblygu eu hymdeimlad o fod yn un o ddinasyddion Cymru a'r byd | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 1 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod pob cam cynnydd. | Mae'n bwysig bod dysgwyr yn meithrin ymdeimlad o ddinasyddiaeth er mwyn deall eu hunaniaeth eu hunain a'u hymdeimlad o berthyn yn ogystal â meithrin eu dealltwriaeth o eraill. Mae buddiannau economaidd yn gysylltiedig â datblygu dinasyddiaeth, yn ogystal â pharatoi dysgwyr i ddeall achosion a chanlyniadau eu gweithredoedd ar bobl o'u hamgylch yng Nghymru ac yn y byd ehangach. Mae meddu ar ymdeimlad o fod yn ddinesydd yn helpu dysgwyr i fyw mewn cymdeithas decach a mwy cynhwysol lle y mae pobl yn cymryd rhan ynddi ac yn perthyn iddi. |

| | | |
|---|---|---|
| Profiad: Cynllunio cyfraniad cymunedol lleol neu fath o weithredu cymdeithasol yng Nghymru. | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 4 ac yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod cam cynnydd 5. | Mae cynllunio cyfraniad cymunedol lleol neu fath o weithredu cymdeithasol yn rhoi cyfle i ddysgwyr ymdrin â phroblem gymdeithasol neu fater sy'n bwysig i'w cymuned leol, genedlaethol neu fyd-eang.<br>Mae'n gofyn i ddysgwyr roi o'u hamser a dod o hyd i adnoddau eraill er lles pawb. |
| Profiad: Trafod materion cymdeithasol cyfredol yng Nghymru a'r byd ehangach | I'w brofi yn ystod cam cynnydd 3 a'i ailystyried yn fanylach ac mewn ffordd fwy cymhleth yn ystod y camau cynnydd dilynol. | Mae cymryd rhan mewn trafodaethau a dadleuon yn fodd amhrisiadwy i ddysgwyr gyfleu a phrofi eu dealltwriaeth, myfyrio ar ddilysrwydd safbwyntiau eraill a dod i gasgliadau gwybodus a chytbwys. Yn ei dro, mae hyn yn datblygu dysgwyr sy'n unigolion iach a hyderus. |

| **Deilliannau Cyflawniad ar gyfer y Datganiad Yr Hyn sy'n Bwysig** | |
|---|---|
| | **Yr Hyn sy'n Bwysig-** |
| **Cam Cynnydd 1** | Rwy'n ymwybodol o bwy ydwyf ac fy mod yn rhan o wahanol gymunedau. Gallaf ddweud sut rwy'n teimlo a chydnabod bod gan bobl eraill deimladau. Rwy'n ymwybodol bod pobl yn credu mewn gwahanol bethau. Rwy'n ymwybodol bod gennyf hawliau. Gwn y gwahaniaeth rhwng da a drwg. Gallaf ofalu am leoedd sy'n bwysig i mi. Rwy'n deall bod gan bobl wahanol fathau o swyddi a'u bod yn gwneud gwahanol fathau o waith.  Rwy'n ymwybodol bod arian yn cael ei ddefnyddio yn y byd. |
| **Cam Cynnydd 2** | Mae gennyf ymdeimlad o hunaniaeth a gallaf ymgysylltu ag amrywiaeth o gymunedau. Rwy'n cydnabod pwysigrwydd rolau a chyfrifoldebau yn y cymunedau hynny. Gallaf ddangos sut rwy'n gyfrifol am fy nghymuned agos a'r gymuned ehangach ac egluro pam bod hyn yn bwysig. Rwy'n gwybod beth sy'n ymddygiad derbyniol ac rwy'n deall canlyniadau fy ngweithredoedd. Rwy'n datblygu cydymdeimlad tuag at eraill ac yn deall y gall credoau crefyddol ac anghrefyddol pobl effeithio ar eu hymddygiad a'u gweithredoedd, yn arbennig wrth ymateb i faterion egwyddorol. Rwy'n ymwybodol o'r gwahaniaethau rhwng swyddi pobl yn y byd gwaith ac yn datblygu fy sgiliau entrepreneuraidd a'm defnydd o arian. Rwy'n ymwybodol o hawliau plentyn. |
| **Cam Cynnydd 3** | Rwy'n deall bod gwahanol agweddau yn gysylltiedig â'm hunaniaeth i a hunaniaethau pobl eraill. Rwyf wedi ymgymryd â rôl weithredol fel dinesydd cyfrifol yn fy nghymuned leol, yng Nghymru ac yn y byd ehangach. Gallaf drafod materion sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol a chyfrifoldeb moesol. Gallaf ddisgrifio goblygiadau peidio â gofalu am yr amgylchedd i fi fy hun ac i eraill. Gallaf ddisgrifio sut mae pobl eraill yn teimlo mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Rwy'n deall sut mae fy newisiadau a'm |

| | |
|---|---|
| | hymddygiad yn effeithio ar faterion lleol, cenedlaethol a byd-eang. Gwn fod gan bobl wahanol safbwyntiau, gwahanol gredoau crefyddol ac anghrefyddol a gallaf egluro sut y gall hyn effeithio a dylanwadu ar eu gweithredoedd a'u penderfyniadau. Gallaf ddisgrifio materion egwyddorol ac ystyried amrywiaeth o ymatebion. Rwy'n deall democratiaeth a gallaf ymgysylltu â'r broses. Rwy'n ymwybodol o reolau a chyfreithiau ac yn eu dilyn ac rwy'n deall fy hawliau a'm cyfrifoldebau. Gallaf ddisgrifio amrywiaeth o swyddi a rolau sy'n bodoli mewn gwahanol rannau o'r byd gwaith. Rwyf wedi meithrin fy sgiliau entrepreneuraidd drwy amrywiaeth o brofiadau ac yn deall elw a cholled. |
| **Cam Cynnydd 4** | Rwy'n deall hunaniaethau amrywiol eraill a'r ffyrdd y mae cymunedau yn rhyngweithio. Gallaf nodi, cynllunio a gweithredu er mwyn chwarae rhan weithredol fel dinesydd cyfrifol yn fy nghymuned leol, yng Nghymru ac yn y byd ehangach. Rwy'n deall effaith fy ngweithredoedd ar yr amgylchedd o'm rhan i fy hun ac o ran cenedlaethau'r dyfodol. Gallaf werthuso sut mae fy ngweithredoedd yn effeithio ar eraill a gallaf gydymdeimlo. Gallaf ddadansoddi sut mae credoau crefyddol ac anghrefyddol yn effeithio ar benderfyniadau moesol ac egwyddorol a wneir. Rwy'n cydnabod effaith awdurdod, democratiaeth, hawliau a chyfrifoldebau yng Nghymru a'r byd ehangach, a sut y gall newidiadau ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir. Gallaf ddeall fod hierarchaeth rolau o fewn amrywiol sectorau o'r economi a'r gwahanol rolau a swyddogaethau o fewn busnesau a sefydliadau. Gwn fod goblygiadau ariannol yn gysylltiedig ag ymgymryd ag un o'r rolau hynny. Rwy'n gweithredu mewn ffordd annibynnol wrth ymgymryd â gweithgareddau mentrus ac entrepreneuraidd. |
| **Cam Cynnydd 5** | Gallaf ddadansoddi sut mae unigolion a chymunedau yn rhyngweithio ac egluro sut a pham mae'r rhyngweithiadau hyn wedi datblygu. Gallaf nodi, cynllunio, gweithredu a gwerthuso'r rôl rwy'n ei chwarae fel dinesydd cyfrifol yn fy nghymuned leol a'm cymuned ehangach, yng Nghymru ac yn y byd ehangach. Gallaf gydymdeimlo ag eraill ac addasu ymddygiad a gweithredoedd yn briodol. Gallaf werthuso llwyddiant strategaethau a roddwyd ar waith i ofalu am yr amgylchedd a'r byd ehangach ac awgrymu datrysiadau eraill posibl. Gallaf gynnal dadansoddiad beirniadol a chyfosod credoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol amrywiol a'u heffaith ar faterion moesol ac egwyddorol. Gallaf ddisgrifio ac egluro rôl rhanddeiliaid mewn busnes a'r economi. Rwyf wedi meithrin sgiliau entrepreneuraidd a gallaf gymhwyso'r prosesau busnes er mwyn gallu cynllunio, gweithredu a gwerthuso. Rwy'n deall goblygiadau amrywiol amgylchiadau economaidd. |

## Atodiad 2 – Diffiniad o'r Dyniaethau

Datblygwyd y diffiniad drafft canlynol gan y grŵp.

Mae'r Dyniaethau yn astudio profiad pobl yn y gorffennol a'r presennol. Mae'n galluogi i ni ystyried enghreifftiau posibl o'r dyfodol ar gyfer y ddynolryw/pobl Cymru a'r byd ehangach. Mae'r Dyniaethau yn cynnig amrywiaeth o lensys y gallwn eu defnyddio i ddeall a phrosesu profiadau'r ddynolryw. Mae'r Dyniaethau yn galluogi i ni feithrin hunanymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n lle yn y byd/lle Cymru yn y byd. Mae'r Dyniaethau yn cynnwys dysgu am y ffactorau sy'n dylanwadu ar gymdeithas, yr amgylchedd, diwylliant, ymddygiad pobl, y gydberthynas rhwng pobl a'r amgylchedd naturiol a chymdeithasol yng Nghymru a'r byd ehangach. Mae disgyblaethau'r Dyniaethau yn defnyddio proses ymholi sy'n greiddiol er mwyn datblygu ffordd o feddwl beirniadol. Mae'r Dyniaethau yn cynnig persbectifau i ni ystyried cysyniadau hanesyddol, daearyddol, crefyddol, anghrefyddol, gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol/cymdeithasegol a chlasurol. Mae'r Dyniaethau yn anelu at annog dysgwyr i wneud cyfraniad cadarnhaol at eu cymunedau/cymdeithas yng Nghymru drwy ymgysylltu (ac ymgysylltu'n feirniadol) â materion lleol, cenedlaethol a byd-eang er mwyn dod yn ddinesyddion cyfrifol yng Nghymru a'r byd ehangach.

DRAFT

**Cyfarfod Cymdeithas CYSAG au Cymru, yn Oriel Ynys Môn, Rhosmeirch, Ynys Môn, LL77 7TQ**

**Dydd Gwener, 6 Gorffennaf 2018 (10.30 – 12.30)**

***Wales Association of SACREs meeting, at the Oriel, Llangefni, Rhosmeirch, Anglesey, LL77 7TQ***

***Friday, 6 July 2018 (10.30 – 12.30)***

**Agenda**

1. Cyflwyniad a chroeso / *Introduction and welcome*
2. Adfyfyrio tawel / *Quiet reflection*
3. Ymddiheuriadau / *Apologies*
4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Abertawe, Dydd Gwener, 9 Mawrth 2018 / *Minutes of meeting held in Swansea Friday, 9th March, 2018*
5. Materion yn codi / *Matters arising*
6. Cyflwyniad NAPfRE / *NAPfRE presentation: REQM – Linda Rudge*
7. Cyflwyniad CCYSAGau Cymru/*WASACRE presentation:* Addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3/*Religious education at key stage 2 and key stage 3 - Liz Counsell (Estyn)*
8. Diweddariad y Cwricwlwm Newydd/ New Curriculum Update - *Manon Jones*
9. Gweinyddiaeth CCYSAGau Cymru - Cynnig ar gyfer Is-adran Rôl Ysgrifennydd/ WASACRE Administration – Proposal for Division of Role of Secretary
10. Diweddariadau/*Up-dates*
11. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 15 Mai 2018/*Report from the Executive Committee held on 15 May 2018*
12. Dangos a dweud/ *Show and tell*
13. Gohebiaeth /*Correspondence*
14. U.F.A. / *A.O.B.*
15. Dyddiad y cyfarfod nesaf / *Date for next meeting*:
    i. *Autumn 2018* – Bro Morgannwg /*Vale of Glamorgan (TBC)*
    ii. *Spring 2019* – Caerdydd/*Cardiff (TBC)*
    iii. *Summer 2019* – Conwy (TBC)

This page is intentionally left blank

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf DGJ/dho
Ein cyf KW/01214/18

Dylan Rees
Cadeirydd
CYSAG
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd Y Cyngor
Llangefni
Ynys Mon - Anglesey
LL77 7TS

dgjed@anglesey.gov.uk

25 Mai 2018

Annwyl Dylan Rees

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Mai ynghylch cymwysterau TGAU a Safon Uwch CBAC mewn Addysg Grefyddol.

Mewn ymateb i'ch pryderon bod cynnwys y cwrs TGAU yn ormod o faich, cymeradwywyd y cwrs gan Cymwysterau Cymru ac felly mae'n debygol bod y broblem yn gysylltiedig â'r ffaith nad yw rhai ysgolion yn rhoi'r oriau dysgu dan arweiniad gofynnol i'r cwrs o 120 awr dros 2 flynedd. Er bod hyn yn fater o bryder, mae CBAC wedi ceisio dod o hyd i ffyrdd o gyfuno cynnwys y pwnc er mwyn ceisio goresgyn y broblem hon. Er enghraifft, ar safle Adnoddau Digidol CBAC, mae yna ddogfen dysgu sbiral sy'n dangos ffyrdd y gellid cyfuno'r cynnwys tebyg sydd ar gael ar draws y fanyleb.

http://resources.wjec.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rIid=2694&langChange=cy-GB

Rydw i'n sylweddoli pa mor rhwystredig i ddysgwyr ac athrawon yw'r oedi gyda chyhoeddi gwerslyfrau. Rydw i wedi ymrwymo i wneud popeth yn fy ngallu er mwyn sicrhau bod yr adnoddau priodol ar gael i'n hathrawon a'n dysgwyr, yn y Gymraeg ac yn Saesneg yr un pryd. Dyma pam rydw i wedi sefydlu grŵp rhanddeiliaid i ystyried yr atebion posibl i'r problemau yr ydym wedi eu hwynebu gydag adnoddau yn ystod y gyfres ddiweddaraf o ddiwygiadau i gymwysterau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw CBAC ei hun yn cyhoeddi gwerslyfrau ac nid yw'n gyfrifol am yr oedi. Cynhyrchir gwerslyfrau addysgol gan gyhoeddwyr masnachol, yn yr achos hwn Illuminate Publishing, a nhw sy'n penderfynu pa deitlau i'w comisiynu ac i reoli'r amserlen gyhoeddi. Nid oes gan Lywodraeth Cymru na CBAC unrhyw bŵer dros y penderfyniadau hyn. Fodd bynnag, er nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bŵer dros y penderfyniadau masnachol a wneir gan y cwmnïau hyn, mae swyddogion yn parhau i drafod â'r tai cyhoeddi er mwyn ystyried y dewisiadau ar gyfer y dyfodol.


Fodd bynnag, mae CBAC wedi cyhoeddi cyfres o adnoddau digidol amrywiol sydd ar gael yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho o'u gwefan er mwyn cynorthwyo athrawon sy'n darparu'r cymhwyster Safon Uwch mewn Addysg Grefyddol. Mae'r adnoddau ar gael yn http://resources.wjec.co.uk/Pages/ResourceByArgs.aspx?subId=26&lvlId=1

Mae'r ddogfen Canllawiau ar gyfer Addysgu a gyhoeddwyd yr un pryd â'r fanyleb ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch, yn rhestru adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol i athrawon hefyd, ac mae ar gael yn:

http://www.cbac.co.uk/qualifications/religious-studies/r-religious-studies-gce-asa-from-2016/WJEC%20GCE%20Religious%20Studies%20Guidance%20for%20Teaching.pdf?language_id=2

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg